Y
Comisiwn
Etholiadol

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015–16

HC 524

Y
Comisiwn
Etholiadol

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16

HC524

Y
Comisiwn
Etholiadol

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Atodlen 1, Paragraffau 20(1) ac 18(2)(b) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.
Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 21 Gorffennaf 2016

HC524

(h) Y Comisiwn Etholiadol 2016

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (mae hyn yn eithrio, lle y bo'n bresennol, yr Arfau Brenhinol a'r holl logos adrannol ac asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Comisiwn Etholiadol a nodi teitl y ddogfen. Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid ceisio caniatâd gan briod ddeiliad yr hawlfraint.

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn gael ei anfon i:

3 Bunhill Row, Llundain EC1Y 8YZ

Ffôn 0333 103 1928
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.comisiwnetholiadol.org.uk

Argraffiad ISBN: 9781474135795
Gwefan ISBN: 9781474135801

Argraffwyd yn y DU gan y Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID: SGD0012562 07/16

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi ei ailgylchu

Cynnwys

Cyflwyniad 02

Yr Adroddiad ar Berfformiad 03

Trosolwg 03

Dadansoddi Perfformiad 10

Yr Adroddiad ar Atebolrwydd 27

Yr Adroddiad ar Lywodraethu Corfforaethol 27

Adroddiad y Cyfarwyddwyr 27

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 31

Datganiad Llywodraethu 33

Yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff 45

Yr Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio 65

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin 71

Datganiadau Ariannol 73

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr 73

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol 74

Datganiad o Lifau Arian Parod 75

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 76

Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau 77

Manylion Cyswllt 95

Cyflwyniad

Sefydlwyd y Comisiwn Etholiadol o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA). Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar lywodraeth a phleidiau gwleidyddol ac yn uniongyrchol atebol i Senedd y DU drwy Bwyllgor a gadeirir gan Lefarydd Tŷ'r Cyffredin. Mae'r Comisiwn hefyd yn atebol i Senedd yr Alban mewn perthynas â'i swyddogaethau yn ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol yn yr Alban.

Paratoir adroddiad blynyddol a chyfrifon 2015-16 y Comisiwn yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon, a nodir ar dudalen 90 a gyhoeddir gan Drysorlys EM o dan baragraff 17(2) o Atodlen 1 PPERA.

Paratoir yr adroddiad ar Bwerau a Sancsiynau ar dudalen 55 yn unol â pharagraff 15 Atodlen 19(b) a pharagraff 27 Atodlen 19(c) PPERA.

Yr Adroddiad ar Berfformiad

Trosolwg

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi manylion am amcanion, strategaethau, gweithgareddau a pherfformiad y Comisiwn ar gyfer 2015-16 ac yn cyflwyno cyfrifon y Comisiwn ar gyfer yr un cyfnod.

Neges gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un brysur iawn i'r Comisiwn. Yn ogystal â chefnogi'r newid i gofrestriad etholiadol unigol yn lle cofrestriad cartref, yn union wedi Etholiad Cyffredinol Senedd y DU ym mis Mai 2015 gwnaethom ddechrau paratoi ar gyfer y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Yn ogystal â hyn, drwy gydol 2015-16 roeddem yn paratoi ar gyfer y gyfres gymhleth o bleidleisiau ym mis Mai 2016 ac yn ogystal â'r prosiectau mawr hyn, roedd gweithgareddau 'busnes fel arfer' yn parhau i gael eu cyflawni i safon uchel. Yn ail hanner y flwyddyn ymunodd Claire fel Prif Weithredwr a lansiodd adolygiad strategol a gaiff ei gwblhau yn 2016-17 i'w roi ar waith o fis Ebrill 2017.

Nodir llawer o gyflawniadau'r Comisiwn yn 2015-16 ar y tudalennau canlynol. Ochr yn ochr â'r cyflawniadau hyn rydym wedi parhau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn ein cyllideb ac wedi cyflawni gostyngiadau mewn gwariant craidd o fwy na 30% mewn termau real ers 2010. Byddwn yn parhau i geisio arbedion effeithlonrwydd o ran gwariant ar sail barhaus gan sicrhau bod adnoddau priodol ar waith i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein rôl yn effeithiol.

Hoffem ddiolch i'n staff, a phawb sy'n gweithio'n fwy cyffredinol yn y system etholiadol, am ymateb yn gadarnhaol i'r heriau hyd yma. Ni fyddem wedi cyflawni llwyddiant y flwyddyn ddiwethaf heb gefnogaeth ein staff a'r sefydliadau eraill rydym yn gweithio gyda hwy ac edrychwn ymlaen at wynebu'r heriau a'r cyfleoedd i ddod.



Jenny Watson
Cadeirydd

Claire Bassett
Prif Weithredwr

Egwyddorion ac Amcanion

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn ymrwymedig i draddodiad cryf y Deyrnas Unedig o etholiadau rhydd, sy'n rhan hanfodol o ddemocratiaeth iach.

Rydym:

- yn gweithio i wasanaethu pobl y Deyrnas Unedig
- yn ymrwymedig i ddiogelu a hyrwyddo democratiaeth
- yn rhoi pleidleiswyr yn gyntaf

Byddwn yn ceisio newid os bydd y dystiolaeth yn dangos bod angen newid er mwyn gwasanaethu pobl y Deyrnas Unedig, a'u democratiaeth, yn well.

Ein hegwyddorion ar gyfer etholiadau rhydd sy'n ategu democratiaeth iach

- **Ymddiriedaeth:** dylai fod modd i bobl ymddiried yn y ffordd y mae ein hetholiadau yn gweithio a'r ffordd y mae ein system cyllid gwleidyddol yn gweithio

- **Cymryd rhan:** dylai fod yn syml i bobl gymryd rhan yn ein hetholiadau a'n system cyllid gwleidyddol, p'un a ydynt yn pleidleisio neu'n ymgyrchu: a dylai pobl fod yn hyderus bod eu pleidlais yn cyfrif

- **Dim dylanwad gormodol**: ni ddylai fod dim dylanwad gormodol o ran y ffordd y mae ein hetholiadau a'n system cyllid gwleidyddol yn gweithio

Ein hamcanion ar gyfer etholiadau rhydd sy'n ategu democratiaeth iach

Etholiadau, refferenda a system gofrestru etholiadol a gaiff eu cynnal yn dda

Rydym am i bobl ledled y Deyrnas Unedig fod yn hyderus ynghylch y canlynol:

- bod cofrestru i bleidleisio a chymryd rhan mewn etholiadau yn syml, hygyrch a diogel
- y cânt wasanaeth o ansawdd uchel yn gyson, lle bynnag maent yn byw, ni waeth pa etholiadau neu refferenda a gynhelir

Tryloywder o ran cyllid pleidiau ac etholiadau, gyda lefelau uchel o gydymffurfio

Rydym am i bobl ledled y Deyrnas Unedig fod yn hyderus ynghylch y canlynol:

- bod tryloywder ynghylch cyllid pleidiau ac etholiadau, fel bod pobl yn gwybod o ble y daw'r arian a sut y caiff ei wario
- bod pobl sydd am sefyll etholiad, a phobl a sefydliadau sydd am ymgyrchu mewn etholiadau, yn gallu canfod yn hawdd sut i gymryd rhan, beth yw'r rheolau a beth sydd angen iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheolau hynny

- y dilynir y rheolau ar gyllid pleidiau ac etholiadau, ac yr ymdrinnir â'r rhai nad ydynt yn eu dilyn yn briodol ac effeithiol
- y gall pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr gymryd rhan mewn etholiadau heb rwystrau diangen.

Safonau perfformiad

Cwmpasodd cyflawniadau'r Comisiwn yn ystod 2015-16 ystod eang o feysydd ac fe'u crynhoir isod gyda mwy o fanylion yn yr adran Dadansoddi Perfformiad sy'n dilyn.

- Cofrestru etholiadol
- Cymryd rhan mewn etholiadau a refferenda
- Twyll etholiadol
- Y Fframwaith etholiadol
- Sicrhau y gall pleidleiswyr weld sut mae gwleidyddion ac ymgyrchwyr yn codi arian ac yn ei wario
- Rheoleiddio effeithiol
- Y fframwaith ar gyfer cyllid pleidiau gwleidyddol
- Perfformiad ariannol

Cofrestru etholiadol

Mae rhaglen Cofrestriad Etholiadol y Comisiwn yn canolbwyntio ar y gwaith o sicrhau'r lefelau cofrestru uchaf posibl yn ogystal â chefnogi'r newid i gofrestriad etholiadol unigol yn lle cofrestriad cartref. Gwnaed cryn dipyn o waith yn ystod 2015-16 wrth i'r broses o newid i Gofrestriad Etholiadol Unigol ddod i ben. Yn ogystal â chyflwyno safonau perfformiad newydd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol a monitro eu gweithgareddau ar gyfer gweithredu'r Cofrestriad Etholiadol Unigol, gwnaethom gyhoeddi nifer o adroddiadau. Roedd y rhain yn cynnwys ein hasesiad o gynnydd o ran y newid i Gofrestriad Etholiadol Unigol hyd at gyhoeddi'r cofrestri ar gyfer pleidleisiau mis Mai 2015 a dadansoddiad o gofrestri mis Rhagfyr 2015 ym Mhrydain y nododd eu cyhoeddiad ddiwedd y newid i Gofrestriad Etholiadol Unigol.

Cymryd rhan mewn etholiadau a refferenda

1 Mewn perthynas ag Etholiad Cyffredinol Senedd y DU ym mis Mai 2015 ac etholiadau lleol yn Lloegr, gwnaethom gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru; adrodd ar ddull gweinyddu'r pleidleisiau; a chyhoeddi ffurflenni gwariant manwl ar ymgyrchu i ymgyrchwyr pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

2 Wrth baratoi ar gyfer etholiadau mis Mai 2016, gwnaethom gyhoeddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol, ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid a Swyddogion Canlyniadau; lansiwyd ymgyrch aml-gyfrwng i godi ymwybyddiaeth o'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru a datblygwyd partneriaethau ag ystod o sefydliadau o'r sectorau corfforaethol, cyhoeddus a gwirfoddol gyda'r nod o gyrraedd y pleidleiswyr 'anodd eu cyrraedd' traddodiadol hynny i'w hannog i gofrestru i bleidleisio. Cefnogwyd

Wythnos Genedlaethol Cofrestru Pleidleiswyr ym mis Chwefror ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy weithgareddau eraill.

3 O ran y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd, cynhaliwyd cyfres o weithgareddau gennym yn 2015-16, gan gynnwys rhoi briff i ASau ac Arglwyddi yn ystod camau gwahanol hynt Bil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd drwy'r Senedd; cyhoeddi ein cyngor statudol ar gwestiwn arfaethedig y refferendwm; rhoi canllawiau i Swyddogion Cyfrif, Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol, ymgyrchwyr a'r cyfryngau; cyhoeddi diweddariadau rheolaidd ymgyrchwyr; cofrestru ymgyrchwyr y refferendwm; a chynnal cyfres o seminarau rhanbarthol i Swyddogion Cyfrif a'u staff.

Twyll etholiadol

4 Yn 2015-16 gwnaethom barhau i fonitro 17 o ardaloedd awdurdod lleol y nodwyd eu bod yn wynebu mwy o risg o dwyll etholiadol cyn etholiadau mis Mai 2015 a dechrau monitro'r un ardaloedd, gan ychwanegu un, cyn etholiadau mis Mai 2016. Gwnaethom barhau i weithio gyda'r heddlu, gweinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol er mwyn atal a chanfod twyll yn gynnar; ac ymateb i adolygiad Syr Eric Pickles o dwyll etholiadol.

5 Cyhoeddwyd ein hadroddiad hefyd ar 'Adolygiad o wendidau twyll etholiadol mewn gorsafoedd pleidleisio', a argymhellodd y dylid ei gwneud yn ofynnol i bleidleiswyr ledled Prydain gyflwyno ffurf adnabod ffotograffig dderbyniol cyn cael papur pleidleisio a phleidleisio yn yr orsaf bleidleisio.

Fframwaith etholiadol

6 Cyhoeddwyd adroddiad gennym ar 'Costau Cudd Cyfraith Etholiadol', lle edrychwyd ar aneffeithlonrwydd a chostau cyfle a gynhyrchir gan y system gyfredol a beth y gellid ei leihau neu ei osgoi pe bai'n cael ei ddiwygio a'i symleiddio.

7 Ym mis Awst cyhoeddwyd ein hail ymateb i'r papur ymgynghori a gyhoeddwyd gan Gomisiynau'r Gyfraith ym mis Rhagfyr 2014. Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddodd Comisiynau'r Gyfraith eu hargymhellion terfynol ar gyfer diwygio cyfraith etholiadol. Croesawyd y cynigion hyn a chredwn y byddant yn mynd i'r afael â llawer o'r anawsterau a geir gyda'r gyfraith gyfredol drwy leihau'r beichiau a osodir ar weinyddwyr etholiadol ac, yn y pen draw, y costau sy'n gysylltiedig â chynnal digwyddiadau etholiadol. Mae gan yr adolygiad gefnogaeth unfrydol y gymuned etholiadol a hoffem weld Llywodraethau'r DU a'r Alban yn cymeradwyo'r adolygiad yn ddi-oed er mwyn symud ymlaen i'r cam nesaf o ddrafftio'r ddeddfwriaeth, i'w rhoi ar waith ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2020 ac etholiadau 2021 i seneddau datganoledig. Rydym wedi ysgrifennu at y Llywodraethau yn gofyn iddi gymeradwyo hyn yn ddi-oed.

8 Gwnaethom gyflwyno ein hymateb i ymgynghoriad Swyddfa'r Cabinet ar reoliadau drafft Adalw ASau. Gwnaed y rheoliadau terfynol a daethant i rym ar ddechrau mis Mawrth 2016.

Sicrhau y gall pleidleiswyr weld sut mae gwleidyddion ac ymgyrchwyr yn codi arian ac yn ei wario

9 Cyhoeddwyd manylion gennym, bob chwarter, am gyfanswm o £66.9 miliwn a dderbyniwyd gan bleidiau gwleidyddol mewn rhoddion yn ystod 2015. Cyhoeddwyd gwybodaeth hefyd am ddatganiadau cyfrifon pleidiau a ffurflenni gwariant ar ymgyrchu gan bleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

10 Ymatebwyd i'r 'alwad am dystiolaeth a barn' a gyhoeddwyd gan yr Arglwydd Hodgson ym mis Mehefin 2015 fel rhan o'i adolygiad o weithrediad ac effeithiolrwydd y darpariaethau sy'n rheoleiddio ymgyrchu trydydd parti.

Rheoleiddio effeithiol

11 Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig gennym, yn seiliedig ar ein hadolygiad o bolisi cofrestru pleidiau yn 2014-15, ar y broses o gofrestru pleidiau gwleidyddol a'r defnydd o fanylion adnabod (enwau pleidiau, disgrifiadau ac arwyddluniau) ar bapurau pleidleisio.

12 Cwblhawyd ein hadolygiad yn 2015 o enw pob plaid, ei disgrifiad a'i harwyddlun a geir yng Nghofrestri Prydain a Gogledd Iwerddon er mwyn sicrhau bod y manylion adnabod presennol yn cydymffurfio â gofynion PPERA.

13 Ym mis Tachwedd 2015 dechreuwyd postio ar-lein unrhyw enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau arfaethedig newydd i gael sylwadau'r cyhoedd cyn dod i benderfyniad ynghylch p'un a ddylid eu cofrestru ai peidio. Ar ddechrau 2016, gwnaethom ddechrau cyhoeddi gwybodaeth am ein penderfyniadau ynghylch p'un a ddylid eu cymeradwyo neu eu gwrthod.

14 Gwnaethom gyhoeddi hefyd astudiaeth i effaith enwau pleidiau, eu disgrifiadau a'u harwyddluniau ar ddefnyddioldeb papurau pleidleisio.

Y fframwaith ar gyfer cyllid pleidiau gwleidyddol

15 Ym mis Mehefin 2013 cyhoeddwyd adolygiad mawr o'r rheolau cyfredol ar roddion a gwariant ar ymgyrchu, gan wneud 50 o argymhellion i ddiweddaru'r gyfraith sy'n ymdrin â phleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr eraill; gwella'r wybodaeth sydd ar gael i bleidleiswyr; cynyddu effeithiolrwydd y rheolau; a gwneud rhwymedigaethau yn fwy cymesur â'r rhai y mae'r Comisiwn yn eu rheoleiddio. Gweithredwyd nifer o'r argymhellion hynny yn y ddeddfwriaeth ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU yn 2015 a refferendwm 2016 ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Perfformiad ariannol

16 Wrth gyflawni ein hamcanion, gwariodd y Comisiwn gyfanswm o £18,198k, £3,223k yn llai na chyfanswm y terfyn cyllido o £21,421k. Mae hyn yn cynnwys:

- Tanwariant o £3,161k yn erbyn adnoddau gyda phleidlais y mae £1,874k yn ymwneud â gwaith paratoadol ar gyfer y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd

(noder: cytunwyd ar gyllideb o £3,250k ar gyfer gweithgarwch y refferendwm yn ystod hydref 2015 yn seiliedig ar y dyddiad posibl cynharaf ar gyfer y refferendwm. Pan gadarnhawyd mai dyddiad y refferendwm oedd 23 Mehefin 2016 rhagwelwyd y byddai tua £1,600k o'r gwariant posibl yn 2016-17 yn hytrach na 2015-16 gan adael tanwariant yn erbyn cyllideb 2015-16).

- Tanwariant o £19k yn erbyn y dyraniad cyfalaf gyda phleidlais o £250k
- Tanwariant o £43k yn erbyn adnoddau heb bleidlais (ffioedd Comisiynwyr) o £265k

Materion a risgiau allweddol

Roedd y risgiau sefydliadol (strategol) a gafodd eu monitro a'u rheoli gan y Comisiwn yn 2015-16 fel a ganlyn:

- Mae'r Comisiwn yn aneffeithiol wrth gyflawni ei gynllun corfforaethol
- Mae'r cyhoedd wedi colli hyder yn y ffordd y cafodd refferendwm yr UE ei gynnal
- Nid oedd rhan o bleidleisiau mis Mai 2016 neu bob rhan ohonynt wedi eu cynnal yn dda
- Mae digwyddiadau nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Comisiwn yn cael effaith ar ei enw da
- Rheoleiddio rheolau Cyllid Pleidiau ac Etholiadau yn aneffeithiol
- Mae'r Comisiwn yn methu ag ymateb yn ddigonol i fwy o ddatganoli

Ceir rhagor o wybodaeth am ddull y Comisiwn o reoli risgiau yn y datganiad llywodraethu ar dudalen 38.

Nodyn Busnes Gweithredol

Caiff y gwaith o ariannu rhwymedigaethau'r Comisiwn yn y dyfodol (i'r graddau na ellir eu talu o incwm a dderbynnir gan y Comisiwn) ei dalu drwy grantiau cyflenwadau a gymeradwyir yn flynyddol gan Senedd y DU neu, lle y gorchmynnir gan ddarpariaeth statudol, drwy daliadau yn uniongyrchol o'r Gronfa Gyfunol. Mae'r Comisiwn yn debygol o barhau i gael cyllid gan Senedd yr Alban ar gyfer gweithgareddau cytûn.

Cafwyd cymeradwyaeth am yr adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer 2016-17 ac nid oes lle i gredu na cheir cymeradwyaeth yn y dyfodol. Felly, ystyrir ei fod yn briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn.

Gosodwyd ein Cynllun Corfforaethol 2016-17 i 2020-21, sy'n nodi blaenoriaethau'r Comisiwn dros y pum mlynedd nesaf, gerbron y Senedd ar 26 Mai 2016.

Refferendwm yr UE

Ar 23 Mehefin 2016 cynhaliwyd refferendwm yr UE a phleidleisiodd pobl y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd. Hyd nes y daw'r negodiadau ynghylch gadael i ben, bydd y DU

yn parhau i fod yn aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd a bydd yr holl hawliau a rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig ag aelodaeth o'r UE yn parhau mewn grym.

Yn ystod y cyfnod hwn bydd y Llywodraeth yn parhau i negodi, gweithredu a chymhwyso deddfwriaeth yr UE. Cyfrifoldeb y Llywodraeth, o dan arweiniad y Prif Weinidog newydd, fydd dechrau negodiadau i adael yr UE. Bydd canlyniad y negodiadau hyn yn penderfynu pa drefniadau sy'n gymwys mewn perthynas â deddfwriaeth yr UE a chyllid yn y dyfodol pan fydd y DU wedi gadael yr UE. Mae hyn felly yn ddigwyddiad na ellir ei addasu ac na ellir amcangyfrif ei effaith ariannol ar y Comisiwn. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn yn adolygu'r amserlen digwyddiadau etholiadol arfaethedig (sy'n cynnwys etholiadau i Senedd Ewrop yn 2019) ac yn gwneud diwygiadau addas pan gytunir ar newidiadau.

Dadansoddi Perfformiad

Mesurau Perfformiad

Rydym yn olrhain ein perfformiad drwy gydol y flwyddyn drwy gyfres o fesurau perfformiad corfforaethol. Mae'r targedau hyn yn cwmpasu ein prif feysydd gweithgarwch fel cofrestru etholiadol, gweithio gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau, rheoleiddio a chefnogi pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr, a deall barn pleidleiswyr.

Mae Bwrdd y Comisiwn yn cytuno ar ein mesurau perfformiad corfforaethol bob blwyddyn a chyflwynir adroddiad i'r Bwrdd bob chwarter. Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad y Comisiwn yn erbyn ein mesurau perfformiad corfforaethol yn 2015-16.

Mesur Perfformiad	**Perfformiad Gwirioneddol**
1 miliwn o ychwanegiadau at gofrestri etholiadol yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Chymru o ganlyniad i ymgyrch codi ymwybyddiaeth Prydain.	**1,561,093**
10,000 o ychwanegiadau at y gofrestr etholiadol yng Ngogledd Iwerddon o ganlyniad i ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd yng Ngogledd Iwerddon.	**8,303**
100,000 o gofrestriadau pleidleiswyr tramor ychwanegol o ganlyniad i ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd dramor	**67,355**
Mae **100%** o'r bobl sydd am gofrestru i bleidleisio yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud ac maent yn ymwybodol o'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru cyn pleidlais fawr. (Noder: Adroddir ar y perfformiad hwn hyd at fis Mawrth 2016 h.y. cyn refferendwm yr UE)	**Dd/G**
Caiff 100% o'r etholaeth ledled y DU eu gwasanaethu gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol sy'n cyrraedd safonau perfformiad y CE ar gyfer darparu gwasanaethau cofrestru etholiadol o ansawdd uchel.	**99.6%**[1]
Bydd 100% o Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cael y canllawiau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt gan y Comisiwn i'w galluogi i ddarparu gwasanaeth cofrestru etholiadol a gaiff ei gynnal yn dda.	Canllawiau wedi'u cyhoeddi ar amser Ymatebwyd i 98.1% o ymholiadau ar amser
Caiff 100% o'r etholaeth ledled y DU eu gwasanaethu gan Swyddogion Canlyniadau sy'n cyrraedd safonau perfformiad y CE ar gyfer etholiadau a gaiff eu cynnal yn dda.	**91.8%**
Caiff 100% o'r etholaeth ledled y DU eu gwasanaethu gan Swyddogion Canlyniadau sy'n cyrraedd safonau perfformiad y CE o ran **uniondeb etholiadol.**	**100%**
Mae 100% o'r Swyddogion Canlyniadau yn cael y canllawiau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt gan y Comisiwn i'w galluogi i gynnal etholiadau yn dda.	Canllawiau wedi'u cyhoeddi ar amser Ymatebwyd i 98.2% o ymholiadau ar amser
Caiff pob pleidlais a fwriwyd ei chynnwys yn y cyfrif ar gyfer etholiadau yn y DU - Mae gwaith y Comisiwn Etholiadol yn cyfrannu at leihad yn nifer y pleidleisiau a wrthodir (gweler mesurau yn y golofn nesaf - **lleihau yn agos at 0% o wrthodiadau).**	3.7% o becynnau pleidleisio drwy'r post wedi'u gwrthod 0.3% o bapurau pleidleisio wedi'u gwrthod
Ymddiriedir yng nghanlyniadau etholiadau a refferenda a chânt eu derbyn - Mae gwaith y Comisiwn Etholiadol yn cyfrannu at leihad yn nifer yr heriau cyfreithiol - oherwydd twyll etholiadol neu gamgymeriadau wrth weinyddu - **lleihau i sero.**	Chwe deiseb
Mae gwaith y Comisiwn Etholiadol yn hwyluso **cydymffurfiaeth o 100% â gofynion adrodd statudol** ar gyfer pleidliau rheoledig sydd â throsiant o fwy na £250,000.	**91.8%**

[1]Yn seiliedig ar asesiadau cyfredol. Caiff asesiadau terfynol eu cwblhau erbyn mis Gorffennaf 2016.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn sicrhau y cyhoeddir canllawiau ar gyfer pawb a reoleiddir gennym a bod y Comisiwn yn rhoi'r cymorth sydd ei angen arnynt i'w galluogi i gydymffurfio â'r rheolau.	Canllawiau wedi'u cyhoeddi ar amser Ymatebwyd i 97.7% o ymholiadau ar amser
Caiff **100%** o waith achos ac ymchwiliadau'r Comisiwn Etholiadol eu cwblhau o fewn y dyddiadau cau cyhoeddedig.	Cwblhawyd 96.1% ar amser
Mae'r Comisiwn Etholiadol yn sicrhau bod **100% o'r ffurflenni gwariant ar ymgyrchu yn cael eu cyhoeddi** o fewn 8 wythnos ar ôl i'r ymgyrchwyr ddychwelyd y wybodaeth i'r Comisiwn erbyn y dyddiad statudol.	**97%**
Mae gwaith y Comisiwn Etholiadol yn cyfrannu at wella hyder pobl fod cofrestru i bleidleisio yn syml, hygyrch a diogel o **67%-89% (Blwyddyn ariannol 14/15) i 100%.** Gweler tudalen 14	**68% - 90%**
Mae gwaith y Comisiwn Etholiadol yn cyfrannu at wella hyder pobl fod cymryd rhan mewn etholiadau yn syml, hygyrch a diogel o **73% - 97% (Blwyddyn ariannol 14/15) i 100%.** Gweler Tudalen 14	**77% - 90%**
Mae gwaith y Comisiwn Etholiadol yn cyfrannu at wella hyder pobl y caiff camau priodol eu cymryd os torrir rheolau cyllid pleidiau ac etholiadau.	**o 41% i 50%**

Manylion y perfformiad yn ystod 2015-16

Roedd Cynllun Corfforaethol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer y cyfnod 2015-16 i 2019-20[2] wedi ei gymeradwyo gan Bwyllgor y Llefarydd ym mis Mawrth 2015. Nododd y cynllun nifer o flaenoriaethau cyflawni allweddol:

- Cofrestru etholiadol
- Cymryd rhan mewn etholiadau a refferenda
- Twyll etholiadol
- Y Fframwaith etholiadol
- Sicrhau y gall pleidleiswyr weld sut mae gwleidyddion ac ymgyrchwyr yn codi arian ac yn ei wario
- Rheoleiddio effeithiol
- Y fframwaith ar gyfer cyllid pleidiau gwleidyddol

Yn yr adrannau sy'n dilyn, nodwn sut y mae'r Comisiwn wedi cyflawni'r blaenoriaethau hyn yn 2015-16 a pherfformiad yn erbyn mesurau allweddol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, safbwyntiau ein rhanddeiliaid.

1.1 Cofrestru Etholiadol

Mae rhaglen Cofrestriad Etholiadol y Comisiwn yn canolbwyntio ar y gwaith o sicrhau'r lefelau cofrestru uchaf posibl yn ogystal â chefnogi'r newid i gofrestriad etholiadol unigol yn lle cofrestriad cartref. Dechreuodd y cam, ym Mhrydain, o newid i Gofrestriad Etholiadol Unigol yn lle cofrestriad cartref yn ystod haf 2014. Cyflwynwyd adroddiad gennym ym mis Hydref 2014 ar ganlyniadau'r ymarfer byw cadarnhau - cam cyntaf y newid - ac unwaith eto ym mis Chwefror 2015, gan roi ein hasesiad o'r cynnydd cyffredinol wrth gyflawni'r newid hyd at hynny.

[2] Cymeradwywyd Cynllun Corfforaethol y Comisiwn ar gyfer 2015-16 i 2019-20 (HC 106) gan Bwyllgor y Llefarydd ac mae ar gael yn http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0007/190429/Corporate-Plan-2015-16-to-2019-20-FINAL-Welsh-web-version.pdf

Yn 2015-16 gwnaethom:

- Gyhoeddi ein hadroddiad ar gofrestri etholiadol mis Mawrth 2015 yn yr Alban (cyhoeddwyd ein dadansoddiad o gofrestri etholiadol awdurdodau lleol Rhagfyr 2014 ledled Cymru a Lloegr ym mis Chwefror 2015). Canfu ein dadansoddiad fod cynnydd wedi bod o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y cofnodion o gymharu â mis Mawrth 2014. Fodd bynnag, canfuwyd hefyd fod lleihad wedi bod yn nifer y cofnodion ar gyfer y rhai 18 oed a hŷn ers refferendwm annibyniaeth yr Alban ym mis Medi 2014.
- Ym mis Mai 2015 cyhoeddwyd ein canllawiau i gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau cofrestru etholiadol a'u cynnal yn dda. Drwy gydol y flwyddyn diwygiwyd y canllawiau hyn gennym i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol perthnasol a'r cam i gwblhau'r newid i Gofrestriad Etholiadol Unigol ym mis Rhagfyr 2015.
- Ym mis Mehefin cyhoeddwyd ein hasesiad diweddaraf o gynnydd o ran y newid i Gofrestriad Etholiadol Unigol hyd at gyhoeddi'r cofrestri a oedd mewn grym ar gyfer pleidleisiau mis Mai 2015. Yn yr adroddiad hwn gwnaethom argymell y dylid cadw mis Rhagfyr 2015, fel y nodir yn y gyfraith, fel cam olaf y broses (pan fyddai pob cofnod nad oedd wedi ei ddilysu yn erbyn cofnodion a ddelir gan y Llywodraeth neu a ddelir yn lleol yn cael ei ddileu o'r cofrestri). Fodd bynnag, anghytunodd y Llywodraeth â'n hargymhellion ac, ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd ei benderfyniad i gyflwyno'r newid yn gynt, sef ym mis Rhagfyr 2015. Cymeradwyodd y Senedd benderfyniad y Llywodraeth ym mis Hydref.
- Cafodd Bil Etholiadau'r Alban (Gostwng yr Oedran Pleidleisio) Gydsyniad Brenhinol ar 24 Gorffennaf 2015, gan ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau Senedd yr Alban a llywodraeth leol i bobl ifanc 16 a 17 oed. Er mwyn adlewyrchu'r newid hwn gwnaethom ddiweddaru ein canllawiau ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac yn ystod yr haf cynhaliwyd ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ledled yr Alban i annog pobl ifanc 15-17 oed i ychwanegu eu manylion at y gofrestr etholiadol.
- Yn ein hadroddiad ar Etholiad Cyffredinol Senedd y DU ym mis Gorffennaf, gwnaethom ailadrodd ein hargymhelliad blaenorol ynghylch yr angen i gyflwyno dull cofrestru etholiadol ar-lein yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Prif Swyddog Etholiadol ar gyfer Gogledd Iwerddon bellach wedi ymrwymo i lansio dull cofrestru ar-lein yn ystod hydref 2016.
- Ym mis Hydref, amlinellodd y Gweinidog Diwygio Cyfansoddiadol ei weledigaeth ar gyfer proses cofrestru etholiadol fodern, symlach a mwy costeffeithiol. Yn dilyn hyn, gwnaethom ddechrau gweithio'n agos gyda chydweithwyr o Swyddfa'r Cabinet a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i egluro ein rôl wrth gefnogi'r gwaith o wireddu gweledigaeth y Gweinidog, yn enwedig mewn perthynas â chreu Academi sydd â'r dasg o nodi a rhannu enghreifftiau o arfer da yn y gymuned etholiadol. Fel rhan o'r weledigaeth, mae'r Llywodraeth hefyd yn bwriadu ystyried ffyrdd o wella effeithlonrwydd y broses gofrestru etholiadol o dan Gofrestriad Etholiadol Unigol drwy gynlluniau peilot, fel y gellir lleihau costau cysylltiedig a gwella cywirdeb a chyflawnrwydd y gofrestr ar yr un pryd. Cefnogwn yr egwyddor o brofi dulliau gweithredu amgen drwy raglen o gynlluniau peilot sydd wedi'u cynllunio'n dda a byddwn yn gwerthuso'r cynlluniau fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.
- Ym mis Chwefror 2016 cyhoeddwyd asesiad o gofrestri etholiadol 1 Rhagfyr 2015 ym Mhrydain, lle y gwelwyd bod nifer y cofnodion a ddilëwyd o'r cofrestri ar ddiwedd y cyfnod o newid tua 770,000 (1.7% o'r etholaeth). Oherwydd problemau a wynebwyd

gennym wrth gasglu data cywir, nid oeddem yn gallu amcangyfrif nifer yr etholwyr cymwys a gafodd eu dileu o'r cofrestri, ond nodwyd ei bod yn debygol fod rhai o'r cofnodion a gafodd eu dileu yn ymwneud ag etholwyr a oedd yn gymwys i barhau i gofrestru i bleidleisio. Fodd bynnag, nodwyd hefyd, ers 1 Rhagfyr, fod 1.3 miliwn o geisiadau i gofrestru i bleidleisio wedi'u gwneud, yn dilyn y gweithgarwch cofrestru sylweddol a oedd yn parhau i ddigwydd ledled y DU cyn pleidleisiau mis Mai 2016. Er mwyn cyflawni asesiad cynhwysfawr, mynegwyd y bwriad i weithio'n agosach gyda chyflenwyr y systemau data dros y misoedd nesaf er mwyn helpu i wella ansawdd y data a chynnal adolygiad o'r ffigurau newydd yn ein hastudiaeth ar gywirdeb a chyflawnrwydd y cofrestri hyn i'w cyhoeddi yn ystod haf 2016.

- Darparodd ein hadroddiad ar gofrestri etholiadol 1 Rhagfyr 2015 y wybodaeth ddiweddaraf hefyd am ein gwaith o fonitro perfformiad Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn erbyn yr ail o'n safonau perfformiad sy'n ymwneud â chyflawni'r cynllun gweithredu, monitro cynnydd a gwneud diwygiadau lle bo angen. O gofio'r problemau wrth gasglu data a grybwyllwyd uchod, bu'n rhaid i ni ddod i'r casgliad y bydd y broses asesu yn gorfod parhau heibio dyddiad cyhoeddi'r adroddiad a phan fydd y broses wedi'i chwblhau, caiff diweddariad ei gyhoeddi yn ystod haf 2016.
- Yn dilyn ymgynghoriad rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr ar ein set newydd arfaethedig o safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol, gwnaethom gyhoeddi'r safonau newydd ar 15 Mawrth 2016. Mae'r safonau newydd yn canolbwyntio ar ddau brif faes (fframwaith ar gyfer cyflawni'r gweithgarwch cofrestru i gynnal cofrestri cywir a chyflawn) ac yn anelu at gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau cofrestru etholiadol a'u cynnal yn dda o dan y system Cofrestriad Etholiadol Unigol newydd.

Barn rhanddeiliad:

Bob blwyddyn mewn arolwg barn gyhoeddus flynyddol yn ystod y gaeaf rydym yn mesur gwybodaeth pleidleiswyr am sut i gofrestru a boddhad â'r broses. Yn 2015, roedd 90% o'r cyhoedd yn y DU yn gwybod sut i fynd ati i gofrestru i bleidleisio (yn unol â'r 89% yn 2014), ac roedd 75% yn fodlon ar y system cofrestru i bleidleisio (o gymharu â 78% yn 2014).

1.2 Cymryd rhan mewn etholiadau a refferenda

Etholiadau Mai 2015 a Mai 2016
Mae'r rhaglen etholiadau a refferenda lleol yn goruchwylio gweithgareddau'r Comisiwn i sicrhau digwyddiadau etholiadol a gaiff eu cynnal yn dda.
Yn 2015-16 gwnaethom:

- Gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd i godi ymwybyddiaeth o'r angen i gofrestru i bleidleisio cyn etholiadau mis Mai 2015 (Etholiad Cyffredinol Seneddol yn y DU ac etholiadau lleol yn Lloegr). Yn ystod cyfnod yr ymgyrch cwblhawyd bron 2.3 miliwn o geisiadau cofrestru ar-lein ym Mhrydain (yn erbyn targed o 1 filiwn). Fel rhan o'r ymgyrch hon, datblygwyd partneriaethau ag ystod o sefydliadau o'r sectorau corfforaethol, cyhoeddus a gwirfoddol gyda'r nod o gyrraedd y pleidleiswyr 'anodd eu cyrraedd' traddodiadol hynny. Gwnaethom weithio mewn partneriaeth hefyd â Channel 4 ar hysbyseb a fabwysiadodd arddull ei sioe boblogaidd, Gogglebox ac a ddefnyddiodd rhai o gast y rhaglen honno.

- Cyhoeddi ein hadroddiad ar y ffordd y gweinyddwyd etholiadau mis Mai 2015, lle y gwelwyd bod y pleidleisiau wedi cael eu cynnal yn dda ar y cyfan, gyda lefelau uchel o foddhad pleidleiswyr (dywedodd 91% o'r bobl a gafodd eu harolygu fod y pleidleisiau wedi cael eu cynnal yn dda ac roedd 94% o'r rheini a bleidleisiodd mewn gorsaf bleidleisio yn fodlon ar y broses). Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys nifer o argymhellion yn dilyn gwersi a ddysgwyd o'r pleidleisiau, yn bennaf ym meysydd cofrestru ar-lein, pleidleiswyr tramor a'r gofyniad i bleidleiswyr ym Mhrydain ddarparu prawf adnabod mewn gorsafoedd pleidleisio.
- Ochr yn ochr ag adroddiad yr etholiad, gwnaethom hefyd gyhoeddi asesiad, yn seiliedig ar sampl o risgiau, o'r graddau y llwyddodd Swyddogion Canlyniadau i gyflawni'r safonau perfformiad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2013. Mae'r safonau yn canolbwyntio ar y canlyniadau allweddol o safbwynt pleidleiswyr a'r rhai sydd am sefyll etholiad ac mae'n cwmpasu'r amrywiaeth o weithgareddau a gyflawnir gan Swyddogion Canlyniadau wrth baratoi ar gyfer etholiadau a sicrhau y cânt eu cynnal yn dda. Canfu'r adroddiad fod 30 o Swyddogion Canlyniadau wedi methu â chyflawni un neu fwy o elfennau'r safonau.
- Cyhoeddi ffigurau gwariant ar ymgyrchu ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ym mhleidleisiau mis Mai 2015 ac, ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau, gwnaethom hefyd gyhoeddi pum adroddiad wythnosol ar roddion cyn y bleidlais rhwng 12 Ebrill a 10 Mai 2015.
- Cyhoeddi ein dadansoddiad blynyddol o honiadau o dwyll etholiadol yr hysbyswyd yr heddlu amdanynt yn ystod 2015, gan gynnwys honiadau a gofnodwyd gan yr heddlu yn ystod pleidleisiau mis Mai 2015; a gwybodaeth am y chwe deiseb etholiadol a ddilynodd y pleidleisiau hyn.
- Cyhoeddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol, ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid a Swyddogion Canlyniadau cyn y gyfres gymhleth o bleidleisiau a drefnwyd ar gyfer mis Mai 2016 (etholiad Senedd yr Alban, etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon, etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn Lloegr (heblaw am Lundain a Manceinion) a Chymru, etholiadau Maer Llundain a Chynulliad Llundain, etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr, gan gynnwys etholiadau maerol ym Mryste, Salford a Lerpwl).
- Ym mis Chwefror, lansiwyd ymgyrch aml-gyfrwng i godi ymwybyddiaeth o'r dyddiad cau cofrestru ar gyfer pleidleisiau mis Mai 2016. Fel rhan o'r ymgyrch hon ac yn dilyn y fformiwla lwyddiannus a ddefnyddiwyd ar gyfer pleidleisiau mis Mai 2015, datblygwyd partneriaethau gennym hefyd â mwy na chwedeg o sefydliadau fel Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, RNIB, Shelter a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, a'u cefnogi mewn gweithgareddau i hyrwyddo cofrestru a rhoi gwybodaeth i bobl am sut i gymryd rhan yn yr etholiadau. Gwnaethom hefyd ymuno â Channel 4 a chynhyrchwyr Hollyoaks i ddarlledu hysbysebion pwrpasol yn cynnwys aelodau o gast yr opera sebon a oedd wedi'u hanelu at atgoffa gwylwyr o'r angen i gofrestru cyn pleidleisiau mis Mai 2016.
- Hefyd ym mis Chwefror, cefnogwyd wythnos Ymgyrch Genedlaethol Cofrestru Pleidleiswyr ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy weithgareddau eraill, ac, ar 4 Chwefror, targedwyd etholwyr tramor drwy ein Diwrnod Cofrestru Pleidleiswyr Tramor. Roedd hwn yn ddiwrnod o weithgareddau a gefnogwyd gan gymunedau alltud, llysgenadaethau a chonswliaethau ledled y byd gyda'r nod o annog Dinasyddion Prydain sy'n byw dramor i gofrestru i bleidleisio.

- Ym mis Chwefror, cyhoeddwyd adroddiad gennym yn dilyn ein prosiect cyfrif Pleidleisiau Sengl Trosglwyddadwy (STV), a edrychodd ar ffyrdd o wella effeithlonrwydd a thryloywder cyfrifon STV yng Ngogledd Iwerddon. Roedd ein hargymhellion yn cynnwys sicrhau bod y Prif Swyddog Etholiadol yn defnyddio model cyfrif bach ar gyfer cyfrifon yn y dyfodol.
- Monitro ymgyrchu gan bleidiau gwleidyddol, ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ac ymgeiswyr i sicrhau bod y rheolau ar wariant ymgyrchu a rhoddion yn cael eu dilyn.
- Ateb bron 15,000 o alwadau, negeseuon e-bost a llythyrau gan y cyhoedd ar bwnc etholiadau a chofrestru etholiadol a thros 770 yn ymwneud â refferendwm yr UE. Ymatebwyd i 97% o'r ymholiadau hyn o fewn targed o wythnos.
- Ateb 94 o lythyrau gan uwch randdeiliaid ar amrywiaeth eang o bynciau gan gynnwys cofrestriad etholiadol unigol, gwariant ar ymgyrchu a phleidleisio drwy'r post. Atebwyd 90% o'r llythyrau o fewn 10 diwrnod gwaith.

Barn rhanddeiliaid:

Mae'r Comisiwn yn cynnal ymchwil gyda'r cyhoedd ar ôl digwyddiadau etholiadol i fesur hyder a boddhad â'r broses etholiadol. Yn 2015, cynhaliwyd ymchwil ar ôl pleidleisiau mis Mai 2015. Yn ystod pleidleisiau mis Mai 2015:

- Dywedodd naw o bob 10 person (91%) eu bod yn hyderus iawn neu'n weddol hyderus bod yr etholiadau wedi cael eu cynnal yn dda. Roedd y lefel hyder hon yn sylweddol uwch na'r hyn a gofnodwyd yn dilyn yr etholiadau Ewropeaidd ym mis Mai 2014 (73%) a'r Etholiad Cyffredinol ym mis Mai 2010 (70%).
- Roedd y bobl a bleidleisiodd yn fwy hyderus bod pleidleisiau mis Mai 2015 wedi cael eu cynnal yn dda: roedd 93% o'r rhai a bleidleisiodd yn hyderus o gymharu â 69% o'r rhai na bleidleisiodd. Roedd y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd am beidio â theimlo'n hyderus bod yr etholiadau'n cael eu cynnal yn dda yn ymwneud â'r system bleidleisio (ymatebion fel 'hen ffasiwn/system bleidleisio annheg' neu 'nid yw barn pobl yn ddilys' - a nodwyd gan 20% o'r rhai a ddywedodd nad oeddent yn hyderus); y farn bod problemau o ran yr orsaf bleidleisio neu'r bleidlais (ymatebion fel 'wedi ei chynnal/threfnu'n wael', 18%), a drwgdybio gwleidyddion neu'r system wleidyddol ('Yn eu drwgdybio/ddim yn cadw at eu haddewidion', 18%).
- Roedd lefelau boddhad yn uchel iawn ymhlith y rhai a bleidleisiodd: dywedodd 94% o'r rhai a bleidleisiodd yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio eu bod yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar y broses bleidleisio, a dywedodd 84% ei bod yn ffordd gyfleus iddynt bleidleisio; Dywedodd 97% o'r bobl a bleidleisiodd drwy'r post eu bod yn fodlon ar y ffordd hon o bleidleisio, a dywedodd 95% ei bod yn ffordd gyfleus iddynt bleidleisio.

Refferendwm yr UE

Mae rhaglen waith y Comisiwn yn canolbwyntio ar gyflawni gweithgareddau'r Comisiwn yn llwyddiannus mewn perthynas â'r refferendwm ar yr aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Nod ein gweithgareddau yw sicrhau bod y Comisiwn yn helpu i gynnal refferendwm sy'n rhoi pleidleiswyr yn gyntaf ac sy'n creu canlyniad y gallant ymddiried ynddo.
Yn 2015-16 gwnaethom:

- Gyhoeddi sawl briff i ASau ac Arglwyddi ar gamau gwahanol hynt Bil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd drwy'r Senedd, yn dilyn ei gyflwyno ar 28 Mai 2015.

- Gan ddechrau o fis Gorffennaf, gwnaethom hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymgyrchwyr am amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys gwybodaeth sylfaenol am y refferendwm a'n rôl ni yn y broses o'i gynnal, cofrestru fel ymgyrchydd, dynodi prif ymgyrchwyr, a dyddiadau a dyddiadau cau allweddol.
- Dros yr haf cynhaliwyd ymchwil bellach ag aelodau o'r cyhoedd a chasglwyd adborth gan grwpiau a sefydliadau â diddordeb ar y cwestiwn arfaethedig a nodir yn y Bil. Yn dilyn y gweithgarwch hwn, gwnaethom gyhoeddi ein cyngor statudol ar gwestiwn arfaethedig y refferendwm lle yr argymhellwyd y dylid newid y cwestiwn arfaethedig o 'A ddylai'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd?' (gydag opsiynau ymateb 'Dylai' a 'Na ddylai') i '**A ddylai'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu adael yr Undeb Ewropeaidd?'** (gydag opsiynau ymateb 'Aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd' a 'Gadael yr Undeb Ewropeaidd'). Yn dilyn hyn, cafodd ein hargymhelliad ei dderbyn gan y Llywodraeth a Senedd y DU.
- Ym mis Tachwedd, yn dilyn ymgynghoriad dros yr haf, cyhoeddwyd ymateb y Prif Swyddog Cyfrif ar y dull o reoli'r refferendwm ac amseriad y cyfrif. Yn yr ymateb hwn, cadarnhawyd y byddai'r Prif Swyddog Cyfrif yn rhoi cyfarwyddiadau ar bynciau amrywiol, gan gynnwys y gofyniad i Swyddogion Cyfrif gynnal y broses gyfrif dros nos (gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio).
- Derbyniodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 17 Rhagfyr 2015 ac, ar yr un diwrnod, gwnaethom gyhoeddi ein hasesiad cyntaf o'r paratoadau a'n parodrwydd ar gyfer y refferendwm. Canfuwyd bod y trefniadau ar gyfer cynnal refferendwm yn dda yn mynd rhagddynt yn dda ac y gellid eu cwblhau pan gyhoeddwyd dyddiad y refferendwm.
- Ym mis Ionawr cyhoeddwyd ein canllawiau cychwynnol i Swyddogion Cyfrif, Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol, ymgyrchwyr a'r cyfryngau, a gwmpasodd wybodaeth am y refferendwm, gweinyddu'r pleidleisiau a'r rheolau ar ymgyrchu a gwariant. Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth ar ddyddiad y refferendwm ym mis Chwefror a chymeradwyo'r ddeddfwriaeth eilaidd ofynnol wedi hynny, gwnaethom ddiwygio'r canllawiau a'u hail-gyhoeddi ym mis Mawrth.
- Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth y byddai darpariaethau Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd yn cychwyn ar 1 Chwefror, gwnaethom ddechrau cofrestru unigolion a sefydliadau a oedd yn bwriadu gwario mwy na £10,000 yn hyrwyddo canlyniad yn ystod cyfnod y refferendwm. Erbyn diwedd mis Mawrth roeddem wedi cofrestru 33 o ymgyrchwyr, i gyd o fewn ein targed cofrestru o bum diwrnod gwaith.
- Ar 22 Chwefror, cyhoeddodd y Llywodraeth y rheoliadau drafft yn cynnwys dyddiad y refferendwm ac yn nodi manylion eraill fel hyd cyfnod y refferendwm, y cyfnod ar gyfer ceisiadau i ddod yn sefydliad dynodedig a'r cyfnodau adrodd ar gyfer rhoddion a thrafodion eraill. Roedd y rheoliadau drafft yn darparu ar gyfer sicrhau y byddai ymgyrchwyr yn gallu gwneud cais am ddynodiad rhwng 4 Mawrth a 31 Mawrth ac yna byddem yn gwneud ein penderfyniad ynghylch dynodiadau erbyn 14 Ebrill. Yn dilyn hyn, byddai cyfnod 10 wythnos y refferendwm yn dechrau ar 15 Ebrill ac yn dod i ben ar ddyddiad y bleidlais. Cymeradwywyd y rheoliadau drafft gan Ddau Dŷ'r Senedd a daeth i rym ar 4 Mawrth.
- Hefyd ar 22 Chwefror, rhoesom friff i Seneddwyr, gan roi ein hail asesiad o baratoad a pharodrwydd i gynnal y refferendwm. Canfu ein hasesiad cyffredinol fod y trefniadau ar gyfer cynnal refferendwm yn dda ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn mynd rhagddynt yn dda, ac y gellid bellach cwblhau'r trefniadau hynny nawr bod dyddiad arfaethedig y refferendwm yn hysbys.

- Rhwng mis Ionawr a mis Chwefror cynhaliodd ein Cadeirydd, Prif Swyddog Cyfrif y refferendwm, gyfres o seminarau rhanbarthol ar gyfer Swyddogion Cyfrif i baratoi ar gyfer refferendwm yr UE. Roedd llawer o'r Swyddogion Cyfrif ac uwch aelodau o'u staff yn bresennol yn y sesiynau briffio a nodwyd nad oedd unrhyw broblemau sylweddol o ran cynnal y refferendwm.
- Caffaelwyd system ar y we i gasglu a choladu canlyniadau'r refferendwm a phrofwyd y system gyda phob swyddog cyfrif lleol a rhanbarthol. Mae'r system yn dangos cyfansymiau lleol a rhanbarthol yn llawn wrth iddynt ddod ar gael.
- Cwblhawyd ein dull o ymdrin â gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer y refferendwm. Roedd y rhain wedi'u hanelu at hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r refferendwm a sut i bleidleisio ynddo, a gwnaeth y brif ymgyrch bara o tua chwe wythnos cyn y diwrnod pleidleisio tan ddiwrnod y refferendwm ac fe'i gwelwyd ar gyfryngau amrywiol gan gynnwys y teledu, radio, y wasg ac ar-lein. Yn debyg i'r refferendwm ar annibyniaeth yr Alban, gwnaethom anfon llyfryn gwybodaeth hefyd i bob cartref, yn cynnwys gwybodaeth am y refferendwm a sut i gofrestru a phleidleisio, a thudalen o wybodaeth gan y prif ymgyrchydd dynodedig ar y naill ochr a'r llall i'r ddadl ar y refferendwm.
- Cwblhawyd ein dull o adrodd ar y refferendwm, gyda'r nod o gyhoeddi adroddiad ar y ffordd y cynhaliwyd y pleidleisiau dri mis ar ôl y diwrnod pleidleisio, dadansoddiad cynhwysfawr o gostau cyffredinol y refferendwm chwe mis ar ôl y diwrnod pleidleisio, ac adroddiad ar wariant gan ymgyrchwyr o fewn 16 wythnos i'r dyddiad cau olaf ar gyfer ffurflenni gwariant. Hefyd, byddwn yn cyhoeddi'r adroddiadau ymchwil llawn ar ein gwefan, yn ôl ein harfer ar gyfer adroddiadau etholiadol.

Refferendwm ar annibyniaeth yr Alban
Cefnogodd rhaglen refferendwm y Comisiwn ar annibyniaeth yr Alban refferendwm mis Medi 2014 ar annibyniaeth yr Alban, a'i nod oedd helpu i gynnal refferendwm a oedd yn rhoi pleidleiswyr yn gyntaf ac yn creu canlyniad y gallent ymddiried ynddo.
Yn 2015-16 gwnaethom:

- Gyhoeddi manylion am wariant gan ymgyrchwyr a wariodd fwy na £250,000 yn ystod cyfnod yr ymgyrch reoledig. Cofnododd pump o'r 42 o sefydliadau ac unigolion a gofrestrodd â'r Comisiwn fel ymgyrchwyr yn y refferendwm wariant o fwy na £250,000 a, gyda'i gilydd, gwariodd yr ymgyrchwyr hyn fwy na £5.2 miliwn ar ymgyrchu.
- Cyhoeddi ein hadroddiad ar broses reoleiddio ariannol ymgyrchwyr yn y refferendwm, lle y gwelwyd bod y fframwaith rheoleiddio yn y refferendwm wedi gweithio'n dda ar y cyfan a gwneud argymhellion er mwyn helpu i lywio'r ffordd y cynllunnir refferenda yn y dyfodol.
- Cynnal gwaith mewn ymateb i ddatganoli pwerau pellach i Senedd yr Alban.
- Yn dilyn yr Adroddiad darparodd Comisiwn Smith gyflwyniad i Bwyllgor Archwilio Cyhoeddus Senedd yr Alban.

1.3 Twyll etholiadol

Mae prosiect adolygu twyll etholiadol y Comisiwn yn ymgorffori gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at ddeall lefelau pryder y cyhoedd a ph'un a yw graddau'r twyll etholiadol mewn gwirionedd yn wahanol i'r hyn a adlewyrchir yn y data a gofnodir gan heddluoedd. Mae'r

prosiect hefyd yn ceisio nodi pa newidiadau i ddeddfwriaeth neu brosesau y gallai fod eu hangen er mwyn gwella diogelwch a hyder yn uniondeb yr etholiadau.
Yn 2015-16 gwnaethom:

- Gynnal gwaith o fonitro 17 o ardaloedd awdurdod lleol y nodwyd eu bod yn wynebu mwy o risg o honiadau o dwyll etholiadol cyn etholiadau mis Mai 2015 a dechrau monitro'r un ardaloedd, gan ychwanegu un, cyn etholiadau mis Mai 2016.
- Parhau i gefnogi'r heddlu, gweinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol er mwyn sicrhau y caiff twyll etholiadol ei atal a'i ganfod, yr ymchwilir i unrhyw honiadau yn gyflym, ac y caiff yr enghreifftiau cymharol brin lle y cyflawnir twyll eu cosbi'n briodol.
- Cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet ym mis Awst fod Syr Eric Pickles, Hyrwyddwr Gwrth-lygredd y Llywodraeth, yn mynd i gynnal adolygiad o dwyll etholiadol a gwneud argymhellion ar fesurau i fynd i'r afael ag ef. Gwnaethom ymateb i ymgynghoriad y Llywodraeth ym mis Hydref gan roi trosolwg o'r dystiolaeth a'r wybodaeth yr oeddem wedi eu coladu hyd hynny ynghylch twyll etholiadol a oedd yn berthnasol i gwmpas yr adolygiad.
- Ym mis Rhagfyr, cyhoeddwyd ein hadroddiad hefyd ar 'Adolygiad o wendidau twyll etholiadol mewn gorsafoedd pleidleisio', lle y gwnaethom argymell y dylid ei gwneud yn ofynnol i bleidleiswyr ledled Prydain gyflwyno ffurf adnabod ffotograffig dderbyniol cyn cael papur pleidleisio a phleidleisio yn yr orsaf bleidleisio. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ein cynllun adnabod pleidleiswyr arfaethedig a sut y gellid ei roi ar waith mewn gorsafoedd pleidleisio. Ar ddiwedd mis Mawrth, roeddem yn dal i aros i'r Llywodraeth ymateb i'n hargymhelliad ar gyfer cynllun prawf adnabod ond roeddem yn gobeithio y byddai'n cael ei gynnwys yng nghasgliadau adolygiad Syr Eric Pickles o dwyll etholiadol.
- Gwnaethom barhau i weithio gyda Crimestoppers, yr elusen genedlaethol ar gyfer cofnodi troseddau yn ddienw, i gefnogi a hyrwyddo'r opsiwn i bobl gyflwyno tystiolaeth neu bryderon ynghylch twyll etholiadol heb roi manylion a allai eu henwi. Mae'r bartneriaeth â Crimestoppers yn dilyn y gwaith a wnaed gennym cyn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn 2015.

Barn rhanddeiliaid:
Dengys ymchwil y Comisiwn gyda'r cyhoedd ar ôl etholiadau mis Mai 2015 fod lefel sylfaenol gyson o bryder ymhlith pleidleiswyr ynghylch twyll etholiadol yn y DU:

- Ychydig dros draean (35%) o bobl a ymatebodd i'n hymchwil i farn y cyhoedd a gynhaliwyd ar ôl pleidleisiau mis Mai 2015 a ddywedodd eu bod o'r farn bod twyll etholiadol wedi digwydd, gyda 29% yn dweud ei fod wedi digwydd 'ychydig' a 6% yn dweud bod 'llawer' o dwyll etholiadol wedi digwydd.
- Fel mewn blynyddoedd blaenorol, y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd gan bobl ynglŷn â pham roedd twyll wedi digwydd oedd eu bod wedi gweld straeon yn y cyfryngau am dwyll etholiadol (23%), yr argraff gyffredinol fod twyll yn broblem (15%), ac am nad oedd yn ofynnol i bobl ddarparu prawf adnabod er mwyn pleidleisio (15%).

1.4 Y Fframwaith etholiadol

Adolygiad Comisiynau'r Gyfraith o gyfraith etholiadol
Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Rhoi canllawiau a chymorth i Gomisiynau'r Gyfraith yn eu gwaith diwygio cyfreithiol ar gyfraith etholiadol.
- Ymgysylltu â phobl a sefydliadau sydd â diddordeb mewn cyfraith etholiadol ac sy'n dylanwadu ar y gyfraith honno.

Bydd yr adolygiad yn arwain at ddatblygu ac argymell deddfwriaeth etholiadol fodern, syml, wedi'i chydgrynhoi yn rheoli'r gwaith o ddarparu a chynnal etholiadau, a sut i gymryd rhan ynddynt. Cyfrifoldeb llywodraeth a deddfwrfeydd wedyn fydd penderfynu a ddylid llunio deddfwriaeth o'r fath.
Yn 2015-16 gwnaethom:

- Gyhoeddi adroddiad ar 'Costau Cudd Cyfraith Etholiadol', lle edrychwyd ar aneffeithlonrwydd a chostau cyfle a gynhyrchir gan y system gyfredol a beth y gellid ei leihau neu ei osgoi pe bai'n cael ei ddiwygio a'i symleiddio. Yn ein dadansoddiad gwnaethom ganolbwyntio ar y costau dan sylw wrth lunio deddfwriaeth etholiadol, gweinyddu etholiadau, bod yn rhan o'r prosesau cyfreithiol sy'n deillio o etholiadau a sefyll etholiad fel ymgeisydd. Canfu ein hymchwiliad fod y rhan fwyaf o'r costau'n cael eu hachosi gan gymhlethdod cyfraith etholiadol a'i natur dameidiog, lefel y manylion diangen yn y gyfraith, a phresenoldeb ffurf hen ffasiwn ar ddrafftio. O ganlyniad, daethom i'r casgliad y bydd gwaith parhaus Comisiynau'r Gyfraith o ddiwygio cyfraith etholiadol yn helpu i leihau'r costau hyn a'r risg ganlyniadol o dwyll difrifol yn y broses etholiadol, ac yn helpu i wella'r broses o orfodi camymddwyn etholiadol.
- Cyhoeddi ein hail ymateb i'r papur ymgynghori a gyhoeddwyd gan Gomisiynau'r Gyfraith ym mis Rhagfyr 2015. Dilynodd hyn ein hymateb cyntaf ym mis Mawrth 2015 a darparwyd sylwadau pellach ar dair agwedd ar ddiwygio cyfraith etholiadol yn ymwneud â deisebau etholiadol, y ffordd y mae ymgyrchwyr yn trin pleidleisiau post ac apeliadau adolygu mannau pleidleisio.
- Cyhoeddi nodyn yn nodi rhai o'r materion ynghylch cyfraith etholiadol y daethom ar eu traws yn ystod ein gwaith ar yr etholiadau a gynhaliwyd ym mis Mai 2015. Y materion sy'n gysylltiedig â meysydd lle mae'n ymddangos bod ansicrwydd o ran gweithredu darpariaeth, bwlch posibl neu anghysondeb neu lle y byddem am wneud awgrym i newid ffurf y drafftio neu'r polisi. Gwnaethom anfon y materion hyn i'r Llywodraethau perthnasol a Chomisiynau perthnasol y Gyfraith fel y gellid gwneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol ar gyfer etholiadau yn y dyfodol neu fel y gellid ymdrin â hwy fel rhan o brosiect diwygio cyfraith etholiadol Comisiynau'r Gyfraith.

- Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Comisiynau'r Gyfraith eu hargymhellion terfynol ar gyfer diwygio cyfraith etholiadol. Croesawyd y cynigion hyn a chredwn y byddant yn mynd i'r afael â llawer o'r anawsterau a geir gyda'r gyfraith gyfredol drwy leihau'r beichiau a osodir ar weinyddwyr etholiadol ac, yn y pen draw, y costau sy'n gysylltiedig â chynnal digwyddiadau etholiadol. Mae gan yr adolygiad gefnogaeth unfrydol y gymuned etholiadol a hoffem weld Llywodraethau'r DU a'r Alban yn cymeradwyo'r adolygiad yn ddi-oed er mwyn symud ymlaen i'r cam nesaf o ddrafftio'r ddeddfwriaeth, i'w rhoi ar waith ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2020 ac etholiadau 2021 i seneddau datganoledig. Rydym wedi ysgrifennu at y Llywodraethau yn gofyn iddynt gymeradwyo hyn yn ddi-oed.

Adalw ASau
Yn 2015-16 gwnaethom:

- Gyflwyno ein hymateb i ymgynghoriad Swyddfa'r Cabinet ar reoliadau drafft Adalw ASau. Gwnaed y rheoliadau terfynol a daethant i rym ar ddechrau mis Mawrth 2016. Os oes Deiseb Adalw yn y dyfodol byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar sut y caiff ei chynnal.

1.5 Sicrhau y gall pleidleiswyr weld sut mae gwleidyddion ac ymgyrchwyr yn codi arian ac yn ei wario

Ffurflenni Cyllid Pleidiau ac Etholiadau
Mae'r maes gwaith hwn yn cwmpasu gwaith parhaus y Comisiwn i gyhoeddi pob ffurflen statudol mewn ffordd dryloyw, amserol a chywir, a sicrhau rheolaethau priodol dros y gwaith o ddosbarthu a defnyddio Grantiau Datblygu Polisi.
Yn 2015-16:

- Cyhoeddodd y Comisiwn fanylion, bob chwarter, am gyfanswm o £66.9 miliwn a dderbyniwyd gan bleidiau gwleidyddol mewn rhoddion gan saith plaid wleidyddol ar ddeg yn ystod 2015 (2014: £66 miliwn). Derbyniodd pleidiau gwleidyddol gyfanswm o £9.8 miliwn hefyd o gronfeydd cyhoeddus (2014: £8.8 miliwn). Mae'r rhain yn cynnwys: Arian Short, a delir gan Dŷ'r Cyffredin; Arian Cranborne, a delir gan Dŷ'r Arglwyddi; Cymorth i bleidiau gwleidyddol cofrestredig, a delir gan Senedd yr Alban; a Grantiau Datblygu Polisi, a delir gan y Comisiwn Etholiadol.
- Cyflwynwyd 92% o adroddiadau chwarterol gan bleidiau gwleidyddol mawr ar amser (targed: 100%); Cyflwynodd 73% o bleidiau bach adroddiadau ar amser (targed: 90%); Cyflwynodd 78% o ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau adroddiadau ar amser (targed: 90%).
- Cyflwynwyd 93% o'r datganiadau cyfrifon gan y pleidiau mawr i'r Comisiwn ar amser (targed: 100%); cafodd yr un a oedd yn hwyr ei chosbi am fethu â chyflwyno erbyn y dyddiad cau. Cyflwynwyd 89% o'r datganiadau cyfrifon ar amser gan bleidiau bach (targed: 90%).
- Gwnaethom gyhoeddi 100% o'r ffurflenni rhoddion a benthyciadau o fewn ein targed o 20 diwrnod gwaith a chyflwynwyd 4% o'r datganiadau cyfrifon ar amser hefyd (y targed ar gyfer y ddau yw 100%). Roedd hyn am fod y penderfyniad wedi'i wneud i ohirio cyhoeddi'r cyfrifon oherwydd gwaith ar gyhoeddiadau eraill a gweithgarwch cydymffurfio.
- Derbyniwyd 100% o'r ffurflenni gwariant ar ymgyrchu gan bleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau a ymladdodd Etholiad Cyffredinol mis Mai 2015 ar amser (targed: 90%). Cyhoeddwyd 97% o fewn ein targed o 8 wythnos.
- Cofnododd y pleidiau 98% o'r rhoddion i bencadlys y blaid wleidyddol yn y chwarter cywir (targed: 100%).
- Cofnododd y pleidiau 94% o'r rhoddion i unedau cyfrifyddu'r pleidiau yn y chwarter cywir (targed: 95%).
- Cyflwynodd 41% o'r pleidiau a'r ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau (targed: 50%) un neu fwy o'u ffurflenni statudol yn electronig.
- Gwnaethom gynnal gwiriadau ar roddion a gofnodwyd gan bleidiau gwleidyddol er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu rhoi gan roddwyr a ganiateir; a chafodd 50% eu gwirio o fewn ein targed o 20 diwrnod (targed: 95%).
- Dim ond 28% o'r pleidiau gwleidyddol mawr a ddefnyddiodd ein fformat safonedig ar gyfer datganiadau cyfrifon gan bleidiau gwleidyddol, yn erbyn targed o 50%. Dim ond

28% o unedau cyfrifyddu pleidiau gwleidyddol a ddefnyddiodd y fformat safonedig, yn erbyn targed o 40%. Mae'r defnydd o fformat safonedig ar gyfer datganiadau cyfrifon blynyddol yn wirfoddol, ond er budd tryloywder ac o gofio'r cyfraddau isel sy'n gwneud hyn, bwriadwn ei gwneud yn orfodol iddynt ddefnyddio'r fformat hwn.

Roedd wyth plaid wleidyddol yn gymwys i gael Grantiau Datblygu Polisi mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2015-16:

- Y Blaid Geidwadol
- Democratic Unionist Party (DUP)
- Y Blaid Lafur
- Y Democratiaid Rhyddfrydol
- Plaid Cymru
- Plaid Genedlaethol yr Alban (SNP)
- Social Democratic & Labour Party SDLP
- Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP)

Ceir manylion am gymhwysedd, dyraniadau a grantiau a dalwyd drwy ddilyn y ddolen isod.
http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/find-information-by-subject/political-parties-campaigning-and-donations/public-funding-for-parties

Mae pleidiau yn cyflwyno adroddiad yn manylu ar eu gwariant datblygu polisi ym mis Ebrill yn dilyn diwedd y flwyddyn grant; yna rydym yn archwilio'r hawliadau hyn.

Cofnodi rhoddion a benthyciadau i bleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon

1.1 Gwnaeth Deddf (Darpariaethau Amrywiol) Gogledd Iwerddon 2014 ddarpariaeth ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am roddion gwleidyddol a benthyciadau yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Ddeddf yn golygu, pan fydd y Llywodraeth yn penderfynu ei bod yn ddiogel gwneud hynny, y caiff manylion llawn am roddion a benthyciadau a dderbyniwyd cyn 1 Ionawr 2014 eu gwneud yn gyhoeddus. Yn y cyfamser, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno Gorchymyn i alluogi'r Comisiwn i gyhoeddi rhai manylion am roddion a benthyciadau a dderbyniwyd o 1 Ionawr 2014, ar yr amod nad yw hyn yn nodi rhoddwr na benthyciwr penodol. Bydd y Gorchymyn hefyd yn darparu ar gyfer cyhoeddi data cyfanredol dienw am roddion a benthyciadau a dderbyniwyd rhwng 2007 a 2014. Ers 2014 mae'r Comisiwn wedi bod yn cefnogi Swyddfa Gogledd Iwerddon yn ei gwaith ar ddrafftio'r is-ddeddfwriaeth a fyddai'n galluogi'r wybodaeth rannol hon i gael ei chyhoeddi.

Deddfwriaeth ar ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau

1.2 Ar 30 Ionawr 2014 derbyniodd Bil Tryloywder Lobïo, Ymgyrchu Rhai Nad Ydynt yn Bleidiau a Gweinyddu Undeb Llafur Gydsyniad Brenhinol. Cyflwynodd y Ddeddf newidiadau sylweddol i'r gyfundrefn reoleiddio a weithredir gan y Comisiwn ynghylch gweithgareddau ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn y cyfnod cyn Etholiad Cyffredinol y DU. Daw'r newidiadau i rym ar 19 Medi 2014 yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar gyfer Etholiad Cyffredinol mis Mai 2015.

Yn 2015-16 gwnaethom:

- Gyhoeddi ein dau ddiweddariad diwethaf i ymgyrchwyr ar adrannau o'r canllawiau y mae angen eu hegluro neu bynciau penodol a godwyd gan ymgyrchwyr.

- Yn dilyn ei benodiad ym mis Ionawr 2015 i adolygu gweithrediad ac effeithiolrwydd y darpariaethau sy'n rheoleiddio ymgyrchu trydydd parti, cyhoeddodd yr Arglwydd Hodgson 'alwad am dystiolaeth a barn' ym mis Mehefin. Nod yr ymgynghoriad oedd casglu adborth ar yr egwyddorion sy'n rheoleiddio ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau; sut y diffinnir ac y canfyddir y gyfraith gyfredol a sut mae'n gweithio; ac ystyried sut y bydd angen addasu'r rheolau efallai yn ôl datblygiadau yn y dyfodol wrth ymgyrchu neu o ran gwleidyddiaeth neu lywodraethu yn y DU. Cyflwynwyd ein hymateb ym mis Awst, ac er ein bod yn credu bod y fframwaith deddfwriaethol yn ymarferol i raddau helaeth, nodwyd bod rhai meysydd y mae angen i'r adolygiad eu hystyried yn ein barn ni.

1.6 Rheoleiddio effeithiol

Yn 2015-16 gwnaethom:

- Gyhoeddi canllawiau diwygiedig, yn seiliedig ar ein hadolygiad o bolisi cofrestru pleidiau yn 2014-15, ar y broses o gofrestru pleidiau gwleidyddol a'r defnydd o fanylion adnabod (enwau pleidiau, disgrifiadau ac arwyddluniau) ar bapurau pleidleisio.
- Cwblhawyd ein hadolygiad yn 2015 o enw pob plaid, ei disgrifiad a'i harwyddlun a geir yng Nghofrestri Prydain a Gogledd Iwerddon er mwyn sicrhau bod y manylion adnabod presennol yn cydymffurfio â gofynion PPERA. Yn dilyn yr adolygiad hwn, gwnaethom gysylltu â'r pleidiau lle roedd angen gwneud newidiadau i'w cofrestriadau fel eu bod yn unol â pholisi newydd.
- Ym mis Tachwedd 2015, er mwyn ymgorffori adborth mwy cyffredinol yn ein penderfyniadau cofrestru, dechreuwyd postio ar-lein unrhyw enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau arfaethedig newydd i gael sylwadau'r cyhoedd cyn dod i benderfyniad ynghylch p'un a ddylid eu cofrestru ai peidio. Ar ddechrau 2016, gwnaethom ddechrau cyhoeddi gwybodaeth am ein penderfyniadau ynghylch p'un a ddylid eu cymeradwyo neu eu gwrthod.
- Cyhoeddi astudiaeth i effaith enwau pleidiau, eu disgrifiadau a'u harwyddluniau ar ddefnyddioldeb papurau pleidleisio. Diben yr ymchwil oedd dangos pa fanylion adnabod a ddefnyddir gan bobl wrth bleidleisio ac a all manylion adnabod tebyg arwain at ddryswch neu gamgyfrif pleidleisiau. Dangosodd ein prif ganfyddiadau fod cael manylion adnabod lluosog ar bapurau pleidleisio yn ddefnyddiol gan fod pobl wahanol yn defnyddio manylion adnabod gwahanol wrth bleidleisio. Canfuwyd hefyd y gallai cyffelybiaethau rhwng enwau pleidiau ac arwyddluniau pleidiau arwain at ddryswch ymhlith pleidleiswyr a chamgyfrif pleidleisiau. Nid oedd cyffelybiaethau o ran disgrifiadau pleidiau yn arwain at ddryswch na chamgyfrif pleidleisiau gan nad oedd cyfranogwyr yn defnyddio'r rhain fel manylion adnabod (pan oeddent yn ymddangos ar bapurau pleidleisio fel disgrifiadau yn hytrach nag enwau pleidiau). Mae'r canfyddiadau hyn wedi helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch cofrestru manylion adnabod pleidiau a sut y cânt eu defnyddio ar bapurau pleidleisio.
- Ar ddechrau 2016 gwnaethom sefydlu prosiect newydd a fydd yn canolbwyntio ar weithgareddau sy'n datblygu strategaethau i wella gwaith ein swyddogaeth cofrestru pleidiau o ddydd i ddydd. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu safbwyntiau polisi cadarn ac argymhellion i'r Senedd ar ddisgrifiadau pleidiau yn ogystal â gwelliannau parhaus i'n canllawiau allanol ac unrhyw adolygiadau pellach yn y dyfodol o nodau adnabod pleidiau cofrestredig ar hyn o bryd (enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau).

- Cofrestru 91 o bleidiau gwleidyddol newydd, 87 ohonynt (95%) o fewn y targed o 30 diwrnod gwaith (targed: 95%). Gwnaethom hefyd gofrestru 15 o ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, i gyd o fewn y targed o 10 diwrnod gwaith (targed: 95%).
- Ateb 4,524 o geisiadau am gyngor rheolaidd, gweddol gymhleth a newydd neu gymhleth, ateb 98% o ymholiadau o fewn eu priod dargedau o bump, deg ac ugain diwrnod gwaith. Roedd y rhan fwyaf o'r ymholiadau'n ymwneud â'r rheolau ar wariant a rhoddion ar gyfer ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol a oedd yn ymladd Etholiad Cyffredinol Senedd y DU ym mis Mai 2015. Gwnaethom hefyd roi cryn dipyn o gyngor ar y rheolau ymgyrchu newydd ar gyfer y rhai nad ydynt yn bleidiau a gyflwynwyd ar gyfer pleidleisiau mis Mai 2015. Yn ogystal â hyn, atebwyd 357 o gwestiynau gennym ynghylch refferendwm yr UE yn bennaf gan ddarpar ymgyrchwyr y refferendwm (gan gynnwys pleidiau gwleidyddol) ond hefyd gan aelodau o'r cyhoedd a oedd yn chwilio am wybodaeth am rôl y Comisiwn yn y refferendwm a'r rheolau ar wariant ac ymgyrchu.
- Cwblhau 88 o asesiadau a 66 o ymchwiliadau yn ymwneud â honiadau o dorri rheolau y cafodd 96% eu datrys o fewn y dyddiadau cau o bum diwrnod a 120/180 o ddiwrnodau yn y drefn honno.
- Cyhoeddi 39 o hysbysiadau cychwynnol a 30 o hysbysiadau terfynol yn pennu sancsiynau, yn cyrraedd neu'n rhagori ar dargedau ar gyfer yr amser y mae'n ei gymryd i'w cyhoeddi. Nid oedd pump o'r sancsiynau wedi cael eu talu erbyn y dyddiad cau gofynnol sef 84 diwrnod ar adeg yr adroddiad hwn.

Barn rhanddeiliaid:
Canfu arolwg barn gyhoeddus flynyddol y gaeaf fod 50% o bobl yn dweud eu bod yn hyderus y câi camau gweithredu priodol eu cymryd pe bai plaid wleidyddol yn cael ei dal yn torri'r rheolau ar gyllid plaid. Er bod y cwestiwn wedi cael ei lunio ychydig yn wahanol, mae hyn yn awgrymu cynnydd bach mewn hyder er, fel yn 2014, dim ond 41% oedd yn hyderus y byddai'r awdurdodau yn cymryd camau gweithredu o'r fath.

1.7 Y fframwaith ar gyfer cyllid pleidiau gwleidyddol

Ym mis Mehefin, gwnaethom gyhoeddi adolygiad mawr o'r rheolau cyfredol ar roddion a gwariant ar ymgyrchu, gan wneud 50 o argymhellion i ddiweddaru'r gyfraith sy'n ymdrin â phleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr eraill; gwella'r wybodaeth sydd ar gael i bleidleiswyr; cynyddu effeithiolrwydd y rheolau; a gwneud rhwymedigaethau yn fwy cymesur â'r rhai y mae'r Comisiwn yn eu rheoleiddio. Gweithredwyd nifer o'r argymhellion hynny yn y ddeddfwriaeth ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU yn 2015 a refferendwm 2016 ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Yn ystod 2015-16, gwnaethom hefyd gyfrannu tystiolaeth o'n profiad o reoleiddio'r rheolau newydd i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau i'r adolygiad a gynhelir gan yr Arglwydd Hodgson o Astley Abbots. Byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraethau perthnasol dros y flwyddyn i ddod i ddatblygu'r newidiadau eraill rydym wedi'u hargymell.

1.8 Costau gweithredu fesul rhaglen ac amcanion

Yn 2015-16 gwariant net y Comisiwn ar raglenni, prosiectau ac amcanion eraill oedd:

Etholiadau a refferendwm lleol (rhaglen 1)	£3.810m
Cofrestriad etholiadol (rhaglen 2)	£0.641m
Refferendwm yr UE (rhaglen 3)	£1.196m
Prosiectau'r Comisiwn	£0.316m
Gweinyddu Etholiadau	£5.431m
Cyllid Pleidiau ac Etholiadau	£6.532m

Adroddiad ar Gynaliadwyedd

Cydnabu'r Comisiwn fod cyflawni ei weithgareddau a'i amcanion yn cael effaith ar yr amgylchedd ac mae'n parhau i weithio tuag at leihau'r effaith hon.

Yn unol â gofynion adrodd y sector cyhoeddus, paratowyd y wybodaeth ganlynol i grynhoi defnydd y Comisiwn o ynni a dŵr, a chynhyrchu a gwaredu deunydd gwastraff.

Nod y Comisiwn yw cydymffurfio â chanllawiau adrodd cyhoeddedig lle y bo'n bosibl ond sefydliad cymharol fach ydyw sy'n prydlesu eiddo oddi wrth gyfuniad o landlordiaid y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Felly nid oes ganddo reolaeth uniongyrchol, a dim ond dylanwad cyfyngedig, dros y dewis o gyflenwr cyfleustodau neu'r modd y rheolir y broses o waredu gwastraff ar ei safleoedd. At hynny, ar gyfer nifer o swyddfeydd caiff y defnydd o ynni a dŵr a'r modd y gwaredir gwastraff ei reoli gan y landlord a chaiff yr arian ei adennill fel rhan o dâl gwasanaeth cyfunol. Am y rheswm hwn, ac er mwyn sicrhau cysondeb y cyflwyniad, dim ond data o swyddfa Llundain ar ddefnydd a gwaredu gwastraff a geir yn yr adroddiad hwn ar gynaliadwyedd, sef eiddo mwyaf y Comisiwn, a'r ganolfan ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff.

Fel rhan o strategaeth swyddfeydd barhaus, symudodd y Comisiwn ei swyddfa yn Llundain o San Steffan i Moorgate ym mis Rhagfyr 2010. Daw'r brydles ar y swyddfa yn Moorgate i ben yn 2020 a bydd y Comisiwn yn ystyried ei opsiynau dros y blynyddoedd nesaf. Drwy newid i eiddo llai, roedd y Comisiwn yn gallu lleihau ei ôl troed swyddfa a gwneud arbedion sylweddol ar gostau rhedeg swyddfeydd mewn blynyddoedd diweddarach.

Mae swyddfeydd yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast wedi cael eu symud hefyd i eiddo llai, sy'n fwy effeithlon yn amgylcheddol. Caewyd swyddfeydd rhanbarthol yn Lloegr yn 2012, a dechreuodd y staff weithio gartref yn llawn amser.

- Mae mentrau eraill ar waith o hyd er mwyn helpu i leihau'r effaith amgylcheddol. Bob blwyddyn ers 2011-12 mae'r Comisiwn wedi:
    - Lleihau'r adnoddau argraffedig a ddarperir i weinyddwyr etholiadol a grwpiau eraill, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth electronig lle bo'n bosibl.
    - Annog y defnydd o fideogynadledda a thelegynadledda er mwyn osgoi teithio diangen â'r allyriadau CO_2 canlyniadol.
    - Gweithredu cyfleusterau ailgylchu ym mhob un o'i swyddfeydd.
    - Cynnal polisi caffael cynaliadwy sy'n ystyried effaith amgylcheddol lawn y pryniannau a wnawn ar fywyd.
    - Cyfleu pwysigrwydd mentrau a mesurau effeithlonrwydd i staff yn rheolaidd.

Crynodeb (Swyddfa Llundain)

Maes		Perfformiad 2015–16		2014-15	2013-14
		Gwirioneddol	Targed[3]		
Allyriadau nwyon tŷ gwydr (CO_2e mewn tunelli)[4]		331	396	354	437
Ynni Ystad	Defnydd (kWh)	758,107	874,335	767,224	981,446
	Gwariant	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael
Gwastraff Ystad	Swm (tunelli)	9.43	12.25	12.33	12.17
	Gwariant	£1,084	£1,123	£1,123	£1,123
Dŵr Ystad	Defnydd	845m^3	814 m^3	799 m^3	829 m^3
	Gwariant	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael

Adroddiad ar Allyriadau (swyddfa Llundain)

Allyriadau nwyon tŷ gwydr		2015-16	2014–15	2013–14	2012–13
Dangosyddion anariannol (CO_2e mewn tunelli)	Cyfanswm yr allyriadau gros	331	354	437	471
	Allyriadau gros - Defnydd o danwydd ffosil	281	282	373	406
	Allyriadau gros - Teithio	50	72	64	65
Defnydd cysylltiedig o ynni (kWh)	Trydan	552,634	538,285	737,481	560,511
	Nwy	205,442	228,959	243,585	370,500
Dangosyddion ariannol (£)	Gwariant ar Ynni[5]	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael
	Gwariant ar deithio	154,431	153,821	141,108	159,791

Sylwebaeth ar Berfformiad o ran allyriadau

Mae'r defnydd o danwydd ffosil a gofnodwyd wedi lleihau yn ystod y flwyddyn, sy'n effaith barhaus yn sgîl cyflwyno mesurau gan y landlord i leihau'r defnydd o drydan, gan gynnwys gweithrediad is 'y tu allan i oriau' o offer a pheiriannau a chyflwyno goleuadau effeithlon o ran ynni. Mae'r defnydd yn lle penodedig y Comisiwn wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn (mwy na 13,000 kWh). Effeithiodd dau ffactor ar gynnydd yn y defnydd o drydan. Y cyntaf oedd gosod gweithfannau ychwanegol ar ddiwedd mis Ionawr 2015 fel bod lle i staff ychwanegol yn y cyfnod cyn yr Etholiad Cyffredinol. Yr ail ffactor cyfrannol oedd ad-drefnu gwaith cynlluniedig ar y system awyru gan y landlord ynghanol 2015.

Adroddiad gwastraff (swyddfa Llundain)

[3] Pennwyd y ffigur targed fel yr isaf o gyfartaledd cymedrig y ffigurau ar gyfer y ddwy flwyddyn flaenorol.
[4] CO_2e yw'r hyn sy'n cyfateb i Garbon Deuocsid. Caiff data o ddefnydd o danwydd, milltiroedd, defnydd o drydan a nwy, ac ati, eu troi yn gyfwerthoedd carbon deuocsid gan ddefnyddio ffactorau trosi ac allyrru.
[5] Mae gwariant ar ynni yn rhan o'r tâl gwasanaeth a godir ac nid yw ar gael ar wahân.

Seilir ffigurau gwastraff ac ailgylchu cyffredinol ar gyfran o gyfanswm y gwastraff adeiladau ac ni chânt eu rheoli'n uniongyrchol gan y Comisiwn. Caiff y gwaith o waredu gwastraff cyfrinachol y Comisiwn ei drin ar wahân i ddeiliaid eraill yr adeilad. Caiff y gwastraff cyfrinachol a gynhyrchir gan y Comisiwn ei droi'n garpion papur ar y safle cyn cael ei ailgylchu yn bapur gradd isel.

Gwastraff			2015-16	2014–15	2013–14	2012–13
Dangosyddion anariannol (tunelli)	Cyfanswm y gwastraff		9.43	12.33	12.17	12.47
	Gwastraff nad yw'n beryglus	Cyfrinachol	1.93	1.98	1.94	2.48
		Gwastraff cyffredinol i'w ailddefnyddio neu ei ailgylchu	6.7	10.34	10.23	9.99
Dangosyddion ariannol (£)	Cyfanswm y gost gwaredu[6]		Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael
		Cyfrinachol	1,084	1,123	1,123	1,543
		Gwastraff cyffredinol i'w ailddefnyddio neu ei ailgylchu	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael

Bu gostyngiad bach yn swm y gwastraff cyfrinachol a gynhyrchir gan y Comisiwn a gwnaeth lefel y gwastraff cyffredinol a'r gwastraff a ailgylchir ostwng hefyd. Yn yr achos olaf, gan fod y ffigur hwn yn seiliedig ar gyfran o gyfanswm y gwastraff adeiladau, gellir priodoli'r gostyngiad hwn hefyd i'r llawr gwag. Ffactor cyfrannol arall yw bod y landlord, ym mis Mehefin 2015, wedi penodi darparwr gwasanaeth rheoli gwastraff newydd. Roedd y cyflenwr newydd yn gallu darparu data casglu gwastraff cywir yn seiliedig ar bwysau gwirioneddol y gwastraff a oedd yn cael ei waredu ac nid ar amcangyfrifon, fel oedd yn wir o'r blaen.

Anfonir yr holl wastraff cyffredinol a gynhyrchir yn yr adeilad, gan gynnwys yr hyn a gynhyrchir gan y Comisiwn, i safle 'Ynni o Wastraff' cyfagos yn lle safleoedd tirlenwi.

Claire Bassett
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
11 Gorffennaf 2016

[6] Mae costau sy'n gysylltiedig â gwaredu gwastraff cyffredinol/a ailddefnyddir/a ailgylchir yn rhan o dâl gwasanaeth blynyddol y Comisiwn a godir ac ni ellir eu nodi.

Yr Adroddiad ar Atebolrwydd ac Archwilio

Yr Adroddiad ar Lywodraethu Corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae Bwrdd y Comisiwn yn cynnwys deg Comisiynydd a benodwyd drwy Warant Frenhinol i gyflawni swyddogaethau'r Comisiwn fel y'u disgrifir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA).

Prif Weithredwr

Mae Bwrdd y Comisiwn yn penodi'r Prif Weithredwr i reoli'r Comisiwn. Penodwyd Claire Bassett fel Prif Weithredwr gan y Comisiynwyr o 7 Hydref 2015 ar gontract pum mlynedd o gyflogaeth. Mae Pwyllgor y Llefarydd wedi ei phenodi yn Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn hefyd.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb cyffredinol am drefnu, rheoli a staffio ac am weithdrefnau'n ymwneud â materion ariannol a materion eraill gan gynnwys ymddygiad a disgyblaeth.

Tîm Gweithredol

Mae Tîm Gweithredol y Comisiwn, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, yn cyfarfod yn ffurfiol unwaith y mis ac fel arfer bob wythnos i reoli'r gwaith o gyflawni amcanion y Comisiwn yn unol â'r cyfeiriad strategol a bennir gan Fwrdd y Comisiwn, gan fynd i'r afael â materion a risgiau parhaus.

Mae gan y Cyfarwyddwr Gweithredol awdurdod dirprwyedig i reoli'r Comisiwn o ddydd i ddydd gyda'r Prif Weithredwr. Caiff y dirprwyaethau hyn eu pennu, eu cofnodi a'u hadolygu'n ffurfiol yn flynyddol.

Bydd y Tîm Gweithredol yn cael adroddiadau misol ar berfformiad, cyllid a rheoli risg ar draws y Comisiwn ac ar gynnydd o ran prosiectau a mentrau allweddol. Yn ogystal â thrafodaethau anffurfiol cyson, bydd y Prif Weithredwr yn cyfarfod â phob aelod o'r Tîm Gweithredol o leiaf unwaith y mis i adolygu perfformiad gweithredol ac ariannol. Rhestrir aelodau o'r Tîm Gweithredol yn ystod 2015-16 isod:-

- Prif Weithredwr: Peter Wardle (gadawodd y Comisiwn ar 31 Gorffennaf 2015)
- Prif Weithredwr: Claire Bassett (penodwyd o 7 Hydref 2015)
- Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Carolyn Hughes (a ymgymerodd â rôl y Prif Weithredwr rhwng 1 Awst a 6 Hydref 2015)
- Cyfarwyddwr Cyllid a Chwnsler Cyfreithiol Pleidiau ac Etholiadau: Bob Posner
- Cyfarwyddwr Cyfathrebu: Alex Robertson
- Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Etholiadol: Andrew Scallan

Nodir y strwythur sefydliadol ar 31 Mawrth 2016 isod:



Yn y dyfodol

Mae Amcangyfrif Cyflenwi'r Comisiwn ar gyfer 2016 –17 (HC 957) yn darparu ar gyfer gofyniad adnoddau net o £156,478K, sef £135,307K yn fwy na'r ffigur o £21,171K ar gyfer 2015-16. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwn (£131,500k) yn adnodd heb bleidlais i ariannu ffioedd a thaliadau Swyddogion Cyfrif, taflenni drwy'r post ac 'archwiliadau' post ar gyfer Refferendwm yr UE.

Y meysydd allweddol y mae'r Comisiwn yn bwriadu defnyddio ei adnoddau ynddynt yn ystod 2016-17 yw:

- Cefnogi paratoadau ar gyfer yr etholiadau ym mis Mai 2016 a'r refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd ym mis Mehefin 2016
- Cynnal a chyhoeddi gwybodaeth am bleidiau gwleidyddol a'u cyllid
- Sicrhau bod pleidiau, ymgeiswyr ac eraill yn deall ac yn dilyn y rheolau ar gyllid pleidiau ac etholiadau
- Parhau i gefnogi Cofrestriad Etholiadol Unigol
- Pennu safonau ar gyfer cynnal etholiadau a chofrestriad etholiadol ac adrodd ar berfformiad Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth gyrraedd y safonau hynny
- Rhoi cymorth, cyngor a hyfforddiant i'r rhai sy'n gysylltiedig â chyflawni etholiadau a chofrestriad etholiadol
- Cynnal gwaith gyda'r nod o sicrhau bod pobl yn deall ei bod yn bwysig cofrestru i bleidleisio, a sut i bleidleisio
- Adrodd ar ddigwyddiadau etholiadol yn ystod y cyfnod
- Cyfrannu at y drafodaeth barhaus ar weinyddu etholiadau a'r fframwaith ar gyfer cyllid pleidiau ac etholiadau yn y DU
- Rhoi sylwadau ar gynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd fel y bo'n briodol
- Cynnal rhaglen ymchwil i gefnogi a llywio gwaith y Comisiwn
- Gwneud grantiau i bartïon gwleidyddol cymwys ar gyfer datblygu polisïau.

Rhestrir cyfrifoldebau penodol sy'n ymwneud â'r refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd isod.

- Gwneud sylwadau ar eglurder geiriad cwestiwn y refferendwm (adroddwyd ar hyn ym mis Medi 2015)
- Cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd er mwyn sicrhau bod gan bawb y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan
- Cofrestru sefydliadau neu unigolion sydd am ymgyrchu yn y refferendwm
- Ystyried a chymeradwyo ceisiadau am ddynodiad fel y grŵp ymgyrchu arweiniol ar gyfer y naill ganlyniad a'r llall yn y refferendwm
- Talu grantiau i'r sefydliadau dynodedig cymeradwy
- Monitro gwariant ar ymgyrch y refferendwm, yn unol â therfynau gwariant y refferendwm
- Rhoi cyngor a chanllawiau ar y rheolau i ymgyrchwyr
- Monitro a sicrhau cydymffurfiaeth â rhoddion, benthyciadau a rheolaethau gwariant ymgyrchoedd
- Cyflwyno adroddiad ar weinyddu'r refferendwm a rheoleiddio ymgyrch y refferendwm.

Cadeirydd y Comisiwn fydd y Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm a bydd yn gyfrifol am ardystio canlyniad y refferendwm. Caiff refferendwm a gaiff ei gynnal yn dda sy'n arwain at ganlyniad y gall pleidleiswyr ac ymgyrchwyr fod yn ffyddiog ynddo ei ategu gan fframwaith cyfreithiol clir a phendant. Mae deddfwriaeth dda yn darparu eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r rheini sy'n gweinyddu'r refferendwm ac yn nodi rheolau teg sy'n llywodraethu gwariant ar ymgyrchu a gweithgareddau codi arian.

Nodir meysydd gweithgarwch allweddol a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod ar ôl 2016-17 yn y Cynllun Corfforaethol pum mlynedd a gyhoeddir ar wefan y Comisiwn. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar barhau i gael effaith ym maes etholiadau a chyllid gwleidyddol, wedi'i hwyluso gan reolaeth effeithlon o raglenni a phrosiectau.

Talu cyflenwyr

Er bod y Comisiwn yn annibynnol ar lywodraeth, mae'n anelu at gydymffurfio â'r Cod Talu Prydlon sydd ar waith yn y sector cyhoeddus. Targed y Llywodraeth yw talu anfonebau nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod. Yn 2015-16 talwyd 100% (2014–15, 99%) o anfonebau o fewn y targed hwn o 30 diwrnod.

Mae'r Comisiwn yn anelu at dalu anfonebau nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 10 diwrnod i ddyddiad eu derbyn er mwyn cydnabod ymrwymiad y llywodraeth i dalu cyflenwyr yn brydlon. Ar gyfer y flwyddyn 2015-16, talodd y Comisiwn 89% (2014-15: 83%) o anfonebau nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 10 diwrnod.

Digwyddiadau sy'n ymwneud â data personol

Cofnodwyd saith digwyddiad yn gysylltiedig â llywodraethu gwybodaeth yn ystod 2015-16. Caiff y Bwrdd eu hysbysu am y digwyddiadau hyn yn rheolaidd fel rhan o'r Adroddiadau chwarterol. O blith y rhain, roedd pedwar yn ymwneud ag argaeledd systemau neu'r rhwydwaith, ac ni chollwyd unrhyw wybodaeth. Roedd un yn ymwneud â chaledwedd yn cael ei dwyn, un yn ymwneud â gwybodaeth a olygwyd yn wael a chafwyd un digwyddiad a oedd yn gysylltiedig â haint feirws.

Hysbyswyd Pwyllgor Archwilio'r Comisiwn am y digwyddiadau hyn ac fe'u hadolygwyd ganddo fel rhan o'r asesiad blynyddol o reoli risg gwybodaeth. Nododd yr adroddiad fod camau unioni a mesurau lliniaru yn y dyfodol wedi cael eu rhoi ar waith.

Nid oedd un o'r digwyddiadau o natur neu ddifrifoldeb a oedd yn golygu bod angen hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth amdanynt.

Nodir cyfrifoldebau rheoli risg gwybodaeth, ynghyd ag asesiad o berfformiad, yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 42.

Buddiannau, rhoddion a lletygarwch

Mae comisiynwyr a staff yn dilyn cod ymddygiad, y mae rhan ohono'n golygu bod angen iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau, ac unrhyw roddion sylweddol neu letygarwch a gawsant neu a gynigiwyd iddynt. Caiff y cofrestri eu diweddaru o bryd i'w gilydd ac maent ar gael ar wefan y Comisiwn.

Rhyddid Gwybodaeth, Cwestiynau Seneddol a chwynion

Mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i egwyddorion o natur agored a thryloyw mewn bywyd cyhoeddus ac mae'n cydnabod dyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd. Yn 2015-16 cawsom 11 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Roedd 108 o'r ceisiadau yn gofyn am ymateb yn yr un cyfnod a gwnaethom ymateb i 110 (93.2%) o fewn y fframwaith statudol o 20 diwrnod gwaith. Mae pob un o'r ymatebion ar gael ar y wefan. Ymdriniodd y Comisiwn hefyd â phum cwyn y gofynnodd dwy ohonynt am adolygiad.

Tueddiadau gwariant hirdymor

Y Comisiwn Etholiadol	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
£m					
Gwariant craidd	10.683	10.641	10.682	10.642	10.681
Gwariant ar ddigwyddiadau	4.290	2.068	2.486	3.382	3.52
Refferendwm yr UE	8.750	0.510			
Incwm	(1.010)	(0.666)	(0.016)	(0.019)	(0.019)
Cyfanswm y costau rhedeg	**22.713**	**12.553**	**13.152**	**14.005**	**14.182**
Grantiau Datblygu Polisi	2.000	2.000	2.000	2.000	2.000
Gwariant cyfalaf	0.310	0.370	0.250	0.250	0.250
Cyfanswm y cynlluniau gwario	**25.023**	**14.923**	**15.402**	**16.255**	**16.432**

- Adroddir ar y gyllideb adnoddau mewn pedwar prif gategori - costau craidd gan gynnwys dibrisiant, costau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau, grantiau datblygu polisi a gwariant cyfalaf i bleidiau gwleidyddol.
- Mae costau craidd yn ariannu'r gweithgareddau a gyflawnwn ni waeth beth fo'r cylch etholiadol; mae hyn yn cynnwys cofrestru a monitro'r broses o ariannu pleidiau gwleidyddol, cefnogi gweinyddiaeth etholiadol a dadansoddi safonau perfformiad a

rhai elfennau o'n gwaith ymchwil. Mae costau craidd yn cynnwys gwariant gweinyddol ar swyddogaethau sy'n cefnogi'r Comisiwn gan gynnwys swyddfeydd, TGCh a theleffoni.
- Yn ogystal â'n costau craidd awn i gostau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau bob blwyddyn, sy'n amrywio yn ôl y cylch etholiadol a gweithgareddau eraill nad ydynt yn rhai rheolaidd.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae'n ofynnol i'r Comisiwn baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan roi manylion yr adnoddau a gaffaelwyd, a ddaliwyd, neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn.

Paratoir y cyfrifon hyn ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Comisiwn a'i alldro adnodd net, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a baratoir gan Drysorlys EM, ac yn benodol i:

- Ddilyn y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson.
- Llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol.
- Nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon.
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Yn unol â pharagraff 19(1) o Atodlen 1 i PPERA, mae Pwyllgor y Llefarydd wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn Etholiadol, gyda chyfrifoldeb am baratoi cyfrifon y Comisiwn a'u trosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am reoleidd-dra a phriodoldeb y cyllid cyhoeddus y mae Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdanynt, a'r cyfrifoldeb am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Comisiwn, yn "Rheoli Arian Cyhoeddus" a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, cadarnhaf:

- Hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Comisiwn yn ymwybodol ohoni.
- Rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi ei gymryd i'm gwneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y Comisiwn yn ymwybodol o'r wybodaeth honno

- Rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy
- Mae'r adroddiad blynyddol a chyfrifon yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Claire Bassett
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
11 Gorffennaf 2016

Datganiad Llywodraethu

Sefydlwyd y Comisiwn Etholiadol gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA). Yn unol ag Atodlen 1(19) o PPERA, mae Pwyllgor y Llefarydd wedi fy mhenodi yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Comisiwn Etholiadol. Nodir fy nghyfrifoldebau yn y rôl hon ar wahân ar y dudalen flaenorol.

Yn y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn Peter Wardle oedd y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu o 1 Ebrill 2015 nes iddo adael y Comisiwn ar 31 Gorffennaf 2015. Ymunais â'r Comisiwn fel Prif Weithredwr ar 7 Hydref 2015 ac fe'm penodwyd yn Swyddog Cyfrifyddu o'r dyddiad hwnnw. Carolyn Hughes oedd y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Awst a 6 Hydref 2015. Rwyf wedi cael sicrwydd bod y fframweithiau, yr amgylchedd rheoli, prosesau a system graffu a nodir yn y datganiad hwn wedi bod yn effeithiol drwy gydol y flwyddyn ariannol drwy adolygu dogfennaeth, cynnal trafodaethau â Chomisiynwyr, Cadeirydd annibynnol y Pwyllgor Archwilio a staff, a chyfarfodydd ag archwilwyr mewnol ac allanol a rhanddeiliaid allanol eraill. Yn benodol, mae'r ffaith bod y Cadeirydd a'r pedwar cyfarwyddwr gweithredol, gan gynnwys y Prif Weithredwr Dros Dro, wedi bod yn eu swydd ar gyfer cyfnod cyfan 2015-16, bod y Tîm Gweithredol wedi goruchwylio ac arwain gwaith y Comisiwn dros y cyfnod ac i mi gael cyfnod trosglwyddo helaeth â'r Prif Weithredwr Dros Dro, wedi rhoi sicrwydd i mi a gwmpasodd y cyfnod llawn rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.

Llunnir y datganiad llywodraethu hwn yn unol â chanllawiau Trysorlys EM fel crynodeb o'r gweithdrefnau, prosesau a strwythurau cymorth a gynhaliaf er mwyn rheoli'r adnoddau a roddir i mi gan y Senedd yn effeithiol.

Strwythurir y datganiad mewn pedair adran fel a ganlyn:

- Y fframwaith llywodraethu
- Yr amgylchedd rheoli
- Rheoli risg
- Canlyniadau ar gyfer 2015-16 gan gynnwys perfformiad y bwrdd a'r pwyllgor

Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Comisiwn yn atebol i Senedd y DU, ac yn benodol i Bwyllgor Llefarydd Tŷ'r Cyffredin a benodir yn unol â darpariaethau PPERA. Mae'r Comisiwn hefyd yn adrodd i Senedd yr Alban ar ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yr Alban a'r refferendwm annibyniaeth a deddfwrfeydd eraill y gwneir cais amdanynt.

Gellir egluro atebolrwydd i Senedd y DU a'r fframwaith llywodraethu mewnol fel a ganlyn:



Pwyllgor y Llefarydd

Sefydlir Pwyllgor y Llefarydd o dan Adran 2(1) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) i gyflawni'r swyddogaethau a roddir iddo gan PPERA. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys:

- Archwilio amcangyfrifon adnoddau blynyddol y Comisiwn a'u gosod gerbron Tŷ'r Cyffredin, gyda neu heb addasiadau
- Archwilio cynlluniau pum mlynedd y Comisiwn a'u gosod gerbron Tŷ'r Cyffredin, gyda neu heb addasiadau
- Derbyn cyfrifon y Comisiwn
- Dynodi Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn
- Adrodd i Dŷ'r Cyffredin, o leiaf unwaith y flwyddyn, ar sut y cyflawnodd ei swyddogaethau

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

- Gwir Anrh Hon John Bercow AS, Llefarydd Tŷ'r Cyffredin (Cadeirydd)
- Mr Bernard Jenkin AS, Cadeirydd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol
- Gwir Anrh Oliver Letwin AS, Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn
- Gwir Anrh Mark Francois AS (Gweinidog Gwladol dros Gymunedau a Chydnerthedd a'r Gweinidog yn yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol),
- Gwir Anrh Syr Gerald Kaufman AS (Llafur)
- Jessica Morden AS (Llafur)
- Bridget Phillipson AS (Llafur)

- Mr Gary Streeter AS (Ceidwadwyr)
- Pete Wishart AS (Plaid Genedlaethol yr Alban)

Y Llefarydd yw Cadeirydd ex officio Pwyllgor y Llefarydd, ac mae Cadeirydd Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin ac Arglwydd Lywydd y Cyngor yn aelodau ex officio. Mae'r penodiad ar gyfer y Gweinidog Gwladol dros Dai, a wnaed gan y Prif Weinidog o dan Adran 2 (c) o PPERA, a phenodiadau'r pum aelod arall, a wnaed gan y Llefarydd o dan Adran 2 (d), (yn amodol ar ddarpariaethau paragraff 2 Atodlen 2 PPERA) ar gyfer y Senedd ar ei hyd.

Ysgrifenyddion Pwyllgor y Llefarydd yw Lynn Gardner a Ben Williams.

Yn ystod y flwyddyn cyhoeddodd y Pwyllgor bedwar adroddiad sydd ar gael o'i wefan: http://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/other-committees/speakers-committee-on-the-electoral-commission/publications/

Cyfarfu Pwyllgor y Llefarydd ar 17 Mawrth 2016 i ystyried Amcangyfrif Cyflenwi'r Comisiwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 a Chynllun Corfforaethol pum mlynedd y Comisiwn ar gyfer 2016-17 i 2020-21. Gosodwyd yr Amcangyfrif Cyflenwi gerbron y Senedd ar 18 Ebrill 2016, a chafodd y Cynllun Corfforaethol ei gyhoeddi a'i osod gerbron Tŷ'r Cyffredin yn unol â pharagraff 15(4) o Atodlen 1 PPERA ar 26 Mai 2016.

Effaith Deddf Dadreoleiddio 2015

Cytunodd Pwyllgor y Llefarydd ar ddiwedd 2013 i rai newidiadau i drefniadau llywodraethu'r Comisiwn fel y'u nodir yn PPERA. Mae Deddf Dadreoleiddio 2015 yn galluogi'r newidiadau hyn:

- Nid oes gofyniad mwyach i ddarparu diweddariad blynyddol i Gynllun Corfforaethol y Comisiwn Etholiadol. Yn lle hynny, bydd y Comisiwn Etholiadol yn cyhoeddi cynllun pum mlynedd ym mlwyddyn ariannol gyntaf Senedd. Ceidw Pwyllgor y Llefarydd yr hawl i ofyn am ddiweddariadau i'r Cynllun Corfforaethol y tu allan i'r cylch hwn.
- Nid oes gofyniad mwyach i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ddarparu astudiaeth gwerth am arian flynyddol. Yn lle hynny, bydd hyn yn gysylltiedig â llunio'r Cynllun Corfforaethol pum mlynedd.

Bwrdd y Comisiwn

Mae Bwrdd y Comisiwn yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried cyfeiriad strategol y Comisiwn, i adolygu a diwygio ei amcanion ac i adolygu ei berfformiad yn erbyn ei amcanion. Mae Bwrdd y Comisiwn yn cynnwys y Comisiynwyr Etholiadol, a mynychir ei gyfarfodydd ffurfiol gan bob aelod o Dîm Gweithredol y Comisiwn, Cwnsler Cyfreithiol y Comisiwn a staff eraill y Comisiwn yn ôl yr angen.

Penodir y Cadeirydd a'r Comisiynwyr gan Ei Mawrhydi y Frenhines ar argymhelliad Tŷ'r Cyffredin. Penodir Comisiynwyr am gyfnod nad yw'n fwy na phedair blynedd yn y lle cyntaf, gyda'r posibilrwydd o'i ailbenodi am gyfnod ychwanegol. Gall Comisiynydd beidio â gwasanaethu neu gael ei symud o'i swydd yn unol â'r seiliau a nodir yn Atodlen 1,

paragraffau 3-5 o'r Ddeddf. Bydd penodiadau yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod a benodir ar gyfer pob Comisiynydd, onid ailbenodir y Comisiynydd cyn i'r cyfnod ddod i ben. Gall penodiadau gael eu terfynu hefyd ar gais y Comisiynydd.

Darperir manylion y Comisiynwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth.

Yn ystod y flwyddyn 2015-16 mae Bwrdd y Comisiwn wedi dirprwyo gweithgareddau penodol i'r is-bwyllgorau canlynol:

- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac AD
- Panel Recriwtio

1. Pwyllgor Archwilio

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio i gefnogi'r Swyddog Cyfrifyddu wrth gyflawni ei chyfrifoldebau atebolrwydd ffurfiol ac i roi sicrwydd i'r Comisiynwyr Etholiadol ar gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Darperir manylion am gyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio, aelodaeth a gweithgarwch yn ystod y flwyddyn isod:

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn helpu'r Swyddog Cyfrifyddu i gyflawni ei chyfrifoldebau am sicrhau digonolrwydd y prosesau rheoli risg, rheolaethau mewnol, defnydd effeithlon ac effeithiol o arian cyhoeddus a threfniadau llywodraethu ariannol o fewn y Comisiwn. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn gweithredu ar ran y Comisiynwyr Etholiadol i roi sicrwydd iddynt ar faterion o'r fath.

Yn benodol, mae rôl y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys craffu ar bolisïau cyfrifyddu'r Comisiwn a'u hadolygu; adroddiad blynyddol a chyfrifon y Comisiwn, gan gynnwys y broses o adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio a llythyr sylwadau'r rheolwyr i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol; materion yn ymwneud â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol; digonolrwydd ymateb y rheolwyr i broblemau a nodwyd gan weithgarwch archwilio; sicrwydd yn ymwneud â'r gofynion llywodraethu corfforaethol ar gyfer y Comisiwn Etholiadol; a chynigion ar gyfer tendro am wasanaethau archwilio, neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio oddi wrth gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys pedwar penodai ac mae'n ofynnol iddo gyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Penodir tri Chomisiynydd gan y Bwrdd i'r Pwyllgor Archwilio. Ni ellir penodi Cadeirydd y Comisiwn fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cymeradwyo penodiad cynghorydd annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio, sef unigolyn annibynnol â chymwysterau addas heb unrhyw gysylltiad â'r Comisiwn. Mae'r Bwrdd yn cytuno y bydd y cynghorydd annibynnol yn cadeirio'r Pwyllgor Archwilio ac y bydd ganddo'r hawl i fynychu unrhyw gyfarfod o'r Comisiynwyr Etholiadol.

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd y Comisiwn ac yn darparu cofnodion cymeradwy o bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio i'r cyfarfod nesaf sydd wedi'i drefnu o Fwrdd y Comisiwn.

Cydnabyddiaeth Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio am y flwyddyn oedd £4,500.

Bydd aelodau o'r Pwyllgor Archwilio fel arfer yn gwasanaethu am dair blynedd, oni fydd aelod yn peidio â bod yn Gomisiynydd neu'n gofyn am gael ymddiswyddo. Gellir eu hailbenodi am gyfnod pellach nad yw'n fwy na thair blynedd fel arfer.

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16 oedd:

- Dean Parker CIPFA, cynghorydd annibynnol

Aelodau'r Pwyllgor yn ystod yr un cyfnod oedd:

- Gareth Halliwell, Comisiynydd Etholiadol
- Tony Hobman, Comisiynydd Etholiadol
- Alasdair Morgan, Comisiynydd Etholiadol

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod 2015-16. Mae'r archwilwyr mewnol ac allanol yn mynychu pob cyfarfod fel mater o drefn ochr yn ochr â staff y Comisiwn gan gynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid. Gall aelodau'r Pwyllgor hefyd gynnal trafodaeth breifat flynyddol â'r archwilwyr.

Cymeradwyodd y Pwyllgor raglen archwilio ac adolygiadau ar gyfer 2015-16 ac mae wedi monitro'r gwaith o gyflawni'r rhaglen hon drwy gydol y flwyddyn.

2. Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol y Comisiwn yn cynnwys tri Chomisiynydd ac mae'n cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

Sefydlwyd y Pwyllgor i gefnogi'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn eu cyfrifoldebau ar gyfer newidiadau sylweddol i delerau ac amodau staff, adolygu polisi cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr, cytuno ar gylch gwaith dyfarniad cyflog y staff a phennu'r ffi ar gyfer Cadeirydd annibynnol y Pwyllgor Archwilio.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithredu fel grŵp cynghori ar y graddau y mae datblygiad sefydliadol a materion AD yn ategu cyfeiriad strategol y Bwrdd ar gyfer y Comisiwn.

Bydd aelodau o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn gwasanaethu am dair blynedd, oni fydd aelod yn peidio â bod yn Gomisiynydd neu'n gofyn am gael ymddiswyddo. Gellir eu hailbenodi am gyfnod pellach nad yw'n fwy na thair blynedd.

Aelodau'r Pwyllgor yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16 oedd:

- Tony Hobman (Cadeirydd), Comisiynydd Etholiadol
- Gareth Halliwell, Comisiynydd Etholiadol

- Anna Carragher, Comisiynydd Etholiadol

Cyfarfu'r Pwyllgor dair gwaith yn ystod 2015-16 a'r prif bynciau trafod oedd penodi'r Prif Weithredwr, cyflogau, gwobrwyo a rheoli perfformiad, yr adolygiad o gyflog cyfartal, taliadau ymadael, adroddiad blynyddol, ymgysylltu a newid diwylliannol a Chynllun AD 2016-17.

3. Panel Recriwtio

Roedd Panel Recriwtio'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd a gwnaeth gyfarfod yn ôl yr angen i ddelio â phenodiad Prif Weithredwr newydd.

Yr Amgylchedd Rheoli

Yn ogystal â chefnogi'r Bwrdd a'r Pwyllgorau fel yr amlinellir uchod, caiff effeithiolrwydd fframwaith rheoli'r Comisiwn ei gynnal ymhellach a'i adolygu drwy'r trefniadau canlynol:

Llywodraethu Corfforaethol

Mae Bwrdd y Comisiwn yn adolygu'r fframwaith llywodraethu corfforaethol yn flynyddol gan sicrhau y mabwysiedir yr arfer gorau cyfredol. Mae'r Ysgrifennydd i Fwrdd y Comisiwn yn gyfrifol am weithredu'r cynllun llywodraethu corfforaethol er mwyn sicrhau bod nodau ac egwyddorion y fframwaith yn cael eu gweithredu'n llawn.

Archwilwyr

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu adroddiadau archwilio allanol a mewnol, ac yn monitro pa argymhellion o'r adroddiadau hyn a dderbynnir, ac yn gweithredu'r argymhellion a dderbynnir. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn bodloni ei hun fod yr argymhellion a wrthodir yn cael eu gwrthod am resymau dilys.

Archwilio Allanol

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn darparu adroddiadau ffurfiol i reolwyr fel rhan o'r broses archwilio statudol sydd hefyd yn llywio'r broses barhaus o adolygu systemau rheoli'r Comisiwn.

Penodir y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd allanol y Comisiwn Etholiadol o dan Atodlen 1 PPERA. Fel y datgelwyd yn nodyn 3 i'r cyfrifon, aethpwyd i gost dybiannol o £35,000 (2014-15: £35,000) ar wasanaethau archwilio a ddarparwyd gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Sicrwydd Gwerth am Arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Yn ystod 2015-16, yn ogystal â'r archwiliad statudol o Adroddiad a Chyfrifon y Comisiwn, cynhaliodd SAC ei hail astudiaeth gwerth am arian flynyddol o rôl y Comisiwn Etholiadol yn y prosiect Cofrestriad Etholiadol Unigol.

Archwilio Mewnol

Archwilwyr mewnol y Comisiwn ar gyfer 2015-16 oedd PricewaterhouseCoopers (PwC), a benodwyd yn wreiddiol o 1 Ebrill 2012 am dair blynedd ac estynnwyd hyn wedyn am flwyddyn arall.

Cyflawnwyd archwiliadau yn unol â methodoleg Archwilio Mewnol PwC, sy'n gyson â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae eu hadroddiadau yn cynnig barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheoli'r Comisiwn. Roedd y rhaglen archwilio seiliedig ar risg y cytunwyd arni wedi cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ac fe'i cyflawnwyd o fewn y flwyddyn.

Cost y gwasanaethau archwilio mewnol ar gyfer 2015-16 oedd £74,318, sy'n cynnwys £50,738 ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol a £23,580 ar gyfer cefnogi archwiliadau Grantiau Datblygu Polisi (ar gyfer 2014–15 y gost oedd £61,009). Mae ffioedd 2014-15 yn cynnwys cost yr adolygiad cofrestru pleidiau.

Llywodraethu Gwybodaeth

Mae proses y Comisiwn o reoli risg gwybodaeth yn broses barhaus. Mae'r Comisiwn yn llywio ac yn mesur ei ddull gweithredu yn erbyn Cod Ymarfer yr Arglwydd Ganghellor ar reoli cofnodion, Fframwaith Polisi Diogelwch Swyddfa'r Cabinet a Safon Diogelwch Gwybodaeth ISO27001.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn goruchwylio dull y Comisiwn o reoli risg gwybodaeth. Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb gweithredol yn ei rôl fel Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO).

Systemau rheoli mewnol eraill

Mae'r Comisiwn yn cyflawni allbynnau o natur berthnasol neu drawsbynciol drwy raglen a strwythur rheoli prosiectau. Ceir manylion y prif raglenni yn ystod 2015-16 yn y Dadansoddiad o Berfformiad.

Datblygwyd trefniadau adrodd ffurfiol ar gyfer rhaglenni a phrosiectau i'r Tîm Gweithredol a Bwrdd y Comisiwn, i'w galluogi i fonitro cynlluniau a chyflawniadau yn erbyn cerrig milltir a chyllidebau allweddol.

Mae rhaglen fisol o gyfarfodydd monitro perfformiad ac ariannol y gyfarwyddiaeth ar waith ar draws y Comisiwn. Mynychir y cyfarfodydd gan bob Cyfarwyddwr a'u rheolwyr cyllidebau ac fe'u cefnogir gan dîm adrodd canolog o reolwyr.

Cyfarfu'r Bwrdd Prosiectau Seilwaith a Chorfforaethol, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol bron bob mis yn ystod 2015-16. Roedd ei gylch gwaith yn cynnwys sicrhau'r canlynol:

- Bod prosiectau buddsoddi'n cael eu gwerthuso'n briodol yn erbyn meini prawf llwyddiant clir
- Bod cynlluniau cyflawni ar waith ar gyfer prosiectau cymeradwy

- Bod risgiau i brosiectau'n cael eu nodi a'u rheoli'n ddigonol yn unol â fframwaith rheoli risg y Comisiwn.
- Bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu hadlewyrchu mewn proses gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Mae'r Comisiwn yn gweithredu Fframwaith Rheoli Perfformiad Personol cynhwysfawr, sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod gan bob aelod o staff amcanion clir ac y caiff eu llwyddiant wrth gyflawni'r amcanion hyn ei asesu mewn ffordd strwythuredig. Bwriedir i'r fframwaith hefyd sicrhau y gall pob aelod o staff fanteisio ar yr hyfforddiant a'r datblygiad sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu cyfrifoldebau yn ôl y gofyn.

Caiff Grantiau Datblygu Polisi, fel y nodir yn nodyn 4 i'r cyfrifon, eu gwneud gan y Comisiwn i bleidiau gwleidyddol cymwys. Cynhelir rheolaeth dros dalu'r grantiau drwy broses hawlio ac adolygu gynhwysfawr, a gaiff ei hadolygu am gywirdeb a rheoleidd-dra fel rhan o'r archwiliad ariannol blynyddol.

Pensiynau

Mae cyflogeion y Comisiwn yn gymwys i fod yn aelod o dan drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod mewn un o bum cynllun buddiannau diffiniedig; naill ai gynllun cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus); neu gynllun gyrfa gyfan (Nuvos, neu Alpha). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu a thelir cost buddiannau drwy arian y pleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus a Nuvos eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiannau diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliad 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth). Mae Alpha yn gynllun buddiannau diffiniedig (Cyfartaledd Gyrfa - CARE). Bydd pensiwn yn cronni ar 2.32% o enillion pensiynadwy gwirioneddol ym mhob un o flynyddoedd y cynllun; fe'i cyflwynwyd ar 1 Ebrill 2015.

Mae'r Cynllun yn cynnwys dewis rhwng cynllun buddiannau diffiniedig a phensiwn rhanddeiliad. Y Cynllun sy'n atebol am hyn, ac nid y Comisiwn. Telir buddiannau o'r cynllun Pensiwn Sifil y mae'r Comisiwn yn gwneud cyfraniadau iddo i dalu hawl y staff a gyflogir i'r pensiwn cronnus. Darperir Datganiadau Cyfrifon ar gyfer y Cynllun yng Nghyfrifon Adnoddau Pensiwn Sifil Swyddfa'r Cabinet. Darperir manylion pellach yn nodyn 15 i'r Cyfrifon ac yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff. Amlinellir y trefniadau pensiwn ar gyfer y Comisiynwyr Etholiadol yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff.

Costau ymadael yn gynnar

Mae'r Comisiwn yn talu costau pensiwn ychwanegol unrhyw gyflogeion sy'n ymddeol cyn iddynt gyrraedd eu hoedran pensiwn arferol. Codir cyfanswm yr atebolrwydd pensiwn hyd at yr oedran ymddeol arferol mewn perthynas â phob cyflogai fel gwariant yn y flwyddyn y mae'r cyflogai yn ymddeol yn gynnar ynddi a chaiff darpariaeth ei chreu ar gyfer yr atebolrwydd nes iddo gyrraedd ei ben-blwydd yn 60 oed. Ni fu unrhyw achosion o ymadael yn gynnar yn 2015-16.

Rheoli Risg

Y risgiau sefydliadol (strategol) a gafodd eu monitro a'u rheoli gan y Comisiwn yn 2015-16 oedd:

- Mae'r Comisiwn yn aneffeithiol wrth gyflawni ei gynllun corfforaethol
- Mae'r cyhoedd wedi colli hyder yn y ffordd y cafodd refferendwm yr UE ei gynnal
- Nid oedd rhan o bleidleisiau mis Mai 2016 neu bob rhan ohonynt wedi eu cynnal yn dda
- Mae digwyddiadau nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Comisiwn yn cael effaith ar ei enw da
- Rheoleiddio rheolau Cyllid Pleidiau ac Etholiadau yn aneffeithiol
- Mae'r Comisiwn yn parhau i ymateb yn ddigonol i fwy o ddatganoli

Cynllunnir prosesau rheoli risg y Comisiwn er mwyn gwneud y canlynol:

- Cynnal fframwaith clir ar draws y sefydliad lle y caiff risgiau eu nodi, eu hasesu, eu rheoli a'u hadolygu'n rheolaidd
- Neilltuo cyfrifoldeb penodol am reoli risgiau yn eu meysydd cyfrifoldeb i aelodau unigol o'r Tîm Gweithredol (gan gynnwys rheoli risgiau i brosiectau sylweddol yn eu capasiti fel Cyfarwyddwr Rhaglenni)
- Sicrhau y caiff arwyddocâd ac effaith risgiau eu hasesu'n gyson
- Sicrhau y caiff risgiau sydd eisoes yn bodoli eu hadolygu'n rheolaidd, ac y caiff risgiau newydd eu nodi a'u rheoli
- Sicrhau Prif Weithredwr y Comisiwn, y Pwyllgor Archwilio a Bwrdd y Comisiwn fod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol

Cafodd polisi rheoli risg y Comisiwn ei adolygu'n llawn yn 2013-14 er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar ddull y Comisiwn o reoli risgiau, gan gategoreiddio risgiau'n glir a rhoi pwyslais ar reoli risgiau o fewn rhaglenni a phrosiectau - prif ddulliau cyflawni'r Comisiwn. Caiff y polisi ei adolygu'n llawn eto yn 2016-17. Mae risgiau sefydliadol y Comisiwn yn parhau i gael eu lliniaru drwy brif raglenni a gweithgareddau gweithredol allweddol y Comisiwn.

Caiff risgiau eu nodi a'u gwerthuso yn y ffyrdd canlynol:

- Gwneir pob penderfyniad allweddol ar ôl ystyried risgiau a mesurau lliniaru cysylltiedig a nodir ar wahân mewn papurau penderfyniadau ar gyfer Bwrdd y Comisiwn a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau dirprwyedig.

- Fel rhan o'u hadolygiad chwarterol o risg, bydd y Tîm Gweithredol yn ystyried a ddylid ychwanegu unrhyw risgiau newydd at y cofrestrau risg.

- Mae rheolwyr a staff yn gyfrifol am nodi risg yn eu prosiectau neu eu meysydd gwaith eu hunain. Nodir risgiau hefyd drwy'r broses gynllunio, drwy archwilio ac adolygu gweithrediadau a thrwy weithgareddau hyfforddi.

- Neilltuir pob risg a nodir i berchennog risg, ac mae'n ofynnol iddo adolygu a yw'n debygol y cyflawnir y risg, yr effaith ganlyniadol a'r mesurau lliniaru sydd ar waith bob chwarter o leiaf - yn ymarferol, caiff risgiau eu hadolygu unwaith y mis fel rhan o raglen a threfniadau rheoli perfformiad y Comisiwn.

Yn ystod 2015-16:

- Bu'r gofrestr risg sefydliadol yn destun diweddariad llawn a nodwyd cyfres ddiwygiedig o chwe risg lefel uchel
- Crëwyd adroddiad cryno ar risgiau gan ddwyn ynghyd risgiau gweithredol, rhaglen, sefydliadol a risgiau newydd sy'n dod i'r golwg
- Cynhaliwyd gweithgareddau amrywiol i reoli risgiau yn y cyfnod cyn etholiadau mis Mai 2016 a Refferendwm yr UE gan gynnwys ymarferion parhad busnes a rheoli argyfyngau.

Gan fod rhai risgiau'n ymwneud ag etholiadau a refferendwm ac am nad yw eraill, oherwydd eu natur, o fewn rheolaeth y Comisiwn neu am na ellir rhagweld eu hamseriad, gall difrifoldeb risgiau amrywio ar adegau gwahanol o'r flwyddyn. Mae'r dull rheoli, y prosesau a'r adolygiadau o risgiau'r Comisiwn a'r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith yn y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn wedi rhoi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu bod cyfundrefn briodol o reoli risg wedi cael ei chynnal er mwyn helpu'r Comisiwn i gyflawni ei amcanion yn ystod y flwyddyn.

Canlyniadau sicrwydd ar gyfer 2015-16

Adolygiad o Berfformiad y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn ystod 2015-16

Mae hunanasesu effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn rheolaidd yn rhan annatod o drefniadau llywodraethu'r Comisiwn. Ym mis Chwefror 2016, adolygodd y Bwrdd ei weithrediad yng ngoleuni nifer o ffactorau, gan gynnwys penodi Prif Weithredwr newydd ym mis Hydref 2015, yr adolygiad strategol a gychwynnwyd ym mis Rhagfyr 2015, a'r newid disgwyliedig i'r Cadeirydd a Chomisiynydd yr Alban ar ddiwedd 2016. Nododd y Bwrdd hefyd rai mân newidiadau i gynnal ac adeiladu ar wybodaeth gefndirol o waith y Comisiwn, tra'n cynnal safle strategol priodol o ran ei gyfraniad a'i ymyriad.

Nod blaenraglen o gyfarfodydd y Bwrdd yw ymgysylltu ar lefel strategol, yn hytrach na gweithredol, gan wahodd cyfraniad effeithiol a her ar adeg briodol. Yn ystod y flwyddyn canolbwyntiodd amser y Bwrdd ar y gweithgareddau canlynol:

- Etholiad Cyffredinol Senedd y DU ym mis Mai 2015,
- Penderfyniad y Llywodraeth i newid i Gofrestriad Etholiadol Unigol yn gynt
- Penodi Prif Weithredwr newydd
- Trafodaethau adolygu strategol cam cynnar (cynhelir yr adolygiad llawn yn 2016-17)
- Paratoadau ar gyfer refferendwm yr UE ac etholiadau mis Mai 2016.

Nodir presenoldeb y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn ystod 2015-16 yn y tabl canlynol. Rhoddir yr uchafswm presenoldeb posibl mewn cromfachau:

Enw	Bwrdd y Comisiwn	Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor AD a Chydnabyddiaeth
Jenny Watson (Cadeirydd)	11 (11)	-	-
Anna Carragher	11 (11)	-	3 (3)
Gareth Halliwell	11 (11)	4 (4)	3 (3)
Tony Hobman	10 (11)	4 (4)	3 (3)
Yr Arglwydd Horam o Grimsargh	10 (11)	-	-
David Howarth	10 (11)	-	
John McCormick	11 (11)	-	-
Alasdair Morgan	10 (11) -1 ond ceisiodd gymryd rhan dros y ffôn	3 (4)	
Bridget Prentice	11 (11)		
Rob Vincent (from 01/01/2016)	2 (2)		-

Materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio yn ystod 2015-16

Adolygodd y Pwyllgor Archwilio, yn ogystal â'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac AD, eu heffeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn (Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2015 a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac AD ym mis Mawrth 2016). Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, a bydd y Pwyllgorau yn gweithredu ar y casgliadau yn ystod 2016-17.

Yn ystod 2015-16 rhoddodd y Pwyllgor Archwilio gyngor i'r Swyddog Cyfrifyddu ar yr eitemau allweddol canlynol:

- Datblygiadau o ran rheoli risg, rheoli gwybodaeth ac adrodd ar hynny yn ystod y flwyddyn
- Ystyried Llythyr Rheoli'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyfer 2015-16 a'r Adroddiad ar Gynllunio Archwiliadau ar gyfer 2016-17
- Adolygu adroddiad blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol
- Cytuno ar gwmpas archwiliad gwerth am arian blynyddol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac ystyried y canfyddiadau
- Derbyn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2014-15
- Penodi archwilwyr mewnol, Mazars LLP, o 2016-17

Sicrwydd Archwilio Mewnol

Cwblhawyd pum adroddiad archwilio mewnol (rheoli risg; Cyfathrebu - defnyddio cyfryngau cymdeithasol; Cyllid Pleidiau ac Etholiadau - monitro ac adrodd; rheolaethau ariannol

allweddol; caffael) yn ystod y flwyddyn. Ar gyfer pob archwiliad darparodd yr archwilwyr mewnol adroddiadau a oedd eu cynnwys eu canfyddiadau allweddol; ac awgrym o lefel y sicrwydd y gellid ei seilio ar eu canfyddiadau; ac argymhellion ar gyfer gweithredu i atgyfnerthu unrhyw wendidau rheoli. Ni chafodd yr un o'r adroddiadau ei ddosbarthu yn 'risg uchel' ac ni chafodd yr un o'r argymhellion ei ddosbarthu yn 'difrifol/uchel'. Mae'r holl waith o weithredu hyn yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio.

Llywodraethu gwybodaeth

Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet mae'r Pwyllgor Archwilio a'r Prif Weithredwr yn cael asesiad blynyddol o'r broses rheoli Risg Gwybodaeth gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth.

Ar gyfer 2015-16 daeth yr adroddiad, a edrychodd ar feysydd rheoli risg, tryloywder, cyfrinachedd gwybodaeth, argaeledd gwybodaeth, uniondeb gwybodaeth, rheoli digwyddiadau a gweithdrefnau i sicrhau ymwybyddiaeth barhaus o gyfrifoldebau a risgiau, i'r casgliad bod y dull o reoli risg gwybodaeth yn y Comisiwn Etholiadol yn effeithiol.

Ystyriodd y Pwyllgor Archwilio a'r Prif Weithredwr asesiad yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth o effeithiolrwydd y broses gyffredinol o reoli risg, gan gynnwys asesu yn erbyn canllawiau a fframweithiau perthnasol, ac roeddent yn fodlon ar yr asesiad hwnnw.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli. Caiff yr adolygiad hwn ei lywio gan waith y rheolwyr yn y Comisiwn sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheoli, gan waith yr archwilwyr mewnol hynny a chan sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu hadroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'r sefydliad ac adroddiadau eraill. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn rhoi cyngor i mi ar effeithiolrwydd fy systemau rheoli.

Rwy'n fodlon nad oedd unrhyw wendidau rheoli a nodwyd yn ystod y flwyddyn yn ddigon i beri risgiau sylweddol i bolisïau, nodau ac amcanion y Comisiwn, na gwallau perthnasol yn natganiadau ariannol y Comisiwn. Rwyf hefyd yn fodlon yr ymdriniwyd â'r gwendidau hynny a nodwyd drwy gamau gweithredu priodol neu yr ymdrinnir â hwy ar hyn o bryd.

Rwy'n fodlon na thynnodd yr asesiad blynyddol o risg gwybodaeth, fel y'i derbyniwyd gan y Pwyllgor Archwilio, sylw at unrhyw feysydd a oedd yn peri pryder. Cadarnhaodd y Pwyllgor Archwilio yr asesiad o effeithiolrwydd y broses gyffredinol o reoli risg, gan gynnwys asesu yn erbyn canllawiau a fframweithiau perthnasol.

Claire Bassett
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
11 Gorffennaf 2016

Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff

Y Comisiynwyr a'u cydnabyddiaeth

Penodir comisiynwyr drwy Warant Frenhinol i ymarfer swyddogaethau'r Comisiwn fel y'u disgrifir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA). Penodir Cadeirydd y Comisiwn ar sail ran amser, am dri diwrnod yr wythnos; tra bydd y Comisiynwyr eraill yn treulio rhwng 1.4 a 4.8 diwrnod y mis ar gyfartaledd yn cyflawni dyletswyddau'r Comisiwn.

Gwasanaethodd y Comisiynwyr canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Jenny Watson (Cadeirydd)
- Anna Carragher
- Gareth Halliwell
- Tony Hobman
- Yr Arglwydd Horam o Grimsargh
- David Howarth
- John McCormick
- Alasdair Morgan
- Bridget Prentice
- Rob Vincent, CBE (penodwyd 1 Ionawr 2016)

Mae hyd penodiadau'r Comisiynwyr cyfredol fel a ganlyn:

Enw	O	I
Jenny Watson	1 Ionawr 2013	31 Rhagfyr 2016
Anna Carragher	1 Ionawr 2016	31 Rhagfyr 2019
Gareth Halliwell	13 Mawrth 2013	12 Mawrth 2017
Tony Hobman	1 Ionawr 2014	31 Rhagfyr 2017
Yr Arglwydd Horam o Grimsargh	1 Hydref 2014	30 Medi 2018
David Howarth	1 Hydref 2014	30 Medi 2018
John McCormick	1 Hydref 2012	31 Rhagfyr 2016
Alasdair Morgan	12 Mai 2014	30 Medi 2016
Bridget Prentice	12 Mai 2014	30 Medi 2018
Rob Vincent, CBE	1 Ionawr 2016	31 Rhagfyr 2019

Penderfynodd Tŷ'r Cyffredin y bydd ffioedd ar gyfer y Comisiynwyr yn cynyddu ar 1 Ebrill bob blwyddyn, yn unol â'r cynnydd canrannol a delir am Farnwyr yr Uchel Lys. Yn unol â'r trefniant hwn, cynyddodd ffioedd 1% o fis Ebrill 2015.

Telir y ffioedd ar gyfer y Comisiynwyr a'r Cadeirydd allan o'r Gronfa Gyfunol, fel y gellir ei nodi mewn penderfyniad gan Dŷ'r Cyffredin. Pennwyd y ffi ar gyfer pob diwrnod a weithiwyd yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 ar £370 (2014-15: £366).

Talwyd y Comisiynwyr bob mis mewn ôl-daliadau yn seiliedig ar y diwrnodau gwirioneddol a weithiwyd.

Gellir darparu ar gyfer trefniadau pensiwn y Comisiynwyr drwy benderfyniad gan Dŷ'r Cyffredin. Yr unig ddarpariaeth a wnaed o dan yr adran hon yw ar gyfer Cadeirydd y Comisiwn a thelir y costau hyn o'r Gronfa Gyfunol. Roedd y cyflogau a thaliadau ffioedd i Gomisiynwyr yn ystod 2015-16 fel a ganlyn:

Cyflog a Ffioedd

Enw	2015-16	2014-15
	£	£
Jenny Watson (Cadeirydd)	103,102	102,771
M Caller (hyd at 31 Rhagfyr 2014)	0	13,345
Anna Carragher	13,493	14,622
John McCormick	21,629	23,211
David Howarth	8,130	9,309
Yr Arglwydd Horam o Grimsargh	7,577	7,578
Tony Hobman	10,348	9,876
Gareth Halliwell	18,486	19,742
Alasdair Morgan	11,086	6,588
Bridget Prentice	8,132	4,026
Rob Vincent	2,405	0

Treuliau busnes - teithio a llety

Enw	2015-16	2014-15
	£	£
Jenny Watson (Cadeirydd)	1,771	1,008
M Caller (hyd at 31 Rhagfyr 2014)	0	61
Anna Carragher	2,647	1,974
John McCormick	5,178	4,028
David Howarth	0	0
Yr Arglwydd Horam o Grimsargh	0	0
Tony Hobman	179	200
Gareth Halliwell	4,573	4,457
Alasdair Morgan	3,210	2,693
Bridget Prentice	68	91
Rob Vincent	0	0

Enillion y Tîm Gweithredol

Roedd hawliau cyflog a phensiwn Tîm Gweithredol y Comisiwn fel a ganlyn:

	Cyflog Gros		Buddiannau Pensiwn		Cyfanswm	
£000	**2015-16**	**2014-15**	**2015-16**	**2014-15**	**2015-16**	**2014-15**
Peter Wardle* Prif Weithredwr Ymddiswyddodd 31 Gorffennaf 2015	49	125	14	30	63	155
Claire Bassett* Prif Weithredwr Penodwyd 7 Hydref 2015	63	0	25	0	88	0
Carolyn Hughes Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Penodwyd 21 Mai 2007	102	101	31	24	133	125
Andrew Scallan Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Etholiadol Penodwyd 24 Hydref 2006	96	95	38	23	134	118
Alex Robertson Cyfarwyddwr Cyfathrebu Penodwyd 1 Hydref 2010	96	95	38	23	134	118
Bob Posner* Cyfarwyddwr Cyllid Pleidiau ac Etholiadau a Chwnsler Cyfreithiol Cyhoeddwyd 23 Medi 2014	96	48	40	12	136	60

Mae'r wybodaeth yn y tabl uchod wedi'i harchwilio.

* Y cyflogau blynyddol ar gyfer 2015-16 yw Peter Wardle £125,490; Claire Bassett £130,000 ac ar gyfer 2014-15, Bob Posner £95,220.

Cyflogau Staff, bonysau a buddiannau anariannol

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn gyfrifol am gynghori Bwrdd y Comisiwn ar gydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a chytuno ar y cylch gwaith negodi blynyddol ar gyfer dyfarniadau cyflogau staff (gan gynnwys y Tîm Gweithredol). Darperir manylion am gyfrifoldebau ac aelodaeth y pwyllgor yn yr Adroddiad Llywodraethu.

Nid yw'r Comisiwn yn rhan o'r Gwasanaeth Sifil ac felly nid yw'n rhwym wrth Ganllawiau Cyflogau'r Gwasanaeth Sifil. Fodd bynnag, mae Atodlen 1 PPERA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried pa mor ddymunol yw cadw telerau ac amodau cyflogaeth staff yn fras yn unol â rhai'r Gwasanaeth Sifil. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol hefyd yn ystyried ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd eu hargymhellion.

Ariennir cydnabyddiaeth Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr y Comisiwn drwy Amcangyfrif Cyflenwi'r Comisiwn a rhoddir cyfrif am hyn yng nghyfrifon adnoddau'r Comisiwn.

Mae gan y bobl a gwmpesir gan yr adroddiad hwn benodiadau penagored (heblaw am y Prif Weithredwr) er bod gan staff yr opsiwn i ymddeol a chael pensiwn ar ôl cyrraedd 60 neu 65 oed yn dibynnu ar reolau eu cynllun pensiwn penodol. Byddai dod â phenodiad gyda gwasanaeth cymhwyso i ben yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, fel arfer yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, y gellir ei weld yn:

www.civilservicepensionscheme.org.uk.

Mae buddiannau mewn nwyddau aelodau'r Tîm Gweithredol yn cynnwys aelodaeth o Benenden Healthcare, cynllun disgownt prynu ar-lein a rhaglen cymorth i gyflogeion, y mae'r Comisiwn hefyd yn gwneud taliad ar gyfer pob un i CThEM. Gwerth y buddiannau hyn i bob aelod o'r Tîm Gweithredol ar gyfer 2015-16 oedd £235 (2014-15; £313). Darperir y buddiannau hyn i bob aelod o staff y Comisiwn.

Iawndal am golli Swydd

Gadawodd Peter Wardle y Comisiwn o dan delerau ymadael gwirfoddol Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil ar 31 Gorffennaf 2015, y cronnodd ei gost yng nghyfrifon 2014-15. Talwyd swm o £320,389 i Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil a oedd yn cynnwys dwy elfen: taliad iawndal o £219,608 wedi'i gyfrifo ar sail ei gyflog a hyd ei wasanaeth; a thaliad o £100,781 i brynu'r gostyngiad actiwaraidd ar ei bensiwn.

Cyfansoddiad Staff

Ar 31 Mawrth 2016, roedd cyfanswm o 80 o gyflogeion benywaidd, a 60 o gyflogeion gwrywaidd, ac o blith y rhain roedd 3 chyfarwyddwr a 2 gyfarwyddwraig.

Cyflog Teg:

Mae cyflogau staff mewn bandiau o £5,000 ar gael ar wefan y Comisiwn. http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0019/102736/Salary-Information-March-2016.pdf

Datgeliad cyflog canolrif

	2015-16	2014-15
	£	£
Y Cyfarwyddwr a gafodd y cyflog mwyaf	130,000	125,490
Cydnabyddiaeth ganolrif	37,646	36,783
Cymhareb	3.5	3.4

Yn 2015-16, ni chafodd unrhyw gyflogai gydnabyddiaeth a oedd yn fwy na'r hyn a gafodd y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf. Roedd y cyfraddau cydnabyddiaeth ar gyfer staff heblaw am y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf (a gaiff ei addasu lle y bo angen i adlewyrchu trefniant gwaith rhan amser) yn amrywio o £22,502 i £101,829 (2014-15: £21,611 i £100,914). Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, cyflog ar sail perfformiad nad yw'n gyfunol a buddiannau mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na'r gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod pensiynau.

Cynyddodd cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf 1% yn weithredol o 1 Ebrill 2015 a oedd yn gyson â holl gyflogau'r Comisiwn.

Polisïau Staff

Cafodd polisïau staff eu cymhwyso'n gyson yn ystod y flwyddyn wrth ystyried ceisiadau ar gyfer cyflogaeth a recriwtio staff. Gofynnir i bob ymgeisydd ddarparu data monitro cydraddoldeb, na fydd y panel rhestr fer yn eu gweld, ac felly cânt eu rhoi ar y rhestr fer yn seiliedig ar eu sgiliau a'u profiad sy'n angenrheidiol ar gyfer y rôl.

Rhoddir cyfle i staff sy'n datgan anabledd, neu sy'n mynd yn anabl yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010, wneud cais am addasiadau rhesymol os bydd eu hangen. Gellir ymgynghori â'r adran Iechyd Galwedigaethol i wneud argymhellion a chynnal asesiadau risg o ran iechyd a diogelwch. Caiff gweithio'n hyblyg ei ystyried hefyd fel rhan o addasiadau rhesymol.

Darperir hyfforddiant, fel y bo angen, i bob aelod o staff yn y fformat/cyfrwng sy'n ofynnol.

Cysylltiadau staff

Mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i gyfathrebu'n uniongyrchol â phob aelod o staff ac ystyried eu barn ar faterion sy'n effeithio ar eu cyflogaeth. Er mwyn helpu'r Comisiwn a'i staff i gyflawni'r amcan hwn, rhoddir cytundeb cydnabod ar waith rhwng y Comisiwn a'r Undeb

Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS). Mae'r cytundeb hwn yn annog trefniadau gwaith clir, er mwyn hyrwyddo cydfuddiannau'r Comisiwn a'i gyflogeion tuag at gynnal cysylltiadau da drwy feithrin ymdeimlad o ddealltwriaeth, cydweithrediad ac ymddiriedaeth rhwng y Comisiwn, ei gyflogeion a'r Undeb. Anogir ymwneud y staff hefyd fel rhan o broses ddyddiol rheolwyr llinell a chaiff gwybodaeth am ddatblygiadau cyfredol ac arfaethedig ei dosbarthu'n eang. Yn ogystal â hyn, rydym wrthi'n datblygu gweithgor Ymgysylltu â Staff a Chyfathrebu Mewnol fel ffordd arall o wella a chynnal cysylltiadau da rhwng cyflogeion

Cyfle cyfartal ac amrywiaeth

Mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i egwyddor cyfle cyfartal ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Mae cynllun cydraddoldeb sengl y Comisiwn yn nodi ei ddyletswyddau a'i ymrwymiadau ar draws y DU gyfan ac mae'n cynnwys cynllun gweithredu a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol. Mae'r cynllun yn adlewyrchu dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus sy'n atal gwahaniaethu ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Cynllunnir cynllun y Comisiwn:

- Er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gymwys yn gallu cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, gan nodi rhwystrau, gwneud argymhellion a gweithio gydag eraill i'w chwalu
- Er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl waith, yn trin pob cwsmer yn deg a gyda pharch, a'i fod yn dryloyw yn y penderfyniadau a wna
- Er mwyn sicrhau cyfle cyfartal i bawb yn y Comisiwn a sicrhau y caiff pob aelod o staff ei drin yn deg a gyda pharch.

Cynhaliodd y Comisiwn asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar bolisïau a gweithdrefnau perthnasol drwy gydol 2015-16. Mae'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn ategu ymrwymiad i lunio polisïau ar sail tystiolaeth. Yn ogystal â threfniadau ar gyfer ymgynghori a monitro, mae'r broses asesu yn helpu i ddatblygu polisïau effeithiol sy'n diwallu anghenion pob defnyddiwr.

Mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i sicrhau nad yw anabledd yn rhwystro'r broses recriwtio na dyrchafu ac mae wedi llwyddo i gadw'r symbol Anabledd 'Tic Dwbl'. Dyfernir y symbol i gyflogwyr sydd wedi cytuno i fodloni pum ymrwymiad ynghylch recriwtio, cyflogi, cadw a datblygu gyrfa pobl anabl. Mae'r dyfarniad hwn yn gwella arferion gwaith presennol y Comisiwn fel na wahaniaethir yn erbyn unrhyw ymgeisydd am swydd na chyflogai oherwydd anabledd.

Absenoldeb oherwydd salwch

Yn 2015-16 nifer gyfartalog y diwrnodau salwch oherwydd absenoldeb oedd 5.77 fesul cyflogai (2014-15: 8.02). Mae'r lleihad mewn absenoldeb yn adlewyrchu gwaith effeithiol o fonitro a rheoli staff sy'n absennol o'r gwaith oherwydd salwch am amser hir. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn ymrwymedig i iechyd a lles pob aelod o staff ac mae'n hyrwyddo ffordd o fyw gytbwys, gan gynnwys aelodaeth gorfforaethol gyda Benenden Healthcare. Ceir polisi

absenoldeb oherwydd salwch cynhwysfawr a chanllawiau i reolwyr ar ddelio ag absenoldeb staff.

Iechyd a diogelwch galwedigaethol

Mae polisi iechyd a diogelwch y Comisiwn wedi ei gyhoeddi ac mae ar gael i bob aelod o staff. Hefyd, mae gweithdrefnau, canllawiau ac asesiadau risg ar waith sy'n cwmpasu gweithgareddau craidd y Comisiwn.

Mae grŵp iechyd a diogelwch yn goruchwylio trefniadau'r Comisiwn, er mai'r rheolwyr llinell sy'n bennaf cyfrifol am iechyd a diogelwch. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter ac yn atebol i Uwch Dîm Arwain y Cyngor.

Mae'r Comisiwn yn trefnu archwiliadau iechyd a diogelwch annibynnol o'i safleoedd bob blwyddyn, sy'n golygu adolygu'r systemau rheoli diogelwch sydd ar waith ac archwilio'r amgylchedd gwaith ffisegol ar y safleoedd. Bwriad yr archwiliadau hyn yw canfod addasrwydd y trefniadau iechyd a diogelwch cyfredol a rhoi cyngor i'r grŵp iechyd a diogelwch ar unrhyw welliannau y dylid eu gwneud.

Mae'r Comisiwn yn defnyddio sefydliad iechyd a diogelwch annibynnol i roi cyngor a chanllawiau ac i fonitro dull y Comisiwn o reoli ei gyfrifoldebau a'i drefniadau iechyd a diogelwch ac, yn ystod y flwyddyn, ni chanfuwyd unrhyw achosion sylweddol o ddiffyg cydymffurfio o ran systemau rheoli diogelwch ac amgylchedd gwaith y Comisiwn.

Yn ôl adroddiad y cynghorydd annibynnol roedd canfyddiadau archwiliadau safleoedd a gynhaliwyd yn ystod 2015-16 yn foddhaol ac roedd y trefniadau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac arfer gorau.

Buddiannau Pensiwn

Enw	Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2016 a chyfandaliad cysylltiedig	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn	CETV ar 31.3.16	CETV ar 31.3.15	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV
	£000	£000	£000	£000	£000
Peter Wardle Prif Weithredwr Ymddiswyddodd 31 Gorffennaf 2015	51 ynghyd â chyfandaliad o 153	3	972	915	11
Claire Bassett Prif Weithredwr Penodwyd 7 Hydref 2015	15	1	148	123	9
Carolyn Hughes Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Penodwyd 21 Mai 2007	17	2	300	243	27
Andrew Scallan Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Etholiadol Penodwyd 24 Hydref 2006	8	2	132	92	24
Alex Robertson Cyfarwyddwr Cyfathrebu Penodwyd 1 Hydref 2010	16	2	145	113	9
Bob Posner Cyfarwyddwr Cyllid Pleidiau ac Etholiadau a Chwnsler Cyfreithiol Cyhoeddwyd 23 Medi 2014	15	2	269	210	36

Mae'r wybodaeth yn y tabl uchod wedi'i harchwilio.

CETV yw'r Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Y pensiwn cronnus a ddyfynnir yn y tabl uchod yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd 60 oed ar gyfer cynlluniau pensiwn 'Classic', 'Classic Plus', a 'Premium', a 65 oed ar gyfer cynlluniau pensiwn 'Alpha' a 'Nuvos'.

Mae datgeliadau pensiwn Peter Wardle yn adlewyrchu ei hawl am y cyfnod llawn o gyflogaeth gyda'r Comisiwn ynghyd â gwasanaeth a drosglwyddwyd o gyflogwyr blaenorol - nid dim ond ei hawl o gyflogaeth gyda'r Comisiwn.

Pensiynau

Darperir buddiannau pensiwn ar gyfer staff y Comisiwn drwy drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.
Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 3.80% ac 8.05% (ar gyfer aelodau sydd yn y cynllun classic neu a symudodd i alpha o'r classic) a rhwng 4.60% ac 8.05% ar gyfer pob aelod arall. Mae buddiannau yn y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy ar ymddeoliad. Ar gyfer y cynllun premium, mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Hybrid yn y bôn yw'r cynllun Classic plus gyda buddiannau am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras fel y rhai ar gyfer classic a buddiannau am wasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu gweithio allan fel y rhai ar gyfer premium. Yn y cynllun Nuvos bydd aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) caiff cyfrif pensiwn yr aelod a enillwyd ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun a chaiff y pensiwn cronnus ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (gohirio) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliad. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewiswyd gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% arall o gyflog pensiynadwy i gwmpasu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad ar sail afiechyd).

Cyflwynwyd y cynllun Alpha o 1 Ebrill 2015. Mae'n gynllun buddiannau diffiniedig (cyfartaledd gyrfa). Bydd pensiwn yn cronni ar 2.32% o enillion pensiynadwy gwirioneddol ym mhob un o flynyddoedd y cynllun.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

Mae cynlluniau classic, premium, classic plus a nuvos gyda'i gilydd yn ffurfio Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Cynlluniau buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr heb eu hariannu (y Cynlluniau) yw'r PCSPS a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS - a adwaenir fel "alpha") ac ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau na'r rhwymedigaethau sylfaenol. Y tro diwethaf i'r cynllun gael ei brisio'n actiwaraidd oedd 31 Mawrth 2007 ond ers y dyddiad hwn cafodd prisiadau actiwaraidd o'r Cynllun eu hatal tra'n aros i argymhellion Adolygiad Hutton gael eu rhoi ar waith. Caiff y Cynllun ei brisio nawr fel yr oedd ar 31 Mawrth 2012 a bydd y prisiad yn adlewyrchu rheolau'r cynllun ar ôl 2015 a strwythurau buddiannau.

Ar gyfer 2015-16, roedd cyfraniadau cyflogwr o £1,102,336 yn daladwy i'r Cynlluniau (2014-15; £1,017,998) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 20% i 24.5% y cant (2014-15; 16.7% a

25.8%) o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Mae cyfraddau'r cyfraniadau yn adlewyrchu buddiannau wrth iddynt gronni, nid y costau fel yr eir iddynt mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn rhanddeiliad gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £30,939 (2014-15; £13,359) i un neu fwy o banel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliad penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio rhwng 8 a 14.75 y cant o gyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniad sy'n cyfateb i daliadau'r cyflogai hyd at 3 y cant o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £9,042, sef 0.5 y cant o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i gwmpasu cost darparu cyfandaliadau yn y dyfodol pe bai'r cyflogeion hyn yn marw mewn gwasanaeth neu'n ymddeol ar sail afiechyd.

Y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i ddarparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol oedd £6,868. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw.

Ni thalwyd cyfraniadau pensiwn gan y Comisiwn mewn perthynas â Chomisiynwyr yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Comisiwn dalu pensiynau i rai o gyn-Gomisiynwyr Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr (LGCE). Cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer y costau hyn oedd £193,790 ar 31 Mawrth 2016 (£211,000 ar 31 Mawrth 2015) – mae rhagor o fanylion ar gael yn nodyn 15 i'r cyfrifon.

Adroddiad Staff

Mae'r costau staff yn cynnwys y canlynol:

			2015-16 £000	2014-15 £000
	Staff a gyflogir yn barhaol	**Eraill**	**Cyfanswm**	**Cyfanswm**
Cyflogau	6,152	246	6,398	6,302
Costau nawdd cymdeithasol	508		508	458
Costau pensiwn eraill	1,151		1,151	1,018
Is-gyfanswm	**7,811**	**246**	**8,057**	**7,778**
Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol	0			0
Darpariaeth Costau Ymadael Gwirfoddol				
Cyfanswm costau net	**7,811**	**246**	**8,057**	**7,778**

Nifer gyfartalog y staff a gyflogir

Yn ystod 2015-16, nifer gyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd oedd 137 (2014-15: 124). Hefyd, ar gyfartaledd, roedd 4 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn (2014-15: 7) yn llenwi swyddi sefydledig dros dro neu'n gweithio ar brosiectau y tu allan i'r sefydliad. Staff a oedd yn cefnogi gweithgarwch ar gyfer refferendwm yr UE yw'r rhan fwyaf o'r cynnydd yn nifer y staff dros dro.

	2015-16	201415
Cyfwerth ag amser llawn - Staff a gyflogir yn barhaol	137	124
Staff dros dro	4	7
Cyfanswm	141	131

Adrodd ar gynlluniau digolledu'r Gwasanaeth Sifil a chynlluniau digolledu eraill – pecynnau ymadael

	2015-16			2014-15		
Band cost pecyn ymadael	***Nifer y diswyddiadau gorfodol**	***Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt**	**Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band cost (cyfanswm cost)**	***Nifer y diswyddiadau gwirfoddol**	***Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt**	**Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band cost (cyfanswm cost)**
<£10,000			0		1	1
£10,000 - £25,000			0		1	1
£25,000 - £50,000			0		1	1
£50,000 - £100,000						0
£300,000- £350,000			0		1	1
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael	0	0	0	0	4	4
Cyfanswm cost adnoddau - £000	0	0	0	0	399	399

Mae costau diswyddo ac ymadael eraill wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972, neu drwy drafod cytundebau cyfaddawd. Lle mae'r Comisiwn wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan y Comisiwn ac nid drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Caiff unrhyw gostau ymddeoliad oherwydd salwch eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl uchod. Ni chafwyd unrhyw gostau ymddeoliad oherwydd salwch yn ystod 2015-16.

Pecynnau Ymadael

Ni chytunwyd ar unrhyw becynnau ymadael yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16.

Adroddiad ar Bwerau a Sancsiynau

Defnyddio ein pwerau a sancsiynau rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016

Yn unol ag arfer rheoleiddio da a'r Polisi Gorfodi[7] a gyhoeddwyd gennym, defnyddiwn gyngor a chanllawiau mewn modd rhagweithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau ar gyfer cyllid a gwariant mewn etholiadau a refferenda. Cymerir camau gorfodi gan ddefnyddio ein pwerau ymchwiliol a sancsiynau, lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni ein nodau ac amcanion gorfodi.

Rhydd Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) bwerau i'r Comisiwn, gan gynnwys y gallu i wneud y canlynol:

- Gofyn am wybodaeth sy'n ymwneud ag incwm a gwariant unigolyn neu sefydliad gan unrhyw un lle y bo'n rhesymol i'r Comisiwn wneud hynny (gwelwir hyn yn hysbysiad datgelu)
- Gofyn am wybodaeth gan unrhyw un lle rydym yn amau bod achos o dorri'r gyfraith wedi bod (gelwir hyn yn hysbysiad ymchwilio)
- Gofyn i unigolion ddod am gyfweliad
- Gwneud cais i lys am orchymyn os na chydymffurfir â'r gofynion hyn
- Dan amgylchiadau penodol, cael mynediad i safleoedd (drwy warant archwilio y mae'n rhaid ei gael gan Ynad Heddwch)

Gall y Comisiwn hefyd roi ystod o sancsiynau, gan gynnwys:

- Dirwyon yn amrywio o £200 i £20,000
- Hysbysiadau cydymffurfio a gwneud iawn, y gallwn eu defnyddio i'w gwneud yn ofynnol i gamau penodol gael eu cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth neu wneud iawn am ddiffyg cydymffurfio
- Hysbysiadau atal, y gallwn eu defnyddio i'w gwneud yn ofynnol i gam gweithredu penodol neu gam gweithredu arfaethedig gael ei atal

Mae'r sancsiynau hyn yn berthnasol i'r rhan fwyaf o droseddau PPERA, ond nid pob un ohonynt. Mae rhai troseddau, sef, yn gyffredinol, y rhai sy'n cynnwys elfen o anonestrwydd bwriadol, na allwn roi dirwyon amdanynt, ond gallwn gyfeirio achosion i gael eu hystyried gan yr heddlu neu'r erlynydd cyhoeddus perthnasol.

Hefyd, gallwn ystyried ‘ymgymeriadau gorfodi’ gan y rhai a reoleiddir gennym, er enghraifft lle y gall plaid roi gwybod yn wirfoddol am drosedd a chynnig camau i'w hunioni, gan osgoi'r angen i’r blaid a'r Comisiwn fynd drwy ymchwiliadau, a all gymryd llawer o amser o bosibl.

Rhaid i'r Comisiwn gynnwys gwybodaeth am ddefnyddio'r pwerau a sancsiynau hyn yn ei Adroddiad Blynyddol. Rhoddir y wybodaeth hon isod.

[7] Rydym wedi gwneud newidiadau i'n Polisi Gorfodi yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Rhagfyr 2015 a mis Chwefror 2016. Daeth y polisi newydd, diwygiedig i rym ddydd Llun 4 Ebrill.

Defnyddio pwerau ymchwilio

Mae'n ofynnol i'r Comisiwn adrodd ar ei ddefnydd o bwerau ymchwilio, yn benodol:

- Achosion lle y rhoddwyd hysbysiad datgelu
- Achosion lle y rhoddwyd hysbysiad ymchwilio
- Achosion lle y gofynnodd y Comisiwn i unigolyn ddod am gyfweliad
- Achosion lle y gwnaeth y Comisiwn gais i lys am orchymyn datgelu, ac achosion lle y gwnaed gorchymyn o'r fath
- Achosion lle yr aed i safle gan ddefnyddio gwarant archwilio a roddwyd gan Ynad Heddwch

Nid yw'n ofynnol i ni gynnwys gwybodaeth, yn ein barn ni, y byddai'n amhriodol ei chynnwys ar y sail y byddai gwneud hynny yn anghyfreithlon, neu y gallai gwneud hynny fod yn anghyfreithlon, neu
gael effaith andwyol ar unrhyw ymchwiliad neu achos sy'n mynd rhagddo.

Yn 2015-16, gwnaethom roi dau hysbysiad datgelu:

- Rhoddwyd hysbysiad datgelu ar 24 Ebrill 2015 i Andrew Tobert (unigolyn) yn gofyn am wybodaeth mewn cysylltiad ag ymgyrch Gwasanaeth Iechyd y Bobl
- Rhoddwyd hysbysiad datgelu ar 16 Medi 2015 i Blaid Genedlaethol Prydain yn gofyn iddi ddatgelu gwybodaeth am yr archwilwyr a ddefnyddiwyd ganddi i archwilio ei Datganiad Cyfrifon 2014

Gwnaethom roi pum hysbysiad ymchwilio:

- Rhoddwyd hysbysiad ymchwilio ar 27 Awst 2015 i Unite the Union yn gofyn am wybodaeth mewn cysylltiad ag ymgyrch Gwasanaeth Iechyd y Bobl
- Rhoddwyd pedwar hysbysiad ymchwilio mewn perthynas ag ymchwiliadau nad ydynt wedi'u cau eto. Gallai datgelu rhagor o wybodaeth am yr hysbysiadau hynny ar hyn o bryd gael effaith andwyol ar yr ymchwiliadau hynny.

Ni fu angen i ni ddefnyddio ein pwerau i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw un ddod am gyfweliad, i fynd ar safle nac i wneud unrhyw geisiadau am orchymyn datgelu hyd yma. Yn gyffredinol, rydym wedi llwyddo i sicrhau cydymffurfiaeth wirfoddol lle'r oedd angen gwybodaeth arnom i gwblhau achosion.

Defnyddio sancsiynau sifil

Gwnaethom nodi yn adroddiad 2014-15 ein bod yn mabwysiadu dull gweithredu cynyddol gadarn o ran diffyg cydymffurfio. Mae'r dull gweithredu hwn i'w weld yn nifer y sancsiynau a roddwyd yn ystod 2015-16, sydd wedi cynyddu o saith yn 2014-15 i 30 yn 2015-16.

Ni fu angen i ni roi unrhyw hysbysiadau atal, hysbysiadau cydymffurfio na hysbysiadau gwneud iawn yn ystod 2015-16.

Nid yw'r wybodaeth isod yn ystyried achosion lle na chyflawnwyd trosedd, neu lle y cyflawnwyd trosedd ond gwnaethom benderfynu peidio â rhoi sancsiwn. Rydym yn cyhoeddi crynodebau o'r holl achosion gorfodi ar ein gwefan.

Mae'n ofynnol i ni roi hysbysiad cychwynnol ein bod yn bwriadu rhoi cosb ac yna roi amser i'r derbynnydd wneud sylwadau. Wedyn byddwn yn ystyried yr achosion unwaith eto, cyn penderfynu p'un a fyddwn yn rhoi hysbysiad terfynol sy'n rhoi cosb.

Tabl 1: Sut y cafodd achosion lle y rhoddwyd cosb eu cwblhau

Achosion a ddygwyd ymlaen o 2014-15	3
Hysbysiadau cychwynnol a roddwyd yn ystod 2015-16	39
Achosion a gaewyd ar y cam hysbysu cychwynnol oherwydd talwyd y ddirwy ar y cam hwnnw	6
Achosion a gaewyd ar y cam hysbysu cychwynnol oherwydd nid oedd y blaid yn weithredol mwyach a chafodd ei henw ei dynnu oddi ar y gofrestr wedi hyn	2
Achosion a gaewyd ar sail sylwadau a gafwyd ar yr hysbysiad cychwynnol[8]	1
Cosbau a roddwyd yn ystod 2015-16	30
Achosion a oedd ar agor ar ddiwedd 2015-16	3

Rydym yn trin cosbau fel rhai nas talwyd 84 diwrnod ar ôl i'r gosb gael ei rhoi. Nid oedd pump o'r 30 o gosbau a roddwyd wedi cael eu talu o fewn y cyfnod gofynnol o 84 diwrnod. Mewn un achos, rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r gosb oherwydd nid oedd y blaid yn weithredol mwyach ac mae ei henw wedi cael ei dynnu oddi ar y gofrestr. Yn y pedwar achos arall, rydym yn cadw'r opsiwn i ddefnyddio ein pwerau i adennill cosbau nas talwyd drwy'r llysoedd. Byddwn yn gwneud hynny lle byddwn o'r farn ei bod o fudd i'r cyhoedd i ni wneud hynny. Byddwn yn ystyried pob achos yn ôl ei ffeithiau ei hun.

Mae'r tabl isod yn cynnwys manylion cryno am y 30 o achosion lle y gwnaethom roi cosb ariannol sefydlog neu amrywiadwy, ynghyd â statws y taliad, a'r ddau achos lle y talwyd cosb ariannol amrywiadwy cyn i hysbysiad terfynol gael ei roi.

Gwnaed un apêl yn erbyn cosb a roddwyd ac nid yw canlyniad yr apêl honno wedi cael ei benderfynu ar adeg yr adroddiad hwn.

[8] Sylwadau sy'n ymwneud â'r atebolrwydd am y troseddau dan sylw. O ganlyniad, caewyd yr achos hwn ond cychwynnwyd achosion eraill.

Tabl 2: Achosion lle y rhoddwyd cosb ariannol benodedig o £200 neu ofyniad dewisol

Enw'r sefydliad a'r math o sefydliad	Trosedd a ystyriwyd	Cosb a roddwyd
Y Blaid Werdd	Methu â chyflwyno adroddiad benthyciadau chwarterol ar amser	Cosb o £1000 (cosb ariannol amrywiadwy) – Yn dal i fod o fewn y cyfnod talu ar 31 Mawrth, 2016
Y Ganolfan Astudiaethau Llafur a Chymdeithasol	Methu â chyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau cyn etholiad ar amser (Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2015)	Cosb o £1100 (cosb ariannol amrywiadwy) – Yn dal i fod o fewn y cyfnod talu ar 31 Mawrth, 2016
Cannabis Is Safer Than Alcohol (plaid gofrestredig ym Mhrydain Fawr)	Methu â chyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau chwarterol ar amser	Cosb o £3000 (cosb ariannol amrywiadwy) – Yn dal i fod o fewn y cyfnod talu ar 31 Mawrth, 2016
NO2EU (plaid wleidyddol gofrestredig 2014-15)	Methu â chyflwyno adroddiad gwariant ar ymgyrchu ar gyfer Etholiadau Senedd Ewrop 2014, ac adroddiadau rhoddion a benthyciadau chwarterol	Cosb o £3000 (cosb ariannol amrywiadwy) – Yn dal i fod o fewn y cyfnod talu ar 31 Mawrth, 2016
We Are The Reality Party	Methu â chyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau chwarterol ar amser, methu â chyflwyno ffurflen gwariant ar ymgyrchu ar amser	Cosb o £1800 (cosb ariannol amrywiadwy) – Yn dal i fod o fewn y cyfnod talu ar 31 Mawrth, 2016
Y Blaid Geidwadol	Methu â dychwelyd rhodd nas caniateir o fewn 30 diwrnod i'w chael	Cosb o £250 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd
Plaid Genedlaethol Prydain	Methu â chyflwyno datganiad cyfrifon 2015 erbyn y dyddiad dyledus, sef 7 Gorffennaf 2015 (cafwyd estyniad hyd at 7 Awst 2015)	Cosb o £2400 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd

Better Together 2012 Limited	Methu â chyflwyno ffurflen gwariant ar ymgyrchu gyflawn ar gyfer Refferendwm Annibyniaeth yr Alban. Darparwyd anfonebau/derbynebion ategol ychwanegol ar ôl y dyddiad dyledus	Cosb o £2000 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd
Cannabis Is Safer Than Alcohol (plaid gofrestredig ym Mhrydain Fawr)	Methu â chyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau chwarterol ac wythnosol, ffurflen gwariant ar ymgyrchu, rhoi gwybod am newid i fanylion cofrestredig	Cosb o £3750 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd
Cannabis Is Safer Than Alcohol (plaid gofrestredig yng Ngogledd Iwerddon)	Methu â chyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau chwarterol ac wythnosol, ffurflen gwariant ar ymgyrchu, rhoi gwybod am newid i fanylion cofrestredig	Cosb o £3250 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd
Y Blaid Lafur	Talu 13 o anfonebau am wariant yn ystod Etholiad Senedd Ewrop 2014 y tu allan i'r amserlen statudol heb ganiatâd gan lys	Cosb o £1848 (cosb ariannol amrywiadwy) Yn destun apêl
Respect	Cyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau wythnosol yn hwyr cyn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU	Cosbau o £400 (2 x gosb ariannol benodedig o £200) Talwyd
Y Blaid Werdd	Methu â chyflwyno adroddiad gwariant ar ymgyrchu a oedd yn cydymffurfio'n llawn ar gyfer Etholiad Senedd Ewrop 2014 (ni lofnodwyd y ffurflen gan drysorydd cofrestredig y blaid)	Cosb o £350 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd

Wings Over Scotland (cyfranogwr a ganiateir)	Methu â chyflwyno ffurflen gwariant ar ymgyrchu gyflawn ar gyfer Refferendwm Annibyniaeth yr Alban. Darparwyd anfonebau/derbynebion ategol ychwanegol ar ôl y dyddiad dyledus	Cosb o £750 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd
The Free Energy Party	Methu â chyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau wythnosol cyn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU, a datganiad cyfrifon ar gyfer 2014. Methu â rhoi gwybod i'r Comisiwn bod cyfeiriad cofrestredig y blaid wedi newid	Cosbau o £800 (4 x cosb ariannol benodedig o £200) Nas talwyd
We Are The Reality Party	Methu â chyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau wythnosol cyn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU	Cosbau o £400 (2 x gosb ariannol benodedig o £200) Nas talwyd
Y Blaid Ddemocrataidd (plaid gofrestredig)	Methu â chyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau wythnosol cyn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU	Cosbau o £400 (2 x gosb ariannol benodedig o £200) Nas talwyd
Magna Carta Party (plaid gofrestredig)	Methu â chyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau wythnosol cyn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU, a datganiad cyfrifon ar gyfer 2014	Cosbau o £600 (3 x cosb ariannol benodedig o £200) Nas talwyd
Grŵp Llafur Lerpwl (cymdeithas anghorfforedig)	Methu â rhoi gwybod am roddion gwerth dros £25,000 i blaid wleidyddol yn 2013 a 2014 erbyn y dyddiad dyledus	Cosb o £900 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd
Grŵp Llafur Manceinion (cymdeithas anghorfforedig)	Methu â rhoi gwybod am roddion gwerth dros £25,000 i blaid wleidyddol yn 2013 a 2014 erbyn y dyddiadau dyledus	Cosb o £900 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd

Republican Network for Unity (Gogledd Iwerddon) (plaid gofrestredig)	Cyflwyno'r datganiad cyfrifon ar gyfer 2014 yn hwyr	Cosb o £200 (cosb ariannol benodedig) Talwyd
Labour for Independence (cyfranogwr a ganiateir)	Methu â chyflwyno ffurflen gwariant ar ymgyrchu ar gyfer Refferendwm Annibyniaeth yr Alban	Cosb o £1500 (cosb ariannol amrywiadwy) Trefniadau ar gyfer talu ar waith
British Commonwealth Party (plaid wleidyddol gofrestredig)	Cyflwyno dau adroddiad rhoddion chwarterol a dau adroddiad benthyciadau chwarterol yn hwyr	Cosb o £1000 (cosb ariannol amrywiadwy) Nas talwyd, penderfynwyd peidio â chymryd camau pellach
Uned gyfrifyddu Gogledd Orllewin Bryste'r Blaid Geidwadol	Methu â dychwelyd rhodd nas caniateir o fewn 30 diwrnod i'w chael.	Cosb o £250 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd
Uned gyfrifyddu Cheltenham y Blaid Geidwadol	Methu â dychwelyd rhodd nas caniateir o fewn 30 diwrnod i'w chael.	Cosb o £350 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd
Mark Pritchard AS (derbynnydd a reoleiddir)	Methu â dychwelyd rhoddion nas caniateir o fewn 30 diwrnod i'w cael	Cosb o £250 (cosb ariannol amrywiadwy) mewn perthynas â'r ddau rodd nas caniateir a dderbyniwyd Talwyd
Women 2 Win (derbynnydd a reoleiddir)	Methu â chyflwyno adroddiadau rhoddion o fewn 30 diwrnod i dderbyn y rhoddion.	Cosb o £350 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd
Plaid Genedlaethol Prydain	Methu â chyflwyno adroddiad gwariant ar ymgyrchu a oedd yn cydymffurfio'n llawn ar gyfer Etholiad Senedd Ewrop 2014 a thalu anfoneb am wariant yn ystod yr etholiad hwnnw ar ôl y terfyn amser statudol	Cosb o £250 (cosb ariannol amrywiadwy) Cosb o £500 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd

Y Blaid Lafur	Methu â chyflwyno adroddiad gwariant ar ymgyrchu a oedd yn cydymffurfio'n llawn ar gyfer Etholiad Senedd Ewrop 2014 (hepgorwyd un eitem o wariant)	Cosb o £400 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd cyn i'r hysbysiad terfynol gael ei roi
Grŵp Llafur Redbridge	Methu â chyflwyno adroddiad rhoddion o fewn 30 diwrnod i dderbyn rhoddion gwerth cyfanswm o dros £7500	Cosb o £300 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd
Grŵp Llafur Lambeth (cymdeithas aelodau a chymdeithas anghorfforedig)	Methu â rhoi gwybod am roddion gwerth dros £25,000 i blaid wleidyddol erbyn y dyddiad dyledus	Cosb o £900 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd
Leamington Fund (cymdeithas anghorfforedig)	Methu â rhoi gwybod am roddion gwerth dros £25,000 i blaid wleidyddol erbyn y dyddiad dyledus	Cosb o £700 (cosb ariannol amrywiadwy) Talwyd cyn i'r hysbysiad terfynol gael ei roi

Tabl 2: Achosion lle y rhyddhawyd atebolrwydd am gosb ariannol benodedig (drwy dalu £200 cyn i hysbysiad terfynol gael ei roi)

Enw'r sefydliad a'r math o sefydliad	Trosedd a ystyriwyd
All People's Party	Methu â chyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau erbyn y dyddiad dyledus, sef 30 Ebrill 2014
Y Cynghorydd Simon Marcus	Methu â rhoi gwybod am rodd (ymweliad) ar amser
Independent Green Voice	Methu â chyflwyno datganiad cyfrifon 2014 erbyn y dyddiad dyledus, sef 30 Ebrill 2015
English Democrats	Methu â chyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau chwarterol ar gyfer mis Ionawr hyd at fis Mawrth 2015 erbyn y dyddiad dyledus

Rydym yn cyhoeddi crynodebau o'r holl achosion gorfodi ar ein gwefan.

Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio

Datganiad ynghylch Cyflenwi Seneddol
Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

Crynodeb o Alldro Adnoddau a Chyfalaf 2015-16

£000								2015-16	2014-15
				Amcangyfrif			Alldro		Alldro
	Nodyn	Gyda Phleidlais	Heb Bleidlais	Cyfanswm	Gyda Phleidlais	Heb Bleidlais	Cyfanswm	Alldro gyda phleidlais o gymharu â'r Amcangyfrif: arbediad/ (dros ben)	Cyfanswm
Terfyn Gwariant Adrannol									
- Adnodd	SoPS 1.1	20,876	265	21,141	17,731	222	17,953	3,145	21,732
- Cyfalaf	SoPS 1.2	250		250	231		231	19	383
Gwariant a Reolir yn Flynyddol									
- Adnodd	SoPS 1.1	30		30	14		14	16	(175)
- Cyfalaf									
Cyfanswm Cyllideb Heb ei Gyllidebu		21,156	265	21,421	17,976	222	18,198	3,180	21,940
- Adnodd									
Cyfanswm		21,156	265	21,421	17,976	222	18,198	3,180	21,940

Cyfanswm Adnodd	SoPS 1.1	20,906	265	21,171	17,745	222	17,967	3,161	21,557
Cyfanswm Cyfalaf		250	-	250	231	-	231	19	383
Cyfanswm		21,156	265	21,421	17,976	222	18,198	3,180	21,940

Rhoddir esboniad o'r amrywiannau isod ar dudalen 69.

Gofyniad Arian Parod Net 2015-16

£000	Nodyn	Amcangyfrif 2015-16	2015-16		2014-15
			Alldro	Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif: arbediad/ (dros ben)	Alldro
Gofyniad Arian Parod Net	SoPS 3	**20,597**	**18,120**	2,477	19,920

Cyfansymiau gyda phleidlais sy'n destun rheolaeth Seneddol yw'r ffigurau yn y meysydd sydd wedi'u hamlinellu'n drwm. At ddibenion Amcangyfrif, caiff holl wariant y Comisiwn ei ddosbarthu fel Rhaglen. Felly, nid yw'r Datganiad ynghylch Cyflenwi Seneddol yn adrodd ar alldro yn erbyn terfyn cost Weinyddol.

Yn ogystal â'r datganiadau sylfaenol a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn baratoi datganiad sylfaenol ychwanegol. Mae'r Datganiad ynghylch Cyflenwi Seneddol a'r nodyn ategol yn dangos alldro yn erbyn Amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net. Caiff y Datganiad ynghylch Cyflenwi Seneddol (SoPS) a'r nodiadau cysylltiedig eu harchwilio.

SoPS1.1 Dadansoddiad o alldro adnoddau net fesul adran

	2015-16					2014-15
	Alldro			Amcangyfrif		Alldro
	Gros	Incwm	Cyfanswm alldro net	Cyfanswm net	Cyfanswm alldro net o gymharu â'r Amcangyfrif	Cyfanswm
£000						
Gwariant o fewn y Terfyn Gwariant Adrannol						
Gyda Phleidlais:						
A. Gwariant craidd	17,932	(201)	17,731	20,876	3,145	21,502
Heb Bleidlais						
B. Ffioedd comisiynwyr	222		222	265	43	230
Gwariant a Reolir yn Flynyddol						
Gyda Phleidlais						
C. Darpariaethau a grëwyd neu a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	14	-	14	30	16	(175)
Cyfanswm	18,168	(201)	17,967	21,171	3,204	21,557

SoPS 1.2 Dadansoddiad o alldro cyfalaf net fesul adran

	2015-16					2014-15
	Alldro			Amcangyfrif		Alldro
	Gros	Incwm	Net	Net	Cyfanswm net o gymharu â'r Amcangyfrif	Net
£000						
Gwariant o fewn y Terfyn Gwariant Adrannol						
Gyda Phleidlais						
Y Comisiwn Etholiadol	231		231	250	19	383
CYFANSWM	231	0	231	250	19	383

SoPS2 Cysoni alldro â gwariant gweithredu net

			2015-16	2014-15
			£000	£000
		Nodyn	Alldro	Alldro
Cyfanswm alldro adnoddau yn y Datganiad ynghylch Cyflenwi Seneddol	Cyllideb	SoPS 1.1	17,967	21,557
Llai:	Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol	SoPS 4	(40)	(29)
Gwariant Gweithredu Net yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr			**17,927**	**21,528**

SoPS 3 Cysoni Alldro Adnoddau Net â'r Gofyniad Arian Parod Net

				2015-16		2014-15
		£'000	£'000		£'000	£'000
Alldro Adnoddau	SoPS 1.1	21,171	17,967		3,204	21,557
Cyfalaf	SoPS 1.2	250	231		19	383
Croniadau i addasiadau arian parod						
Addasiadau i gael gwared ar eitemau nad ydynt yn arian parod:						
Dibrisio / Amorteiddio	3	(495)	(492)		(3)	(463)
Cydnabyddiaeth a threuliau archwilwyr	3	(34)	(35)		1	(35)
Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol	3	(56)	(37)		(19)	(24)
Dileu Asedau	3	0	0		0	(2)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy	12		194		(194)	(344)
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau taladwy	13		729		(729)	(1,158)
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau taladwy sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	13		(238)		238	37
Defnydd o ddarpariaeth	14	26	23		3	199
		20,862	18,342		2,520	20,150
Dileu eitemau cyllideb heb Bleidlais						
Gwasanaethau sefydlog y Gronfa Gyfunol		(265)	(222)		(43)	(230)
Gofyniad arian parod net		**20,597**	**18,120**		**2,477**	**19,920**

4.1 Dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Yn ogystal ag incwm a gedwir gan y Comisiwn, mae'r incwm canlynol yn ymwneud â'r Comisiwn ac yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol (dangosir y derbyniadau arian parod mewn testun italig)

	Alldro 2015-16 £000		Alldro 2014-15 £000	
	Incwm	***Derbyniadau***	**Incwm**	***Derbyniadau***
Incwm y tu allan i'r cwmpas	40	*40*	29	*29*
Cyfanswm yr incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol	40	*40*	29	*29*

Buddsoddi, Cyllid ac Incwm

Fel corff cyhoeddus annibynnol, mae'r Comisiwn yn atebol i Senedd y DU am ei wariant. Gofynnwyd i Senedd y DU gymeradwyo ei gynlluniau gwariant drwy Brif Amcan Cyflenwi ar gyfer 2015-16 (HC 176), a gyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin, a oedd yn pennu'r amcangyfrif o wariant ac yn gofyn am bleidlais ynghylch y cyllid angenrheidiol. Defnyddiodd y Comisiwn arian gyda phleidlais o'r Gronfa Gyfunol yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Datganiad o Lif Arian yn dadansoddi'r llif arian parod net o weithgareddau gweithredu; yn nodi'r arian a wariwyd gan y Comisiwn ar wariant cyfalaf a buddsoddi; yn cofnodi incwm o ddirwyon neu gosbau a dalwyd gan bleidiau ac unigolion gwleidyddol y mae'n ofynnol i'r Comisiwn eu hildio i'r Gronfa Gyfunol, ac yn dangos y cyllid a ddefnyddiodd y Comisiwn o'r Gronfa Gyfunol er mwyn ariannu ei weithgareddau yn ystod y flwyddyn.

Defnyddio Adnoddau

Mae'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2016 (ar dudalen 71) yn dangos ecwiti trethdalwyr negyddol o £1,765K. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad oedd y Comisiwn, ar 31 Mawrth 2016, wedi talu'r holl anfonebau oedd yn ddyledus o ran gwariant codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gyfer yr etholiadau ym mis Mai 2016 a Refferendwm yr UE ym mis Mehefin 2016.

Ar ôl i Bwyllgor y Llefarydd gymeradwyo cynlluniau'r Comisiwn, pleidleisiodd Senedd y DU ar gyllid o £21,156K i'r Comisiwn ar gyfer 2015-16. Roedd y ffigur hwn yn cynnwys terfyn gwariant adnoddau net o £20,906K a therfyn gwariant cyfalaf o £250K. Hefyd, roedd yr Amcangyfrif yn cynnwys gwariant 'heb bleidlais' disgwyliedig o £265K (ar gyfer talu Ffioedd Comisiynwyr). Mae'r Datganiad ynghylch Cyflenwi Seneddol ar dudalen 63 yn cynnwys gwariant yn erbyn y terfyn cyllido cyfunol (gyda phleidlais a heb bleidlais) o £18,198K.

Mae'r Comisiwn yn pennu cyllidebau gwariant unigol sydd â chyfanswm o £20,906K ar gyfer adnoddau a £250K ar gyfer cyfalaf er mwyn adlewyrchu'r dyraniad y pleidleisiwyd arno. Mae'r cyfanswm ar gyfer adnoddau yn cynnwys £2,000K o Grantiau Datblygu Polisi a dalwyd i bleidiau gwleidyddol, ond dim ond £1,673K ohono a oedd wedi'i ddyrannu.

Wrth gyflawni ei amcanion, gwariodd y Comisiwn gyfanswm o £18,198K (£17,976K gyda phleidlais, £222K heb bleidlais), sef £3,223K yn llai na chyfanswm y terfyn cyllido o £21,421K. Mae hyn yn cynnwys:

- Tanwariant o £3,161K yn erbyn adnoddau gyda phleidlais y mae £1,874k yn ymwneud â gwaith paratoadol ar gyfer y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Cytunwyd ar gyllideb o £3,250k ar gyfer gweithgarwch y refferendwm yn ystod hydref 2015 yn seiliedig ar y dyddiad posibl cynharaf ar gyfer y refferendwm. Pan gadarnhawyd mai dyddiad y refferendwm oedd 23 Mehefin 2016 rhagwelwyd y byddai tua £1,600k o'r gwariant posibl yn 2016-17 yn hytrach na 2015-16 gan adael tanwariant yn erbyn cyllideb 2015-16
- Tanwariant o £19k yn erbyn y dyraniad cyfalaf gyda phleidlais o £250k
- Tanwariant o £43k yn erbyn adnoddau heb bleidlais (ffioedd Comisiynwyr) o £265k.

Hefyd, casglodd y Comisiwn £40K mewn dirwyon gan bleidiau gwleidyddol ac unigolion am fethu â chydymffurfio â'r rheolau ar gyfer cyllid pleidiau ac etholiadau. Mae'r dirwyon hyn wedi cael eu hildio i'r Gronfa Gyfunol yn unol â gofynion y gyfraith.

Claire Bassett
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
11 Gorffennaf 2016

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol: Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian Parod, Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir oddi mewn iddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad ynghylch Cyflenwi Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig, a'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol a ddisgrifir yn yr adroddiadau a'r datgeliadau hynny fel rhai a archwiliwyd.

Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni'i hun bod y datganiadau hynny yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio a chyflwyno adroddiad arnynt yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: p'un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Adran a ph'un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Swyddog Cyfrifyddu; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Darllenaf hefyd yr holl wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd a nodi unrhyw wybodaeth yr ymddengys ei bod yn anghywir mewn ffordd berthnasol yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd gennyf wrth gynnal yr archwiliad, neu'n anghyson mewn ffordd berthnasol â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad ynghylch Cyflenwi Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheolaeth Seneddol y pleidleisiwyd arnynt ac nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheolaeth Seneddol y pleidleisiwyd arnynt yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Heb Gyllideb (Adnoddau) a Gofyniad Arian Parod Net. Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant ac incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol:

•mae'r Datganiad ynghylch Cyflenwi Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheolaeth Seneddol y pleidleisiwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 ac yn dangos nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny;

•mae'r gwariant ac incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar y datganiadau ariannol
Yn fy marn i:
•mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Comisiwn Etholiadol ar 31 Mawrth 2016 a'i gost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

•mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd oddi tani.

Barn ar faterion eraill
Yn fy marn i:
•mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000;
•mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad ar Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad
Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y byddaf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:
•nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw neu nid wyf wedi cael ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na wnaeth fy staff ymweld â hwy; neu

•nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff na'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu

•nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu

•nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Syr Amyas C E Morse
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SW1W 9SP

15 Gorffrennaf 2016

Y Datganiadau Ariannol

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

£000	Nodyn	2015-16 £000'	2014-15 £000'
Incwm Gweithredu Arall	5	(241)	(1,814)
		(241)	(1,814)
Costau staff	3.1	8,057	7,778
Prynu Nwyddau a Gwasanaethau	3	6,083	7,068
Taliadau dibrisio ac amorteiddio	3	492	463
Traul ar Ddarpariaeth	3	37	24
Gwariant gweithredu arall	4	3,242	7,742
Cyfanswm Gwariant Gweithredu		17,670	21,261
Ffioedd Comisiynwyr (yn berthnasol o ran natur)		222	230
Incwm Cyllidol		-	-
Traul gyllidol - Cydnabyddiaeth archwilwyr	3	35	35
dileu Asedau			2
Gwariant gweithredu net ar gyfer y flwyddyn		17,927	21,528
Gwariant net cynhwysfawr arall			
Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net;			
Ennill/colled net wrth ailbrisio asedau anghyffyrddadwy		-	-
Ennill/colled actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn		(10)	10
Eitemau y gellir eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net:			
Ennill/colled net wrth ailbrisio buddsoddiadau		-	-
Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		17,917	21,538

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Ar 31 Mawrth 2016

		2016 £000	2015 £000
	Nodyn		
Asedau nad ydynt yn gyfredol			
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	6	202	276
Asedau anghyffyrddadwy	7	258	444
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol		460	720
Asedau cyfredol:			
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	12	424	230
Arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod	11	(1)	11
Cyfanswm asedau cyfredol		423	241
Cyfanswm asedau		883	961
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	13	(1,797)	(2,537)
Darpariaethau	14	(23)	(23)
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		(1,820)	(2,560)
Cyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		(937)	(1,599)
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol			
Darpariaethau	14	(586)	(581)
Symiau taladwy eraill	13	(242)	(4)
Cyfanswm rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol		(828)	(585)
Cyfanswm Asedau llai rhwymedigaethau		(1,765)	(2,184)
Ecwiti'r trethdalwyr			
Cronfa gyffredinol		(1,765)	(2,184)
Cyfanswm ecwiti'r trethdalwyr		(1,765)	(2,184)

Claire Bassett
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
11 Gorffennaf 2016

Datganiad o Lifau Arian Parod

Ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

		2015-16 £000	2014-15 £000
	Nodyn		
Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu			
Gwariant gweithredu net		(17,927)	(21,528)
Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod	3	564	524
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	12	(194)	344
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy	13	(491)	1,132
Llai symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr			(28)
Defnydd o ddarpariaethau	14	(23)	(199)
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu		(18,071)	(19,755)
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar	6	(147)	(61)
Prynu asedau anghyffyrddadwy	7	(84)	(305)
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		(231)	(366)
Llifau arian parod o weithgareddau cyllido			
O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwi) - y flwyddyn gyfredol		18,108	19,931
O'r Gronfa Gyfunol (Nad yw'n ymwneud â Chyflenwi)		222	230
Cyllido net		18,330	20,161
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol		28	40
Talu symiau i'r Gronfa Gyfunol	Sops 4.1	(40)	(29)
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol		(12)	11
Arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod	11	11	0
Arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod		(1)	11

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr

Y Flwyddyn Ariannol a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2016

	Nodyn	Cronfa Gyffredinol £000
Gweddill ar 1 Ebrill 2015		(802)
Cyllid Seneddol Net – a ddefnyddiwyd		19,931
Cyllid Seneddol Net – tybiedig		0
Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol		230
Addasiad yn y swm Cyflenwi taladwy/(derbyniadwy)		(11)
Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol	SoPS 4.1	(29)
Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn		(21,538)
Addasiadau nad ydynt yn rhai Arian Parod:		
Taliadau nad ydynt yn rhai arian parod – cydnabyddiaeth archwilwyr	3	35
Gweddill ar 31 Mawrth 2015		(2,184)
Cyllid Seneddol Net – a ddefnyddiwyd		18,108
Cyllid Seneddol Net – tybiedig		11
Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol		222
Addasiad yn y swm Cyflenwi taladwy/(derbyniadwy)		
Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol	SoPS 4.1	(40)
Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn		(17,917)
Addasiadau nad ydynt yn rhai Arian Parod:		
Taliadau nad ydynt yn rhai arian parod – cydnabyddiaeth archwilwyr	3	35
Gweddill ar 31 Mawrth 2016		(1,765)

Nodiadau ar y Cyfrifon Adnoddau

1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

1.1. Sail paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Drysorlys EM yn unol â Pharagraff 17(2) Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Caiff y datganiadau eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth 2015-16, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir mai hwnnw yw'r un mwyaf priodol i amgylchiadau penodol y Comisiwn at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Comisiwn isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Mae'r Datganiad ynghylch Cyflenwi Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig wedi cael eu harchwilio.

1.2. Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol.

1.3. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu cario ar werth teg. Mae gwariant ar eiddo, peiriannau a chyfarpar dros £1,000 yn cael ei gyfalafu. Wrth eu cydnabod gyntaf, mesurir asedau am y gost, gan gynnwys unrhyw gostau fel eu gosod, sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn. Ystyrir bod yr holl eiddo, peiriannau a chyfarpar yn asedau oes fer neu asedau gwerth isel ac felly mae'r Comisiwn wedi dewis prisio'r asedau hyn ar sail cost hanesyddol wedi'i dibrisio, fel brasamcan o werth teg.

1.4. Dibrisio ac Amorteiddio

Caiff asedau nad ydynt yn gyfredol eu dibrisio ar gyfraddau a gyfrifir i'w lleihau i werth gweddilliol amcangyfrifiedig ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifiedig. Oes asedau yw:

- asedau anghyffyrddadwy 3 blynedd
- caledwedd TG 3 blynedd
- gosodiadau a ffitiadau, dodrefn a chyfarpar arall 5 mlynedd
- gwelliannau i brydlesau 5 mlynedd

1.5. Asedau Anghyffyrddadwy

Mae trwyddedau meddalwedd gyfrifiadurol a brynwyd a chostau cysylltiedig gweithredu yn cael eu cyfalafu fel asedau anghyffyrddadwy lle ceir gwariant o £1,000 neu fwy. Caiff asedau anghyffyrddadwy eu hadolygu'n flynyddol i ganfod lleihad mewn gwerth a chânt eu nodi ar Gost Hanesyddol Wedi'i Dibrisio (DHC). Caiff trwyddedau meddalwedd eu hamorteiddio dros gyfnod byrraf y drwydded a'r oes economaidd ddefnyddiol. Mae datblygiadau Technoleg Gwybodaeth yn cynnwys unrhyw gostau staff perthnasol sydd hefyd yn cael eu cyfalafu.

1.6. Incwm gweithredu

Mae incwm gweithredu yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Comisiwn. Mae'n cynnwys yn bennaf incwm o weithgaredd codi tâl ac o gofrestru ac ailgofrestru pleidiau gwleidyddol. Mae hefyd yn cynnwys incwm a dderbynnir gan bleidiau gwleidyddol, unigolion ac ymgyrchwyr trydydd parti wrth dalu dirwyon a chosbau sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol ond, yn unol â'r FReM, caiff ei drin fel incwm gweithredu.

1.7. Prydlesau gweithredu

Codir rhenti sy'n daladwy o dan brydlesau gweithredu ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

1.8. Grantiau sy'n daladwy

Caiff grantiau sy'n daladwy eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod pan geir y digwyddiad neu'r gweithgaredd sy'n creu'r hawl i roi'r grant.

1.9. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Mae'r Comisiwn yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongliadol nad oes sicrwydd ynghylch eu swm na'u hamseriad ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Caiff darpariaethau o'r fath eu disgowntio i werthoedd presennol lle mae gwerth amser yr arian yn berthnasol.

Yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr i'r Comisiwn Etholiadol ar 1 Ebrill 2002 ac ymgorffori ei asedau a'i rwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw, sefydlwyd darpariaeth i fodloni ei rwymedigaethau mewn perthynas â thaliadau pensiwn i rai Comisiynwyr blaenorol y corff hwnnw.

1.10. Treth ar Werth (TAW)

Cyflawnir gwaith y Comisiwn o dan statud a'r tu allan i gwmpas TAW ar allbwn. Codir TAW ar fewnbwn ar y categori gwariant perthnasol, neu os yw'n briodol caiff ei chyfalafu gydag

ychwanegiadau i asedau nad ydynt yn gyfredol. Cofnodir incwm a gwariant gan gynnwys TAW.

1.11. Gwariant ar weinyddu a rhaglenni

Mae gofynion y FReM wedi cael eu haddasu i alluogi'r Comisiwn i gynhyrchu'r Cyfrifon hyn gyda digon o fanylion i roi darlun cywir a theg o'i weithrediadau.

At ddibenion cyllidebu, mae'r Comisiwn yn gwahaniaethu rhwng ei gostau gweithredu craidd a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â digwyddiad. Yn y cyfrifon hyn caiff costau craidd rhedeg y Comisiwn eu cofnodi fel gwariant (nodyn 3). Caiff gweithgareddau sy'n gysylltiedig â digwyddiad eu cofnodi fel costau gweithredu eraill (nodyn 4).

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys y costau yr aed iddynt ac unrhyw incwm gweithredu cysylltiedig.

1.12. Pensiynau

Caiff cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol eu cwmpasu gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a ddisgrifir yn nodyn 14.1. Nid yw elfennau buddiannau diffiniedig y cynllun yn cael eu hariannu ac maent yn anghyfrannol, ac eithrio mewn perthynas â buddiannau dibynyddion. Mae'r Comisiwn yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hynny ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau'r cyflogeion drwy dalu symiau a gyfrifir ar sail gronnus i'r Cynlluniau. Codir tâl ar y Cynllun am rwymedigaethau i dalu buddiannau yn y dyfodol. O ran elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynllun, mae'r Comisiwn yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy gan y Comisiwn yn cael eu cyfrif yn y cyfnod y maent yn dod yn ddyledus.

Cyfeiriwch at nodyn 14.1 i weld y ffordd y caiff pensiwn cyn-gyflogeion Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr ei gyfrifo o ganlyniad i drosglwyddo ei swyddogaethau i'r Comisiwn Etholiadol ar 1 Ebrill 2002 ac ymgorffori ei asedau a'i rwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw.

1.13. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir yn unol â Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 37 (IAS 37- Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol), mae'r Comisiwn yn datgelu rhai rhwymedigaethau digwyddiadol statudol ac anstatudol at ddibenion adrodd ac atebolrwydd seneddol, lle mae'r tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd yn fach, ond bod adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Senedd arnynt yn unol â gofynion Managing Public Money.

Os yw gwerth amser arian yn berthnasol, caiff rhwymedigaethau digwyddiadol y mae'n ofynnol eu datgelu o dan IAS 37 eu datgan ar symiau wedi'u disgowntio, a chaiff y swm yr adroddir arno i'r Senedd ei nodi ar wahân. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol nad yw'n ofynnol eu datgelu gan IAS 37 yn cael eu datgan ar y symiau yr adroddir arnynt i'r Senedd.

1.14. Gwaith arfaethedig i gymhwyso datganiadau cyfrifyddu newydd eu cyhoeddi nad ydynt eto mewn grym

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 yn nodi sut y bydd sefydliad yn cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu prydlesau. Mae'r safon yn darparu model cyfrifyddu ar gyfer deiliaid prydlesau unigol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid prydlesau gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles oni bai fod cyfnod y brydles yn 12 mis neu lai neu fod gan yr ased sylfaenol werth isel. Mae Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 yn gymwys i gyfnodau cyfrifyddu blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2019. Bydd y Comisiwn yn adolygu sut y bydd y Safon yn gymwys i brydlesau a ddelir.

1.15. Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu

Mae'r gwaith o ddatblygu, dethol a datgelu amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu arwyddocaol a chymhwyso'r dyfarniadau a'r amcangyfrifon hyn wedi cael ei drafod â'r Pwyllgor Archwilio a chytunwyd arno.

1.16. Ymchwil a Datblygu

Codir y gwariant ar waith ymchwil ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn yr eir iddo. Hefyd, caiff gwariant datblygu ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan eir iddo, oni bai ei fod yn bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer cyfalafu.

2. Datganiad o Gostau Gweithredu fesul Segment Gweithredu

	Etholiadau a refferenda lleol	Refferendwm Annibyniaeth yr Alban	Cofrestru Etholiadol	Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd	Prosiectau'r Comisiwn	Gweinyddu Etholiadol	Cyllid Pleidiau ac Etholiadau	**2015-16** Cyfanswm
£000								
Gwariant Gros	3,810	0	641	1,376	316	5,443	6,581	**18,168**
Incwm	0	0	0	(180)	0	(12)	(49)	(241)
Gwariant Net	3,810	0	641	1,196	316	5,431	6,532	**17,927**

	Etholiadau a refferenda lleol	Refferendwm Annibyniaeth yr Alban	Cofrestru Etholiadol	Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd	Prosiectau'r Comisiwn	Gweinyddu Etholiadol	Cyllid Pleidiau ac Etholiadau	**2014-15** Cyfanswm
£000								
Gwariant Gros	2,630	1,685	6,210	0	316	6,972	5,529	**23,342**
Incwm	0	(1,685)	0	0	0	(56)	(73)	(1,814)
Gwariant Net	2,630	0	6,210	0	316	6,916	5,456	**21,528**

Adroddir ar wariant rhwng amcanion craidd y Comisiwn fel yr amlinellir ar dudalennau 6 a 7. Hefyd, mae'r dadansoddiad yn nodi costau ffiniol y canlyniadau allweddol canlynol sy'n cael eu rheoli drwy drefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau ffurfiol:

Mae'r rhaglen etholiadau a refferenda lleol yn llywodraethu gwaith y Comisiwn o sicrhau bod etholiadau a refferenda yn cael eu cynnal yn dda, gan ddarparu canllawiau a chymorth i Weinyddwyr Etholiadol, Ymgeiswyr ac Asiantiaid, datblygu a monitro safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a llunio adroddiadau ar weinyddu etholiadau a refferenda.

Mae'r rhaglen Cofrestru Etholiadol yn canolbwyntio ar gefnogi'r newid i gofrestriad etholiadol unigol yn lle cofrestriad cartref, yn ogystal â gweithgarwch y Comisiwn i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cofrestru.

Mae gwariant ar brosiectau'r Comisiwn yn cynnwys ymgyrch fawr i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd er mwyn sicrhau bod Refferendwm yr UE ym mis Mehefin 2016 mor effeithiol â phosibl.

Nid yw costau staff y Comisiwn na gorbenion corfforaethol yn cael eu priodoli i weithgarwch rhaglenni na phrosiectau, ond at ddibenion y nodyn hwn maent naill ai'n cael eu dyrannu neu eu dosrannu'n uniongyrchol fel y bo'n briodol rhwng Cyllid Etholiadol Pleidiau a gweithgarwch Gweinyddu Etholiadau. Dim ond costau ymylol cyflenwi yr adroddir arnynt fesul rhaglen a phrosiect i'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol ar hyn o bryd.

3. Gwariant

	2015-16 £000	2014-15 £000
Rhenti o dan brydlesau gweithredu		
Rhent eiddo	498	436
Cyfarpar	17	15
Arall		
Gwariant Adran 13 (Gweinyddu yn unig)*	3,268	3,962
Ymchwil	210	408
Ymgynghori	101	166
Recriwtio	134	136
Hyfforddi a datblygu staff	112	139
Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch	159	124
Teithio a chynhaliaeth – Comisiynwyr	17	14
Llety, gwaith cynnal a chadw	514	630
Cyhoeddusrwydd a chyhoeddiadau	171	159
Cynadleddau/Cyfarfodydd Cyhoeddus	47	51
Costau mapio	22	16
Llyfr nwyddau swyddfa a chyfnodolion	90	88
Warysau ac Archifo	60	46
TG/Ffôn	559	592
Taliadau Banc a'r Gyflogres	30	25
Ffioedd archwilio mewnol	74	61
	6,083	7,068
Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod		
Dibrisio	222	274
Amorteiddio	270	189
Ffioedd Archwilwyr y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	35	35
Ffioedd gwasanaethau eraill y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	0	0
Darpariaethau a wnaed yn ystod y flwyddyn	37	24
Darpariaethau wedi'u hadfer	0	0
Dileu Asedau	0	2
	564	524
	6,647	7,592

3.1 Mae'r costau staff, sef cyfanswm o £8,075K, yr adroddir arnynt yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cael eu hesbonio ymhellach yn y nodyn ar yr adroddiad staff yn yr Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio.

Adroddiad Staff

			2015-16 £000	2014-15 £000
	Staff a gyflogir yn barhaol	**Eraill**	**Cyfanswm**	**Cyfanswm**
Cyflogau	6,152	246	6,398	6,302
Costau nawdd cymdeithasol	508		508	458
Costau pensiwn eraill	1,151		1,151	1,018
Is-gyfanswm	**7,811**	**246**	**8,057**	**7,778**
Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol	0			0
Darpariaeth Costau Ymadael Gwirfoddol				
Cyfanswm costau net	**7,811**	**246**	**8,057**	**7,778**

Gwariant ar godi ymwybyddiaeth y cyhoedd*

Mae Adran 13 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o systemau etholiadol cyfredol yn y DU ac unrhyw systemau o'r fath sydd ar fin cael eu cyflwyno, ynghyd â materion o'r fath sy'n gysylltiedig ag unrhyw systemau sy'n bodoli eisoes neu ar fin cael eu cyflwyno fel y pennir gan y Comisiwn. Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiwn i gyflawni'r swyddogaeth hon yn y fath fodd fel y gwêl yn dda, i wneud hynny'n arbennig drwy gynnal rhaglenni addysg neu wybodaeth i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd; neu i wneud grantiau i bersonau neu gyrff eraill er mwyn eu galluogi i gyflawni rhaglenni o'r fath. Mae gwariant Adran 13 yn cael ei gyfyngu gan Orchymyn y Comisiwn Etholiadol (Terfyn ar Wariant Ymwybyddiaeth y Cyhoedd) i £7,500,000 mewn blwyddyn ariannol. Nid yw terfyn gwario Adran 13 yn berthnasol i weithgarwch ymwybyddiaeth y cyhoedd y darparwyd yn benodol ar ei gyfer ac a gynhaliwyd o dan ddeddfwriaeth ar wahân i PPERA. Yn 2015-16, ymhlith yr enghreifftiau o wariant ar godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o dan ddeddfwriaeth arall mae'r refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd ac ymestyn etholfraint pleidleiswyr yn yr Alban.

Refferendwm yr UE ac etholfraint pleidleiswyr

Mae rhagor o wariant ar godi ymwybyddiaeth y cyhoedd wrth gynnal Refferendwm yr UE wedi'i gynnwys fel gwariant gweithredu arall yn nodyn 4.

Cyfanswm y gwariant ar Godi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd ar gyfer 2015-16 oedd £4,221,630 (2014–15: £9,434,000).

	2015-16	**2014-15**

	£'000	£'000
Gwariant craidd ar ymwybyddiaeth y cyhoedd *	52	3,962
Rhaglen Cofrestriad Etholiadol Unigol	42	3,937
Adran 13 **	3,202	-
Gwariant ar Godi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd yn amodol ar derfyn Adran 13	3,296	7,899
Refferendwm Annibyniaeth yr Alban	-	1,535
Refferendwm yr UE	802	-
Ymestyn Etholfraint Pleidleiswyr (yr Alban)	124	-
	926	1,535
Cyfanswm gwariant ar Godi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd	4,222	9,434

*Yr ymgyrch ar gyfer Pleidleiswyr o'r Lluoedd Arfog a hyrwyddo cyfranogiad
**Etholiadau Mai 2015 a Mai 2016

4. Gwariant Gweithredu Arall

	2015-16 £000	2014-15 £000
Grantiau datblygu polisi	1,673	1,873
Refferendwm yr Alban	0	1,623
Cofrestriad Etholiadol Unigol	313	4,246
Refferendwm yr UE	1,089	0
Ymestyn Etholfraint Pleidleiswyr	167	0
	3,242	7,742

	2015-16 £000	2014-15 £000
Policy Development grants	1,673	1,873
Scottish Referendum	0	1,623
Individual Electoral Registration	313	4,246
EU Referendum	1,089	0
Extending the voter franchise	167	0

3,242	7,742

Mae Adran 12 o PPERA yn darparu i'r Comisiwn Etholiadol weinyddu cynllun i dalu grantiau datblygu polisi i bleidiau gwleidyddol cofrestredig. Cynhwysir y cynllun presennol yng Ngorchymyn Etholiadau (Cynllun Grantiau Datblygiadau Polisi) 2002.

Mae'r cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddyrannu £2,000,000 bob blwyddyn i bleidiau gwleidyddol cofrestredig i gynorthwyo gyda chostau datblygu polisïau i'w cynnwys mewn maniffestos ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon, neu etholiadau Seneddol yr Alban, San Steffan neu Senedd Ewrop. I fod yn gymwys i gael ei chynnwys yn y cynllun, rhaid i blaid wleidyddol gofrestredig fod ag o leiaf ddau AS yn eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 Mawrth cyn y flwyddyn dan sylw, sydd wedi tyngu llw o deyrngarwch a ddarperir gan Ddeddf Llwon Seneddol 1866.
Mae'r dyraniad blynyddol o £2,000,000 yn cael ei rannu rhwng y pleidiau cymwys yn ôl y fformiwla dyrannu a nodir yn y Cynllun.

Cyflwynwyd ffurflenni gwariant gan bob plaid; hawliodd chwech o'r wyth am eu dyraniad llawn, a hawliodd y Blaid Geidwadol ac UKIP am lai na'u dyraniad llawn, gan arwain at daliadau o £1,673,000. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi'r dyraniad grant, y gwariant a'r adroddiad archwilio ar gyfer pob plaid gymwys.

5. Incwm

	2015-16 £000	2014-15 £000
	Cyfanswm	**Cyfanswm**
Incwm Gweithredu		
Cofrestriadau Newydd Pleidiau Gwleidyddol	11	20
Ailgofrestru Pleidiau Gwleidyddol	8	10
Addasu Cofrestriadau Pleidiau Gwleidyddol	1	2
Taliadau/Trosglwyddo costau i gyrff eraill		
Refferendwm Annibyniaeth yr Alban	0	1,685
Gwaith Ymchwil Swyddfa Cabinet EM		68
Llywodraeth yr Alban	182	
Cosbau a dalwyd gan Bleidiau Gwleidyddol	40	29
Incwm Gweithredu	241	1,814

6. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

	Gwelliannau i Brydlesau £000	Cyfarpar Swyddfa £000	Technoleg Gwybodaeth - Caledwedd £000	Dodrefn a Ffitiadau £000	Cyfanswm £000
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2015	889	2	629	58	1,578
Ychwanegiadau	0	0	144	3	147
Ar 31 Mawrth 2016	889	2	773	61	1,725

Dibrisio					
Ar 1 Ebrill 2015	730	2	521	49	1,302
Codwyd amdano yn ystod y flwyddyn	137	0	75	9	221
Ar 31 Mawrth 2016	867	2	596	58	1,523
Swm i'w gario ar 31 Mawrth 2016	22	0	177	3	202
Swm i'w gario ar 31 Mawrth 2015	159	0	108	9	276
Cyllido asedau:					
Wedi'u perchnogi	22	0	177	3	202
Swm i'w gario ar 31 Mawrth 2016	22	0	177	3	202

	Gwelliannau i Brydlesau £000	**Cyfarpar Swyddfa £000**	**Technoleg Gwybodaeth - Caledwedd £000**	**Dodrefn a Ffitiadau £000**	**Cyfanswm £000**
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2014	889	2	568	58	1,517
Ychwanegiadau	0	0	61		61
Ar 31 Mawrth 2015	889	2	629	58	1,578
Dibrisio					
Ar 1 Ebrill 2014	551	2	437	38	1,028
Codwyd amdano yn ystod y flwyddyn	179	0	84	11	274
Ar 31 Mawrth 2015	730	2	521	49	1,302
Cyllido asedau:					
Wedi'u perchnogi	159	0	108	9	276
Ar 31 Mawrth 2015	159	0	108	9	276

7. Asedau anghyffyrddadwy

	Technoleg Gwybodaeth	**Trwyddedau Meddalwedd**	**Gwefannau**	**Technoleg Gwybodaeth - Asedau sy'n cael eu creu**	**Cyfanswm**
	£000	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2015	1,124	152	1,793	0	3,069
Ychwanegiadau	36		48		84
Ar 31 Mawrth 2016	1,160	152	1,841	0	3,153
Amorteiddio					

				Cyfarwyddyd Cyfrifon	
Ar 1 Ebrill 2015	1,042	107	1,476	0	2,625
Codwyd amdano yn ystod y flwyddyn	52	15	203	0	270
Ar 31 Mawrth 2016	1,094	122	1,679	0	2,895
Swm i'w gario ar 31 Mawrth 2016	66	30	162	0	258
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2014	1,092	117	1,547	14	2,770
Ychwanegiadau	29	35	258		322
Gwarediadau	(11)		(12)		(23)
Ailddosbarthu	14			(14)	0
Ar 31 Mawrth 2015	1,124	152	1,793	0	3,069
Amorteiddio					
Ar 1 Ebrill 2014	981	92	1,384	0	2,457
Codwyd amdano yn ystod y flwyddyn	70	15	104	0	189
Gwarediadau	(9)		(12)		(21)
Ailddosbarthu					0
Ar 31 Mawrth 2015	1,042	107	1,476	0	2,625

Mae asedau anghyffyrddadwy yn cynnwys meddalwedd Technoleg Gwybodaeth ac asedau TG sy'n cael eu datblygu.

8. Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2016. (2015: dim)

9. Ymrwymiadau o dan brydlesau

Prydlesau gweithredu

Rhoddir cyfanswm y taliadau prydlesau gofynnol yn y dyfodol o dan brydlesau gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

	2015-16 £000	2014-15 £000
Mae'r rhwymedigaethau o dan brydlesau gweithredu ar gyfer y cyfnodau canlynol yn cynnwys:		

Adeiladau				
O fewn blwyddyn		396		440
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd		3,059		96
Ar ôl pum mlynedd				
		3,455		536
Arall:				
O fewn blwyddyn		12		12
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd		10		10
Ar ôl pum mlynedd				
		22		22
Cyfanswm Prydlesau Gweithredu		**3,477**		**558**

Nid oedd unrhyw is-brydlesau ac ni ddisgwylir unrhyw dderbyniadau yn ystod y flwyddyn.

Gwariodd y Comisiwn gyfanswm o £691,000 mewn taliadau prydlesau yn ystod y flwyddyn. Ni wnaed unrhyw daliadau rhent nac is-brydlesau digwyddiadol yn ystod y flwyddyn. Mae ymrwymiad y Comisiwn o dan brydlesau ar gyfer rhentu'r eiddo yn unig, ac nid y tir.

10. Offerynnau Ariannol

Gan fod gofynion y Comisiwn o ran arian parod yn cael eu bodloni drwy'r broses Amcangyfrifon, mae offerynnau ariannol yn llai pwysig ac felly'n achosi llai o risg nag mewn corff o faint tebyg y tu allan i'r sector cyhoeddus.

Nid oes gan y Comisiwn unrhyw bwerau i fenthyg na buddsoddi arian dros ben. Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig y Comisiwn Etholiadol ac felly risg fach iawn a wyneba'r Comisiwn Etholiadol o safbwynt risg credyd, risg hylifedd neu risg y farchnad.

Nid yw'r Comisiwn yn dal unrhyw offerynnau ariannol cymhleth. Yr unig offerynnau ariannol ar wahân i arian parod sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hyn yw symiau derbyniadwy a symiau taladwy (gweler nodiadau 12-14).

11. Arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod

	2015-16 £000	**2014-15 £000**
Gweddill ar 1 Ebrill 2015	11	0

Newid net mewn gweddillion arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod	(12)	11
Gweddill ar 31 Mawrth 2016	(1)	11
Roedd y gweddillion canlynol ar 31 Mawrth 2016 yn cael eu dal yn y mannau canlynol:		
Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth	(1)	11
Gweddill ar 31 Mawrth 2016	(1)	11

12. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

	2015-16 £000	2014-15 £000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Symiau masnach derbyniadwy		
Symiau derbyniadwy eraill	196	15
Ernesau a blaensymiau	24	27
Rhagdaliadau ac incwm cronnus	203	188
Symiau sy'n ddyledus o'r Gronfa Gyfunol mewn perthynas â chyflenwi	1	
	424	230

13. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	2015-16	2014-15
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Trethi eraill a nawdd cymdeithasol	400	352
Symiau masnach taladwy	521	873
Symiau taladwy eraill	20	72
Croniadau ac incwm wedi'i ohirio	856	1,229
Symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwi ond nad oeddent wedi'u gwario ar ddiwedd y flwyddyn		11
	1,797	2,537
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:		
Croniadau, incwm wedi'i ohirio a symiau taladwy eraill	242	4
	242	4

14. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	Pensiwn £000	Costau ymadael yn gynnar £000	Arall £000	Cyfanswm £000
Gweddill ar 1 Ebrill 2015	211	18	375	604
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	7		30	37
Darpariaethau nad oedd eu hangen a adferwyd				0
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(14)	(9)		(23)
Ennill Actiwaraidd	(10)			(10)
Gweddill ar 31 Mawrth 2016	**194**	**9**	**405**	**608**

	Pensiwn £000	Costau ymadael yn gynnar £000	Arall £000	Cyfanswm £000
O fewn blwyddyn	14	9	0	23
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	52	0	405	457
Ar ôl blwyddyn	128			128
Gweddill ar 31 Mawrth 2016	**194**	**9**	**405**	**608**

Dadansoddiad o amseru disgwyliedig llifau wedi'u disgowntio.

14.1. Datganiad Rhwymedigaeth Pensiwn

Mae'r Comisiwn yn darparu ar gyfer y rhwymedigaeth pensiwn i rai o gyn-Gomisiynwyr Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr, yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau i'r Comisiwn ar 1 Ebrill 2002.

Nid yw'r ddarpariaeth pensiwn wedi'i hariannu, gyda buddiannau'n cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus ac maent wedi'u gwarantu gan y cyflogwr. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Gofynnwyd am gyngor actiwaraidd er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i phennu ar lefel realistig. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth er mwyn rhoi gwerth ar y rhwymedigaeth pensiwn ar 31 Mawrth 2016. Cyfrifir am enillion a cholledion actiwaraidd drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Gan nad yw'r rhwymedigaethau pensiwn yn berthnasol, nid oes angen bodloni gofynion datgelu llawn IAS 19.

Y tybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:

	2015-16	**2014-15**
Tybiaethau chwyddiant CPI	2.20%	2.20%
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	4.20%	4.20%
Cyfradd y cynnydd ar gyfer pensiynau	2.20%	2.20%
Y gyfradd a ddefnyddiwyd i ddisgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	3.60%	3.55%

O 2010-11 ymlaen, newidiwyd y sail ar gyfer mynegeio buddiannau ymddeol o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Paratôdd Adran Actiwari'r Llywodraeth brisiad ar 31 Mawrth 2016

	2015-16 £000	**2014-15 £000**
Darpariaeth ar 1 Ebrill 2015	211	206
Cost Llog	7	9
Colled/(Ennill) Actiwaraidd	(10)	10
Llai buddiannau a dalwyd	(14)	(14)
Costau gwasanaethau yn y gorffennol		
Gwerth presennol y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	194	211

Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	**Gwerth ar 31/03/2016 £'000**	**Gwerth ar 31/03/2015 £'000**	**Gwerth ar 31/03/2014 £'000**	**Gwerth ar 31/03/2013 £'000**	**Gwerth ar 31/03/2012 £'000**
Rhwymedigaeth o ran					
Aelodau gweithredol	0	0	0	0	0
Pensiynwyr sydd wedi gohirio				0	0
Pensiynwyr presennol	194	211	206	197	197
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun mewn perthynas â phensiynwyr presennol	194	211	206	197	197

Hanes colledion/(enillion) profiad	Gwerth ar 31/03/2016 £'000	Gwerth ar 31/03/2015 £'000	Gwerth ar 31/03/2014 £'000	Gwerth ar 31/03/2013 £'000	Gwerth ar 31/03/2012 £'000
Colled / (ennill) profiad sy'n deillio o rwymedigaethau'r cynllun					
Swm(£'000)	-1	0	5	2	7
Canran o rwymedigaethau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	-0.5%	0.0%	2.4%	1.0%	3.6%

14.2. Costau ymadael yn gynnar

Mae'r Comisiwn hefyd yn darparu ar gyfer y rhwymedigaeth i dalu yn y dyfodol mewn perthynas â dau aelod o staff a adawodd y Comisiwn ar delerau ymddeol yn gynnar yn 2007 a 2009. Codwyd cyfanswm y rhwymedigaeth pensiwn hyd at yr oedran ymddeol arferol mewn perthynas â phob cyflogai fel gwariant yn y flwyddyn yr ymadawodd y cyflogai. Mae'r ddarpariaeth sy'n weddill yn adlewyrchu'r rhwymedigaeth sydd heb ei thalu nes iddynt gyrraedd eu pen-blwydd yn 60 oed.

15. Arall

Mae'r Comisiwn yn cydnabod rhwymedigaeth i wneud taliadau dadfeiliad i landlordiaid ei swyddfeydd pan ddaw prydlesau unigol i ben. Mae taliadau o'r fath yn adlewyrchu cost ddisgwyliedig adfer addasiadau ac addurniadau'r tenantiaid yn llawn ar adeg ymadael. Caiff lefel y ddarpariaeth ei hasesu gan reolwyr y Comisiwn yn seiliedig ar asesiad proffesiynol gan syrfëwr siartredig o'r costau yn y dyfodol.

16. Colledion a thaliadau arbennig

Ni fu unrhyw golledion na thaliadau arbennig yn ystod y cyfnod adrodd y mae angen eu datgelu ar wahân oherwydd eu natur neu eu swm.

17. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd.

Yn unol â gofynion IAS 10, caiff digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd eu hystyried hyd at y dyddiad y caiff y cyfrifon eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel dyddiad Tystysgrif y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw ddigwyddiadau ers 31 Mawrth 2016 a fyddai'n effeithio ar y datganiadau ariannol.

18. Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Gwnaeth y Comisiwn Etholiadol gaffael yswiriant masnachol ar gyfer rhai risgiau a oedd yn deillio o weithgareddau refferendwm yr UE a gyflawnwyd gan y Prif Swyddog Cyfrif, y Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif, Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol neu Swyddogion Cyfrif a'u staff. Mae'n bosibl bod nifer o Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol a Swyddogion Cyfrif eisoes wedi'u hyswirio wrth gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â Refferendwm yr UE er nad oes cysondeb o ran lefelau na chwmpas yr yswiriant.

Mae'r indemniad yn ddiderfyn, ond cyfyngir arno i'r graddau canlynol:

- Ni fydd yn talu unrhyw gostau sy'n deillio'n llawn neu'n rhannol o unrhyw esgeulustod bwriadol neu'n fwriadus gan Swyddog;

- Ni fydd yn cwmpasu sefyllfaoedd lle bo'r polisi yswiriant yn cynnig dull yswirio amgen.

Os gelwir am y rhwymedigaeth, caiff darpariaeth ar gyfer unrhyw daliad ei wneud drwy'r weithdrefn gyflenwi arferol.

Bydd yr indemniad yn parhau i fod yn weithredol tan ddiwedd y 13eg mis ar ôl dyddiad pleidlais y refferendwm. Bydd yr indemniad yn cwmpasu'r holl hawliadau a wneir yn ystod y cyfnod hwnnw, ni waeth pryd y cânt eu setlo yn derfynol.

Y COMISIWN ETHOLIADOL

CYFARWYDDYD CYFRIFON A RODDWYD GAN Y TRYSORLYS YN UNOL Â PHARAGRAFF 17(2) ATODLEN 1 I DDEDDF PLEIDIAU GWLEIDYDDOL, ETHOLIADAU A REFFERENDA 2000.

1. Bydd y Comisiwn Etholiadol yn paratoi cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a blynyddoedd ariannol dilynol yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r argraffiad o Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ('y FReM') a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi.

2. Rhaid paratoi'r cyfrifon fel eu bod:

(a) yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Comisiwn Etholiadol ar 31 Mawrth 2011 ac ar ddiwedd blynyddoedd ariannol dilynol, ac o'i alldro adnoddau net, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny;

(b) datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol nad yw wedi'i gymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

3. Bydd yn angenrheidiol cydymffurfio â gofynion y FReM, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, er mwyn i'r cyfrifon roi darlun cywir a theg. Mewn amgylchiadau eithriadol, os yw cydymffurfio â gofynion y FReM yn anghyson â'r gofyniad i roi darlun cywir a theg, dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i roi darlun cywir a theg y dylid gwyro oddi wrth ofynion y FReM. Mewn achosion o'r fath, dylid arfer barn ddeallus a diduedd i lunio dull arall priodol a ddylai fod yn gyson â nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw ac ysbryd y FReM. Dylid trafod unrhyw wyriad sylweddol oddi wrth y FReM yn y lle cyntaf gyda'r Trysorlys.

4. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn disodli'r cyfarwyddyd dyddiedig 27 Chwefror 2006.

Chris Wobschall
Pennaeth, Polisi Sicrwydd ac Adroddiadau Ariannol, Trysorlys EM
15 Ebrill 2011

Manylion cyswllt

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda. Rydym yn gweithio i gefnogi democratiaeth iach, lle y seilir etholiadau a refferenda ar ein hegwyddorion sef ymddiriedaeth, cyfranogiad a dim dylanwad gormodol.

Ein swyddfeydd:

The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ
Ffôn: 020 7271 0500
info@electoralcommission.org.uk

Cymru
Y Comisiwn Etholiadol
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Caerdydd CF14 3UZ
Ffôn: 029 2034 6800
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Yr Alban
The Electoral Commission
Lothian Chambers
59 – 63 George IV Bridge
Edinburgh EH21 1RN
Ffôn: 0131 225 0200
infoscotland@electoralcommission.org.uk

Gogledd Iwerddon
The Electoral Commission
Seatem House
28-32 Alfred Street
Belfast BT2 8EN
Ffôn: 028 9089 4020
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Y
Comisiwn
Etholiadol

Y Comisiwn Etholiadol
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ
Ffôn 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn gorff annibynnol a grëwyd gan Senedd y DU. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda. Rydym yn gweithio i gefnogi democratiaeth iach, lle mae etholiadau a refferenda yn seiliedig ar ein hegwyddorion o ymddiriedaeth, cyfranogiad, a dim dylanwad gormodol.

Rhoi pleidleiswyr yn gyntaf